# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 23 EBRILL 2018 am 1.00 y p'nawn | | MONDAY, 23 APRIL, 2018 at 1:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1 - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Lewis Davies, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Shaun Redmond

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales).

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL - 12 MAWRTH, 2018** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2018.

3 **RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL LLANGEFNI (CORN HIR, BODFFORDD AC HENBLAS)** (Tudalennau 15 - 46)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Dysgu.

4 **PERFFORMIAD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - CYNNYDD AR Y MEYSYDD BLAENORIAETH** (Tudalennau 47 - 66)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol.

5 **TRAWSNEWID GWASANAETHAU ANABLEDDAU DYSGU** (Tudalennau 67 - 72)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion.

6 **ENWEBIAD I BANEL SGRIWTINI ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION** (Tudalennau 73 - 76)

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Sgriwtini.

7 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 77 - 84)

Cyflwyno Blaen Raglen Waith y Pwyllgor 2017/18 i 2018/19.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd) (Yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, Shaun Redmond, Alun Roberts, J. Arwel Roberts *(Is-Gadeirydd am y cyfarfod hwn),* Nicola Roberts<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Aelod Portffolio**<br><br>R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant) |
| **WRTH LAW** : | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Dysgu<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU** | Y Cynghorwyr Aled Morris Jones (Cadeirydd), Trefor Lloyd Hughes, Richard O. Jones, Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio** : Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), John Griffith (Aelod Portffolio Cyllid), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol) Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br><br>**Swyddogion** : Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau), Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>**Eraill** : Y Cynghorydd Jason Zalot (Maer Cyngor Tref Biwmares), Rhian Jones (Cadeirydd Pwyllgor Ymateb i Ymgynghoriad Ysgol Biwmares), Emma Taylor (Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Biwmares) Mr Islwyn Humphreys (Corff Llywodraethol Ysgol Talwrn) Bethan Wyn Jones (Rhieni a Thrigolion Talwrn) |

---

Oherwydd absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Dylan Rees, yr Is-Gadeirydd. Etholwyd y Cynghorydd J. Arwel Roberts yn Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig o'r Pwyllgor.

DRAFT

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gan gynnwys Aelodau, Swyddogion a chynrychiolwyr Ysgol a chymuned Biwmares ac Ysgol a chymuned Talwrn.

Gyda chaniatâd y Pwyllgor, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n newid y trefn yr eitemau ar yr rhaglen ac yn cymryd eitemau 4 a 5 cyn eitem 3. Cytunodd y Pwyllgor i'r newid.

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Alun Roberts ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu o ran eitem 4 ar y rhaglen fel aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol Biwmares.

Datganodd y Cynghorydd Nicola Roberts ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu o ran eitem 5 ar y rhaglen fel aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol y Graig ac fel rhiant plentyn sy'n ddisgybl yn yr ysgol.

Datganodd y Cynghorydd Lewis Davies ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu yn eitem 4 a y rhaglen fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Llangoed.

## 2 COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir yn amodol ar y gwelliant a nodwyd:

- 31 Ionawr, 2018 (arbennig)
- 5 Chwefror, 2018, yn amodol ar gynnwys enw'r Cynghorydd Shaun Redmond yn y rhestr o'r rheini a oedd yn bresennol.

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 3 2017/18

**Penderfynwyd gohirio ystyried yr eitem hon oherwydd diffyg amser**. Roedd yr eitem wedi cael ei symud ar raglen y cyfarfod er mwyn caniatáu i eitemau 4 a 5 gael eu trafod yn gyntaf.

## 4 RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL SEIRIOL

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Dysgu yn cynnwys yr adroddiad ar ganlyniad yr Ymgynghoriad Statudol ar ailgyflunio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol ynghyd ag argymhellion ar gyfer symud ymlaen gyda hynny.

Rhoes yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant adroddiad ar y broses ymgynghori a gynhaliwyd o 20 Tachwedd, 2017 hyd 6 Chwefror, 2018 a oedd wedi cynnwys cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni yn Ysgol Llangoed, Ysgol Biwmares ac Ysgol Llandegfan. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn niferus; roedd yr adroddiad yn nodi'r negeseuon o'r sylwadau a wnaed gan randdeiliaid yn y tair ysgol yn ogystal â'r ymatebion i'r arolwg ar-lein. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at yr argymhellion a wnaed yn dilyn y broses ymgynghori sy'n cynnwys cau Ysgol Biwmares; gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y rhain ac argymell i'r Pwyllgor Gwaith eu mabwysiadau yn ei gyfarfod a gynhelir ar 26 Mawrth, 2018. Eglurodd yr Aelod Portffolio fod yr Awdurdod wedi ymrwymo i foderneiddio ei ysgolion fel rhan o, ac yn unol â, Rhaglen Gyfalaf Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru 21, sef rhaglen y mae'r Awdurdod a'r Weinyddiaeth yn ei chefnogi ar sail y gyrwyr ar gyfer newid a ddisgrifir yn yr adroddiad ymgynghori. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ei adeiladau ysgol yn creu amgylchedd

dysgu dymunol sy'n ysgogi plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol a datblygu sgiliau bywyd, yn flaenoriaeth uchel.

Dywedodd yr Aelod Portffolio, er y gall y broses ymddangos yn gymharol syml, codwyd materion arwyddocaol yn ystod y cyfnod hwnnw, ac mae'n amlwg o weithredu'r rhaglen foderneiddio ar yr Ynys hyd yma bod rhai ysgolion wedi gorfod cau fel bod eraill yn gallu datblygu ac, mewn rhai achosion, fel y gall ysgolion newydd sbon gymryd eu lle. Cydnabu'r Aelod Portffolio nad yw cau ysgol yn benderfyniad hawdd i'w ystyried nac i'w gymryd ond weithiau, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau o'r fath ac mae hwn yn un o’r achlysuron hynny. Os yw'r Awdurdod am fod yn gyson â'r egwyddorion moderneiddio y mae wedi'u gweithredu hyd yn hyn, mae'n rhaid iddo gario ymlaen a chymryd penderfyniadau anodd. Serch hynny, mae'r Awdurdod wedi ystyried y sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad ac yn cydnabod bod hwn yn fater sy'n creu teimladau ac emosiynau cryf ymhlith rhieni am ei fod yn ymwneud ag addysg eu plant. Fodd bynnag, mae'r argymhellion a wnaed yn seiliedig ar y casgliadau y daethpwyd iddynt, er eu bod yn cynnwys cau Ysgol Biwmares, yn mynd y tu hwnt i'r un ysgol honno ac yn cymryd i ystyriaeth anghenion addysgol ardal Seiriol yn ei chyfanrwydd.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu bod yr adroddiad ymgynghori yn ceisio rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r broses ymgynghori statudol a gynhaliwyd - mae Rhan 4 yr adroddiad yn crynhoi prif sylwedd y sylwadau o'r cyfarfodydd ymgynghori yn y tair ysgol. Mae Adran 5 yr adroddiad yn nodi'r safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr o Ysgol Biwmares sydd, ar y cyd, yn adlewyrchu teimlad cryf y dylai Ysgol Biwmares aros ar agor. Yn ogystal â'r 58 ymateb a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, derbyniwyd deiseb electronig a lofnodwyd gan 543 o bobl a deiseb bapur a lofnodwyd gan 363 o bobl ac a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 28 Chwefror, 2018. Mae'r ddwy ddeiseb yn mynegi gwrthwynebiad pendant i'r bwriad i gau Ysgol Biwmares. Derbyniwyd amrediad o ohebiaethau fel y cânt eu rhestru yn cynnwys llythyr gan Gorff Llywodraethol Ysgol Biwmares yn cynnwys 7 atodiad, un ohonynt yn Asesiad Effaith Gymunedol ac un arall yn gyfres o bedwar o opsiynau amgen sydd wedi'u rhestru fel A i D yn y dadansoddiad yn adran 5.18 yr adroddiad. Gan ddefnyddio’r un meini prawf sgorio â’r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer yr opsiynau gwreiddiol, dywedodd y Swyddog fod Opsiwn A yn sgorio 71 tra bod Opsiynau, B, C a D i gyd yn sgorio oddeutu 77 sy'n dod â nhw’n agos at yr opsiynau a ffefrir a sgoriodd 79. Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried yr Asesiad Effaith Gymunedol a luniwyd gan Bwyllgor Ymateb Ysgol Biwmares i’r Ymgynghori; ac yn Atodiad 10 yr adroddiad, nodir yr ymatebion cymharol ohono a’r arolwg a gynhaliwyd gan yr Awdurdod, ac mae'r rhain yn dangos sut mae gwahanol grwpiau targed y ddau arolwg wedi arwain at ganlyniadau gwahanol. Mae'r asesiad effaith gymunedol gan y grŵp lleol a ganolbwyntiodd yn bennaf ar ymateb rhanddeiliaid Biwmares yn dangos bod 95% o'r ymatebwyr yn anghytuno â chau Ysgol Beaumaris tra bod asesiad effaith gymunedol yr Awdurdod yn canolbwyntio ar randdeiliaid o'r tair ysgol sydd dan ystyriaeth yn ardal Seiriol ac yn nodi bod nifer y rhai sy'n anghytuno â chau Ysgol Biwmares yn agosach at 47%. Dywedodd y Swyddog fod Adran 6 yr adroddiad yn amlinellu ymatebion Ysgol Llandegfan tra bod adran 7 yn cyfeirio at yr ymatebion gan Ysgol Llangoed.

Anerchwyd y Pwyllgor gan Emma Taylor, Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Biwmares, Rhian Jones, Cadeirydd Pwyllgor Ymateb i Ymgynghoriad Ysgol Biwmares a'r Cynghorydd Jason Zalot, Maer Tref Biwmares a rhannwyd eu sylwadau nhw a sylwadau cymuned Biwmares ar y cynigion i foderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol. Pwysleisiwyd y gwrthwynebiad gwirioneddol sydd yn y gymuned i’r bwriad i gau Ysgol Biwmares, ac yng ngoleuni hyn, a'r effaith andwyol ddifrifol iawn y byddai cau'r ysgol yn ei chael ar dref Biwmares, roeddent yn annog y Pwyllgor i argymell bod y cynnig naill ai'n cael

DRAFT

ei wrthod neu’n cael ei ohirio hyd ar gyfer ystyriaeth bellach. Wrth wneud eu sylwadau, daethant â’r materion canlynol hefyd i sylw'r Pwyllgor -

- Bod Corff Llywodraethol Ysgol Biwmares wedi gweithio'n galed gyda'r Pwyllgor lleol a sefydlwyd i Ymateb i'r Ymgynghoriad, cynghorwyr lleol, rhieni a staff yr ysgol i ddatblygu a chynhyrchu 4 o opsiynau amgen a chredadwy yn lle’r hyn a gynigir gan yr Awdurdod. Gwnaed hyn ar ôl derbyn sicrwydd yn ystod y cam ymgynghori anffurfiol y byddai'r Awdurdod yn ystyried opsiynau eraill. Gallai'r opsiynau amgen sy’n cael eu cyflwyno achub dyfodol Ysgol Biwmares a byddai tri o’r opsiynau yn golygu y byddai’r tair ysgol yn yr ardal oll yn aros ar agor. At hynny, o dan y system sgorio a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod, roedd yr holl opsiynau amgen a gynigiwyd yn sgorio rhwng 70 a 80 o bwyntiau, sef yn gyfartal â'r opsiynau sgôr uchaf a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod.
- Nid yw'n glir a yw’r opsiynau hyn wedi cael eu hystyried o ddifrif, sy'n siomedig o ystyried y gwaith y mae hyn wedi ei olygu a’r gefnogaeth iddynt. Dylid edrych arnynt yn yn fanwl a’u cynnwys yn llawn yn y broses ymgynghori. Mae’n esgeulus ar ran y Cyngor i daro golwg sydyn drostynt yn unig ac nid yw'n gwneud dim i leddfu’r amheuon bod y penderfyniad i gau Ysgol Biwmares wedi cael ei wneud o'r cychwyn cyntaf.
- Bod yr Awdurdod wedi cynnal yr ymgynghoriad lleiaf posibl ac nad yw'n gwrando ar bryderon y gymuned nac yn ateb y cwestiynau a godwyd yn yr ymgynghoriad. Mae'r Arolwg ar yr Effaith Gymunedol yn dangos yn glir y rhan bwysig y mae'r ysgol yn ei chwarae ym mywyd y gymuned, y pryderon sydd gan bobl am golli eu hysgol a'r effaith negyddol y byddai hyn yn ei gael ar y dref gyfan. Mae'r ysgol yn rhan annatod o'r gymuned; y bwriad yw ei chau a cheisio integreiddio cyfleuster Gofal Ychwanegol ar y safle nad yw'r dref ei eisiau. Mae hyn wedi gwneud pobl yn ddig.
- Bod Biwmares yn wynebu'r posibilrwydd o fod yr unig dref ar yr Ynys heb ysgol gyda'r goblygiadau sydd ynghlwm wrth hynny o safbwynt ei thwf a’i ffyniant yn y dyfodol. Nid yw'r dref wedi derbyn llawer o gymorth i greu cyflogaeth i ysbrydoli'r genhedlaeth iau i aros yno. Yn lle hynny, mae'r dref wedi colli gwasanaethau, mae cyfleoedd ar gyfer tai cymdeithasol wedi cael eu rhwystro ac mae’n wynebu cael cyfleuster a fydd yn dod â mwy o bobl sydd wedi ymddeol i'r dref.
- Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion yn nodi gofynion penodol mewn perthynas â chynigion sy’n ymwneud ag ad-drefnu ysgolion. Mae'n nodi fod rhaid i’r cynigydd, o fewn 13 wythnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghori, gyhoeddi adroddiad ymgynghori sy'n crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, sy'n ymateb i'r rhain trwy gynnig eglurhad, newid y cynnig neu wrthod y pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny ac sydd hefyd yn nodi barn Estyn. Nid yw barn Estyn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ymgynghori a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini er bod y Côd yn mynnu hynny ac er ei fod wedi'i wneud yn glir o'r blaen fod barn Estyn yn ffactor arwyddocaol yn yr achos dros newid.
- Nid yw'r adroddiad Ymgynghori yn bodloni'r meini prawf penodol iawn a nodir yn y Côd. Dylai'r Awdurdod felly gymryd amser i baratoi dogfen fwy cynhwysfawr sy'n bodloni gofynion y Côd.
- Er bod cofrestr risg wedi cael ei chreu mewn perthynas â’r cynigion ar gyfer newid, nid yw'r ddogfen yn egluro sut y bydd y rhain yn cael sylw, gan gynnwys y risg y byddai rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgolion heblaw Ysgol Llangoed neu Ysgol Llandegfan.
- Nad yw'r ddogfen yn nodi costau ariannol manwl y cynnig i ad-drefnu gan gynnwys yr arbedion refeniw a fyddai’n deillio o'r cynigion.
- Mewn ardaloedd eraill lle mae ysgol wedi cau, cynigwyd ysgolion newydd mawr i leddfu’r ergyd; nid dyma'r achos yn ardal Seiriol er bod Biwmares yn ddewis amlwg ar gyfer ysgol newydd.

DRAFT

- Rhaid cofio y bydd y penderfyniad yn arwain at ganlyniadau yn y pen draw, ac y bydd y canlyniadau hynny'n ymestyn y du draw i ystyriaethau addysgol yn unig ac y byddant yn effeithio ar y dref a'r gymuned am flynyddoedd i ddod.

Eglurodd y Pennaeth Dysgu nad oedd ymateb Estyn i'r cynigion wedi ei dderbyn hyd yma ac y bydd yn mynd ar ôl hynny. Dywedodd fod y Gwasanaeth yn cydnabod bod teimladau cryf yn y gymuned ynglŷn â'r cynigion, ac er bod yr Awdurdod wedi ceisio crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd mewn modd sydd mor deg â phosib yn yr adroddiad ymgynghori, cydnabyddir, oherwydd nifer yr ymatebion a dderbyniwyd, nad oes modd adlewyrchu pob sylw yn unigol.

Siaradodd y Cynghorwyr Lewis Davies ac Alun Roberts fel Aelodau Lleol. Cyflwynodd y Cynghorydd Lewis Davies 12 gwestiwn yn gofyn am eglurhad ynghylch rhai o'r materion a godwyd gan y gymuned, llywodraethwyr yr ysgol a'r cyngor tref gan gynnwys y rhai y cyfeirir atynt uchod ac eraill mewn perthynas â'r defnydd o adeilad yr ysgol wedi iddi gau; datblygiadau posib ar y safle yn ychwanegol at y cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol; gofynion y CDLl ar y Cyd mewn perthynas â Biwmares fel canolfan gwasanaethau lleol a nodwyd; ystyried statws Biwmares fel tref a bwrdeistref frenhinol; cadernid y broses ymgynghori a chyfranogiad rhanddeiliaid; y cynlluniau ar gyfer darparu'r gwasanaethau heblaw am rai addysgol sydd ar hyn o bryd yn cael eu darparu o'r ysgol; effaith ar yr ôl troed carbon yn sgil y traffig cynyddol rhwng y cartref a'r ysgol (plant yn gorfod teithio i lefydd eraill) pe byddai'r ysgol yn cau.

Dywedodd y Cynghorydd Alun Roberts, er bod y cynigion yn ymddangos yn rhesymol yn seiliedig ar ystadegau moel, maent yn annerbyniol yn ei farn ef ar sail Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau weithio gyda chyrff eraill i greu cymunedau hyfyw, cadarn a llwyddiannus; cymunedau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, tegwch a chydlyniant a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - ni fydd hyn yn bosib os bydd Ysgol Biwmares yn cau. I'r gwrthwyneb, os bydd yr ysgol yn cau, bydd yn dinistrio'r gymuned. Er bod y ddarpariaeth addysgol yn Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan o ansawdd uchel, mae'r pentrefi yn eithaf anghysbell ac nid yw'r cysylltiadau ffyrdd ymysg y gorau. Mae trigolion Biwmares felly'n fwy tebygol o ymarfer eu dewis fel rhieni yn seiliedig ar eu gwaith a phatrymau eu bywydau, gan olygu y bydd llawer yn edrych ar ysgolion yn ardal Bangor, yn enwedig gan fod cynlluniau ar y gweill ar gyfer dwy ysgol newydd yn y ddinas sy'n ei gwneud yn ddeniadol o ran addysg a hwylustod. Ychwanegodd yr Aelod Lleol nad yw ward Seiriol yn unffurf neu'n gydlynol ei natur; mae'r tair cymuned sy'n ffurfio'r ward yn wahanol iawn sy'n golygu nad yw cadw dwy ysgol yn agored a chau Ysgol Biwmares yn ymarferol neu'n ddichonadwy. Ateb gwell fyddai cadw Ysgol Biwmares ar agor a defnyddio'r cyfle y bydd datblygu cyfleuster gofal Ychwanegol ar yr un safle yn ei greu o ran sefydlu menter ar gyfer pontio'r cenedlaethau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddatganiad (a ddarllenodd allan) a wnaed gan y Cynghorydd Carwyn Jones, y trydydd Aelod Lleol na allai fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn oherwydd ei fod yn mynychu cynhadledd niwclear ar ran y Cyngor. Roedd y datganiad yn cyfeirio at ymateb ffurfiol y Cynghorydd Jones fel un o'r tri Aelod Lleol ar ran ward Seiriol ac sy'n cael ei atgynhyrchu yn yr adroddiad o dan Atodiad 3 (sy'n cynnwys datganiad o ddiddordeb y mae wedi derbyn caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau yn ei gylch i gymryd rhan yn y trafodaethau ar y mater hwn). Dywedodd yr Aelod Lleol ei fod, yn ystod yr ymgynghoriad, wedi gwneud sylwadau cryf iawn ar gyfer ymchwilio i bob ffordd bosib o gadw'r tair ysgol ar agor. Mae'n cyfeirio at y ffaith fod trefi yn ganolog i strategaethau cynllunio lle a bod trefi angen ysgolion. Mae rhagamcanion y dyfodol ar gyfer niferoedd disgyblion yn dda iawn ac mae'r twf posib yn debygol o fod hyd yn oed yn fwy pan ystyrir y datblygiadau mawr ar yr Ynys. O gofio bod llawer o ansicrwydd ynghylch y newidiadau poblogaeth y gall Ynys Môn

DRAFT

fod yn eu hwynebu dros y deng mlynedd nesaf, mae Ysgol Biwmares yn cynnig capasiti addysgol y gall bod angen amdano ymhen ychydig flynyddoedd. Felly, mae'r Aelod Lleol yn awgrymu na ddylai'r Awdurdod wneud unrhyw beth am rŵan hyd oni fydd mwy o wybodaeth ar gael ynghylch y modd y mae'r niferoedd yn debbygol o ddatblygu a chadw'r capasiti yng nghornel De ddwyreiniol yr Ynys.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid, er bod y teimladau yn erbyn cau Ysgol Beaumaris wedi'u gwneud yn glir a'u bod yn ddealladwy, mae'r Awdurdod hefyd yn gorfod ystyried Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan yng nghyd-destun anghenion addysgol ardal Seiriol yn ei chyfanrwydd. Y llun sydd wedi cael ei bortreadu yw un o ddyfodol cadarnhaol lle mae Ysgol Biwmares yn aros ar agor, ond mae'r realiti yn wahanol. Mae llai na 50 o ddisgyblion yn Ysgol Beaumaris ar hyn o bryd, sef ysgol a gafodd ei hadeiladu ar gyfer 240 o ddisgyblion ac sydd â lle ar hyn o bryd i 160 o blant. O ran y 12 cwestiwn a gyflwynwyd gan un o'r Aelodau Lleol, dywedodd yr Aelod Portffolio y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael rhybudd ohonynt ymlaen llaw er mwyn gallu ymateb yn llawnach iddynt. Fodd bynnag, ni fedrir rhoi ateb pendant rŵan i lawer o'r materion a godwyd oherwydd nad oes penderfyniad wedi'i wneud, ac o'r herwydd, nid yw'r gwaith manwl a fyddai o reidrwydd yn dilyn penderfyniad wedi'i wneud eto. Dywedodd fod yr opsiynau amgen a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethol Ysgol Biwmares wedi cael eu hystyried, ond nad oedd yn gallu gweld eu bod yn disodli'r cynigion a argymhellwyd gan yr Awdurdod.

Roedd y Pennaeth Dysgu yn cyd-fynd â'r sylwadau a wnaed gan yr Aelod Portffolio a dywedodd nad oedd hi'n bosib ymateb iddynt mewn ffordd ystyrlon a gwybodus yn y cyfarfod oherwydd nad oedd wedi gweld y cwestiynau a ofynnwyd ymlaen llaw. Fodd bynnag, roedd hi'n cydnabod y bydd angen ymchwilio ymhellach i nifer o faterion a chadarnhaodd y byddai hi'n sicrhau y bydd datganiad a / neu atodiad ar gael i fynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau a godwyd. Eglurodd ymhellach fod y wybodaeth ariannol yn y ddogfen ymgynghori yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau sydd ar gael ar hyn o bryd a bod y ddogfen ymgynghori anstatudol yn cynnwys gwybodaeth lawnach oherwydd ei bod yn nodi'r costau ar gyfer yr holl opsiynau a gyflwynwyd ar yr adeg honno, gan gynnwys costau cyfalaf, costau cludiant, arbedion refeniw ac arbedion net, derbyniadau cyfalaf, cost net y prosiect, costau benthyca a chostau blynyddol. Mae'r costau amlinellol a gynhwysir fel rhan o'r ddogfen a gyflwynwyd i'r cyfarfod heddiw yn cyfeirio at yr arbedion net sy'n deillio o weithredu'r argymhelliad o ran cau Ysgol Biwmares yn unig.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar ac fe wnaed y pwyntiau canlynol -

- Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod cau ysgol yn gynnig anodd a di-groeso; nododd y Pwyllgor ei fod yn deall cryfder y teimlad yng nghymuned Biwmares mewn ymateb i'r argymhelliad i gau ysgol gynradd y dref.
- Nododd y Pwyllgor y codwyd nifer o faterion yn ystod y cyfarfod a bod nifer ohonynt yn parhau i fod heb eu hateb.Nododd y Pwyllgor y bydd rhai materion yn dod yn fwy eglur unwaith y bydd y gwaith manwl yn dechrau ar ôl gwneud y penderfyniad; nododd y Pwyllgor hefyd fod angen ymchwilio ymhellach i faterion eraill cyn gwneud penderfyniad.
- Nododd y Pwyllgor mai un o'r gyrwyr am newid yw'r angen i sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid ar gyfer y dyfodol. Nododd y Pwyllgor ymhellach fod y ddogfen ymgynghori statudol yn datgan y bydd 50% o brifathrawon cynradd yr Awdurdod yn ymddeol yn ystod y pum mlynedd nesaf. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch sut y daethpwyd at y ffigwr hwnnw a holodd ynghylch trefniadau cynllunio olyniaeth yr Awdurdod i fynd i'r afael â'r posibilrwydd hwn. Dywedodd y Pennaeth Dysgu bod hwn yrrwr ar gyfer newid yn y strategaeth wreiddiol a gyflwynwyd yn 2012. Erbyn hyn, mae 36% o brifathrawon ysgolion cynradd yr Awdurdod dros 50 mlwydd oed; mae nifer o benaethiaid wedi

DRAFT

ymddeol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf a disgwylir y bydd mwy yn gwneud hynny yn y 5 mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd, mae un ar ddeg o ysgolion cynradd yn rhannu Pennaeth ac mae trefniadau rheoli ar y cyd ar waith mewn nifer o ysgolion cynradd eraill. Mae'r Awdurdod wedi bod yn cael anawsterau recriwtio penaethiaid ysgolion cynradd; mae rhaglen wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â'r sefyllfa ac mae proffil oedran penaethiaid ysgolion cynradd yr Awdurdod bellach wedi gostwng. Yn ogystal, ac yr un mor arwyddocaol yw'r angen i gynyddu capasiti o ran arweinyddiaeth. Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae ar Bennaeth angen amser digyswllt digonol i roi sylw i safonau rheoli, ansawdd ac addysg. Mae hyn yn llawer anoddach mewn ysgolion llai lle mae penaethiaid mewn gwirionedd yn yr ystafell ddosbarth 80% o'r amser. Dywedodd y Swyddog fod yr Awdurdod wedi bod yn gweithio ar gynlluniau olyniaeth yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf a dyna'r rheswm pam y mae'n gallu cwrdd â'i rwymedigaethau ar hyn o bryd. Mae deunaw o benaethiaid ifanc ar yr Ynys wedi ennill cymhwyster CPCP yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn o ganlyniad i gynlluniau olyniaeth yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wneud popeth a all i roi cyfle i unigolion ymgymryd â chyfrifoldebau yn arbennig o ran cyfleoedd ffederaleiddio meddal ac mae'r broses hysbysebu'n adlewyrchu hyn; fodd bynnag, un o'r heriau mwyaf yw perswadio penaethiaid i ddod yn benaethiaid ysgolion bach oherwydd yr ymrwymiadau addysgu y mae'n rhaid iddynt eu cymryd mewn ysgolion llai.

- Nododd y Pwyllgor fod y broses o foderneiddio ysgolion yn yr achos hwn yn golygu cau ysgol a symud ei disgyblion i'r ddwy ysgol arall sydd yn yr ardal sydd yn gyfystyr â'u trosglwyddo. Nododd y Pwyllgor fod y broses ad-drefnu mewn rhai ardaloedd eraill o'r Ynys wedi arwain at ysgol newydd; gofynnodd am eglurhad ar y rhesymau pam nad yw cynllun tebyg yn cael ei gynnig ar gyfer ardal Seiriol. Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod ysgol ardal newydd ymhlith yr 20 opsiwn gwreiddiol yn y ddogfen ymgynghori anstatudol ; nid aethpwyd ar ôl yr opsiwn hwn oherwydd nid ystyriwyd y byddai'n datrys y sefyllfa, nid yn lleiaf oherwydd bod dod o hyd i safle addas ar gyfer y disgyblion o'r tair ysgol yn broblemus; nid dyna oedd yr ateb mwyaf cost-effeithiol yn yr achos hwn.
- Nododd y Pwyllgor nad yw'r ddogfen ymgynghori statudol yn cynnig achos ariannol cynhwysfawr ar gyfer y datrysiad a gynigiwyd o ran moderneiddio; crynodeb byr yn unig a geir o'r ystyriaethau ariannol. Eglurodd y Pennaeth Dysgu bod yr achos busnes ar gyfer yr holl gynigion moderneiddio yn cael eu llunio yn nes ymlaen yn y broses. Yr hyn sydd ar gael yw canlyniadau'r gwaith a wnaed ar y cyd â'r Gwasanaeth Cyllid sy'n amcangyfrifon bras o'r costau; ni fedr yr Awdurdod fynd yn bellach na hyn hyd oni fydd manylion terfynol am leoliad yr ysgol yn hysbys. Cafodd cymhariaeth o gostau pob opsiwn a ystyriwyd eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori anstatudol.
- Nododd y Pwyllgor fod elfen o ansicrwydd, ac felly o risg yn gysylltiedig â thybio y bydd rhieni yn ffafrio Ysgol Llangoed neu Ysgol Llandegfan petai Ysgol Biwmares yn cau oherwydd mae'n bosibl y byddent yn penderfynu anfon eu plant i ysgolion mewn ardaloedd eraill. Nododd y Pwyllgor nad yw'r adroddiad ymgynghori yn nodi beth fyddai'r canlyniad pe bai rhieni yn dewis peidio ag anfon eu plant i Ysgol Llangoed neu Ysgol Llandegfan na'r effaith y byddai hynny yn ei gael ar y ddwy ysgol honno. Felly, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oedd yr Awdurdod wedi gwneud asesiad o'r effaith petai rhieni yn dewis peidio ag anfon eu plant i Ysgol Llangoed neu Ysgol Llandegfan. Dywedodd Pennaeth Dysgu fod yr Awdurdod yn ceisio diweddaru'r asesiad effaith yn rheolaidd ym mhob cam o'r broses, gan olygu bod y math yma o waith asesu effaith yn mynd rhagddo'n barhaus. Dywedodd y Swyddog, er bod pa ysgol y bydd y 263 o ddisgyblion yn yr ardal yn ei mynychu dros y 4 i 5 mlynedd nesaf yn fater o ddewis i'r rhieni, mae hefyd yn fater i'r Awdurdod fel y gall gynllunio'r dalgylch, a dyna'r rheswm dros yr argymhelliad i adolygu'r dalgylch cyfredol. Gan mai'r Awdurdod yw'r Awdurdod Mynediad, gall rhieni wneud cais i symud eu plant i ysgol wahanol ar yr amod fod lle ar

DRAFT

gael yn yr ysgol y maent wedi ei dewis. Mae'r Awdurdod yn ceisio edrych ar yr achosion amrywiol a'r effaith ar y dalgylch cyfan pe bae hynny'n digwydd.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar ddemograffeg yr ardal o ran nifer y plant sy'n derbyn eu haddysg y tu allan i'r ardal a nifer y plant sy'n dod i'r ardal i gael eu haddysg. Nododd y Pwyllgor y gallai amodau'r farchad a ffactorau economaidd ar ffurf prisiau tai a rhenti uchel ym Miwmares ddylanwadau ar y dewisiadau y mae pobl yn eu gwneud. Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod 14% yn mynychu Ysgol Biwmares o'r tu allan i'r dalgylch; 37% yn Ysgol Llandegfan a 30% yn Ysgol Llangoed. O ran niferoedd, mae 9 o blant yn gadael dalgylch Ysgol Llandegfan ar gyfer eu haddysg tra bod 53 yn dod i mewn i'r dalgylch; ar gyfer Ysgol Llangoed mae 25 yn dod i mewn a 29 yn gadael; ar gyfer Ysgol Biwmares mae 5 yn dod i mewn a 34 yn gadael. Mae hwn yn ffactor sydd wedi arwain at y sefyllfa y mae Ysgol Beaumaris ynddi yn awr.
- Nododd y Pwyllgor fod yr Aelod Cynulliad ynghyd â'r Aelod Seneddol dros Ynys Môn wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r bwriad i gau Ysgol Biwmares yn ystod y dyddiau diwethaf. Dywedodd y Pennaeth Dysgu bod derbyn sylwadau / gohebiaeth gan yr AC a'r AS ac eraill yn ystod y dyddiau diwethaf yn siom i'r Awdurdod gan y byddai disgwyl i'r mynegiadau hynny o bryder fod wedi'u gwneud yn ystod y cyfnod ymgynghori, nid wedyn. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob mater a godwyd a bydd yn ceisio sicrhau bod y Pwyllgor Gwaith yn gallu gwneud penderfyniad gyda'r holl ffeithiau wrth law.
- Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd, pe bai Ysgol Biwmares yn cau, a chan gofio nifer y rhieni sy'n gweithio ac sy'n dibynnu arni, y byddai'r ddarpariaeth ar gyfer plant ysgol meithrin h.y. clybiau brecwast a chlybiau gofal cyn ac ar ôl ysgol yn parhau yn yr ysgolion eraill .Dywedodd y Pennaeth Dysgu mai uchelgais yr Awdurdod yw sicrhau darpariaeth briodol cyn belled ag y bo modd ar gyfer yr holl ystodau oedran ar yr un safle. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn ymwybodol bod darpariaeth Cylch Meithrin a WPPA ar hyn o bryd yn gweithredu o safle Ysgol Biwmares; felly byddai'n rhaid i'r Awdurdod ystyried yn ofalus y ddarpariaeth ar gyfer yr ystod oedran hon ochr yn ochr â'r cynlluniau ar gyfer plant oedran ysgol statudol.

Gwnaeth y Prif Weithredwr y pwyntiau canlynol -

- Bod dyletswydd a chyfrifoldeb ar yr Awdurdod i roi sylw i farn rhanddeiliaid yn ardal Seiriol yn ei chyfanrwydd. Er bod y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod hwn wedi canolbwyntio ar anghenion Biwmares, mae'n debyg y byddai trigolion Llangoed a Llandegfan hefyd wedi gallu gwneud achos cadarn dros ddiogelu'r ddarpariaeth addysg yn eu hardaloedd.
- Yn 2012 fe wnaeth Estyn hi'n glir nad oedd yr Awdurdod yn cymryd camau digonol i fynd i'r afael â'r broblem lleoedd gwag yn ei ysgolion, sef un o'r rhesymau dros roi'r Gwasanaeth Addysg yn Ynys Môn mewn mesurau arbennig ar yr adeg honno. Mae canran uchel o leoedd gwag yn Ysgol Biwmares ac mae hynny, yn ei dro, yn cyfrannu at nifer y lleoedd gwag yn Seiriol ac mae'n sail i ailystyried y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.
- Mae Llywodraeth Cymru ac Estyn yn nodi bod ysgol gyda llai na 150 o ddisgyblion yn cael ei hystyried yn ysgol fach. Mae gan Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed, gyda'i gilydd, rhyw 110 o ddisgyblion sy'n golygu nad ydynt yn cwrdd â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru ac Estyn yn ei ddisgwyl o ysgol yr 21ain ganrif sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
- Codwyd pryderon hefyd pan gyflwynwyd y syniad o ysgol ardal newydd ar gyfer Caergybi oherwydd roedd hynny'n golygu addasu safle Cybi a'r ysgol bresennol. Mae'r ysgol hon bellach ar agor ac wedi sefydlu. Byddai unrhyw waith ailwampio yn Ysgol

DRAFT

Llangoed ac Ysgol Llandegfan yn cael ei wneud gyda golwg ar ddod â nhw i fyny at y safonau a ddisgwylir o Ysgolion yr 21 ain Ganrif a byddai'n cyfateb i'r safonau a geir mewn ysgol newydd.
- Pan drafodwyd y ddogfen ymgynghori anstatudol ar foderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini, dywedwyd bod canran uchel o rieni yn dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol leol ym Miwmares; mae hyn yn ffactor yn yr hafaliad ac mae'n wir i ryw raddau ar gyfer ardal ehangach Seiriol.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies y newidiadau canlynol i argymhellion y Swyddogion fel y'u nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig –

- Gohirio gwneud penderfyniad er mwyn caniatáu mwy o amser i adolygu ac i asesu'r effaith ar y gymuned ac, yn ogystal, i ffurfio grŵp rhanddeiliaid i edrych yn fanwl ar ffyrdd eraill o liniaru'r risgiau yn yr ardal.
- Bod ysgol gynradd yn cael ei chadw ar y safle presennol ym Miwmares ar y sail bod y rhagamcanion o ran niferoedd disgyblion yn dangos y bydd cynnydd yn y dyfodol.
- Bod yr ysgol gynradd ar y safle presennol ym Miwmares yn cael ei chadw a'i hintegreiddio gyda'r cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol i greu model newydd lle mae disgyblion a dinasyddion hŷn yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu profiadau.

Yn y bleidlais ddilynol, roedd y mwyafrif o Aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi'r gwelliant cyntaf. Felly, dywedodd y Cadeirydd, na fyddai angen pleidleisio ar yr ail a'r trydydd gwelliant oherwydd fod y Pwyllgor, wrth gefnogi'r gwelliant cyntaf, yn derbyn bod y broses yn destun cyfnod o saib ac adolygiad. Dylid ystyried unrhyw gynigion pellach ar ôl i'r adolygiad gael ei gynnal.

**Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd, y sylwadau a wnaed, ac oherwydd lefel y pryder a fynegwyd a nifer y materion a oedd yn nhŷb y Pwyllgor, yn parhau i fod heb eu hateb, PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod y penderfyniad ar foderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol yn cael ei ohirio er mwyn rhoi mwy o amser i adolygu ac i asesu'r effaith ar y gymuned, a hefyd i ffurfio grŵp rhanddeiliaid i edrych yn fanwl ar ffyrdd eraill o liniaru'r risgiau yn yr ardal.**

**5 RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL LLANGEFNI**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Dysgu yn cynnwys yr adroddiad ar ganlyniad yr Ymgynghoriad Statudol ar ailgyflunio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni (Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig) ynghyd ag argymhellion ar gyfer symud ymlaen.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant ar y broses ymgynghori a gynhaliwyd o 26 Medi, 2017 hyd 13 Tachwedd, 2017, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r sylwadau o'r cyfarfodydd ymgynghori yn ogystal ag atborth gan disgyblion y ddwy ysgol. Dywedodd yr Aelod Portffolio, yn seiliedig ar y casgliadau y daethpwyd iddynt yn dilyn y broses ymgynghori statudol, fod 5 o argymhellion yn cael eu cyflwyno er ystyriaeth y Pwyllgor a bod y rhain eto yn anffodus, yn golygu cau ysgol.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu, yn yr achos hwn, fod mwyafrif yr ymatebion wedi dod gan randdeiliaid yn Ysgol Talwrn, a bod hynny i'w ddisgwyl o ystyried y bod yr ysgol dan fygythiad o gael ei chau. Mae'r cynigion wedi cael eu diwygio ychydig o gymharu â'r rhai yr ymgynghorwyd yn wreiddiol arnynt oherwydd ar ôl asesu'r sefyllfa mewn perthynas ag Ysgol y Graig, ystyriwyd bod angen bloc neu adeilad newydd i'r ysgol yn hytrach na dim ond

DRAFT

estyniad i’r adeilad a dod â dai disgyblion o Ysgol Talwrn i’r safle presennol. Cafodd nifer o gynigion amgen eu cyflwyno yn ystod y cyfnod ymgynghori gan gynnwys defnyddio Ysgol Talwrn i hyfforddi penaethiaid; moderneiddio neu adeiladu ysgol newydd yn Nhalwrn neu uno Ysgol Talwrn gyda naill ai Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr holl gyflwyniadau a'r holl sylwadau a gafwyd, mae'r Awdurdod yn argymell y dylid nodi’r cynigion fel y'u nodir yn yr adroddiad.

Anerchodd Mr Islwyn Humphreys (Corff Llywodraethol Ysgol Talwrn) a Bethan Wyn Jones (Grŵp Rhieni a Thrigolion) ill dau y Pwyllgor yn lleisio eu barn nhw a barn cymuned Talwrn ar y cynigion mewn perthynas ag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn. Pwysleisiodd y ddau wrthwynebiad cryf Corff Llywodraethol Ysgol Talwrn a chymuned Talwrn i'r bwriad i gau ysgol y pentref a gofynnodd y ddau am i’r cynigion gael eu hailystyried. Wrth gyflwyno eu sylwadau, tynnwyd sylw’r Pwyllgor at y pwyntiau canlynol -

- Ar hyn o bryd nid oes ond 6 lle gwag yn Ysgol Talwrn. Adeiladwyd pedwar tŷ yn ddiweddar yn yr ardal ac mae teuluoedd yn y rhan fwyaf ohonynt.  Yn ogystal, mae teulu o 6 wedi symud i'r pentref yn ddiweddar ac mae'r plant yn mynychu Ysgol Talwrn.
- Mae safonau addysg yn Ysgol Talwrn yn dda. Mae gan yr ysgol Bennaeth ifanc a brwdfrydig sy'n parhau i adeiladu ar lwyddiannau'r ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae gan yr ysgol record ragorol o ran datblygu elfennau personol, cymdeithasol a lles addysg y plant. Mae'r ysgol hefyd yn gallu dangos tystiolaeth o gyflawniad yn CA2 ac o ran canlyniadau, mae ymysg y goreuon o ysgolion Ynys Môn yn CA2.
- Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod gan blant yr hawl i roi eu barn ac i'r farn honno gael ei chlywed.Mae'r plant yn Ysgol Talwrn wedi mynegi tristwch ynghylch y posibilrwydd y bydd yr ysgol yn cau ac maent yn bryderus ynghylch hyn.
- Mae asesiad yr Awdurdod yn dod i’r canlyniad fod Ysgol Talwrn yn ddrud i'w rhedeg. Mae hyn oherwydd blynyddoedd o ddiffyg buddsoddiadyn yr ysgol.
- Oherwydd natur y ffordd a diffyg llwybr troed, mae yna bryderon gwirioneddol ynglŷn â diogelwch disgyblion sy'n teithio adref i Dalwrn o Ysgol y Graig yn enwedig yn dilyn gweithgareddau ar ôl ysgol.
- Nid oes unrhyw Gynllun Busnes wedi'i gyflwyno i gefnogi'r cynigion nac ychwaith yr arbedion y rhagwelir y bydd yn deillio ohonynt. Yn y pen draw, bydd cymeradwyo’r cynnig yn costio oddeutu £650k i’r Awdurdod ac yn gosod baich ar genedlaethau'r dyfodol gydag ymrwymiad 50 mlynedd a fydd yn gorfod cael ei dalu 20 mlynedd ar ôl cwblhau'r adeilad arfaethedig.
- Un o amcanion Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017-22 yw sicrhau bod dinasyddion Ynys Môn yn ffynnu ac yn cyflawni eu potensial - ni fydd hyn yn cael ei wireddu trwy gau ysgol gymunedol. Mae trigolion Talwrn yn dymuno gweld cymuned hyfyw a naturiol Gymreig gyda phobl o bob oedran lle mae mewnfudwyr yn cael eu hintegreiddio i deulu Talwrn.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; ni fydd cau ysgol gynradd lle siaredir Cymraeg yn helpu i ddenu pobl i’r ardal nac yn cyfrannu at gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg.
- Nid yw'r ddogfen ymgynghori statudol yn gwneud cyfiawnder â'r 108 o lythyrau o wrthwynebiad i'r bwriad i gau Ysgol Talwrn
- Nid yw Asesiad Effaith Gymunedol yr Awdurdod yn adlewyrchu effaith wirioneddol cau Ysgol Talwrn ar y gymuned fel y tystiwyd i hynny gan y llythyrau a dderbyniwyd gan ystod o gymdeithasau.

DRAFT

- Mae’r cynnig yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol; mae'r cynnig yn golygu y bydd mwy o gyfleusterau'n cael eu rhoi i dref y mae ei seilwaith a’i hamrediad o wasanaethau eisoes yn helaeth tra'n amddifadu trigolion Talwrn ohonynt.
- Mae’r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w alluogi i lunio barn yn anghywir, yn hen ac nid yw’n gytbwys.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at e-bost a dderbyniodd oddi wrth Mr Tony McQuire Jones a anfonwyd hefyd at Mr Mark Isherwood, Aelod Cynulliad Gogledd Cymru. Mae'r e-bost yn cyfeirio at Gôd Trefniadaeth Ysgolion 2013 sy'n golygu fod rhaid i'r Awdurdod, o fewn 13 wythnos i'r cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion neu cyn cyhoeddi'r cynigion, gyhoeddi adroddiad ymgynghori sy'n crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, gan ymateb i'r rhain gydag esboniad,diwygio'r cynigion, gwrthod y pryderon gyda rhesymau i gefnogi hynny a nodi safbwynt Estyn ynglŷn â rhinweddau cyffredinol y cynigion. Roedd Mr McQuire Jones yn gofyn pam fod y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad yn ogystal ag ymateb Estyn i'r ymgynghoriad wedi cael eu gadael allan o’r adroddiad ymgynghori.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu, yw'n bosibl rhestru'r holl wrthwynebiadau yn y ddogfen ymgynghori oherwydd y byddai hynny'n ei gwneud yn rhy hir, serch hynny, mae'r holl ymatebion ac atodiadau ar gael. Mae'r ddogfen ymgynghori yn ceisio crynhoi sylwedd yr ymatebion a gafwyd. O ran Estyn, yr un modd â'r ymgynghoriad a drafodwyd yn yr eitem flaenorol, ni chafwyd ymateb gan Estyn i'r ymgynghoriad hyn yma. Bydd yr Awdurdod yn gwneud ymholiadau.

Siaradodd y Cynghorwyr Nicola Roberts a Dylan Rees fel Aelodau Lleol.Tynnodd y Cynghorydd Nicola Roberts sylw at bryderon mewn perthynas â diogelwch disgyblion Ysgol y Graig yn ystod y cyfnod adeiladu / addasiadau; y trefniadau ar gyfer integreiddio'r bloc newydd arfaethedig gyda'r adeilad presennol fel eu bod yn gweithredu fel un ysgol a'r trefniadau ar gyfer darparu adnoddau ychwanegol a / neu wasanaethau parhaus. Er bod y cynigion a gyflwynwyd yn well na’r rhai a gyflwynwyd yn wreiddiol i'r graddau y mae'r Awdurdod wedi cydnabod y farn leol bod angen adeilad ychwanegol, nid ydynt yn ddelfrydol. Dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts fod y sefyllfa yn Llangefni yn wahanol i honno yn yr ardaloedd eraill lle gweithredwyd rhaglen moderneiddio ysgolion, a hynny oherwydd nad oes digon o leoedd ysgol yn Llangefni (yn hytrach na gormod). Cyfeiriodd at yr her bosibl wrth geisio integreiddio plant o ysgol wledig fach fel Ysgol Talwrn i ysgol dau floc fwy fel Ysgol y Graig lle bydd y wynebau a'r lleoliad yn anghyfarwydd a cheisio, ar yr un pryd, sicrhau lles a gwytnwch y plant. Dywedodd fod Ysgol Talwrn yn ildio llawer ar gyfer y broses foderneiddio. Cyfeiriodd hefyd at gymwysterau gwyrdd Ysgol y Graig a allai gael eu heffeithio gan fewnlifiad o ychwaneg o ddisgyblion yn teithio i'r ysgol a'r sefyllfa sydd eisoes yn broblemus o ran parcio yn yr ysgol a’r ardal o’i h amgylch. Gan fod Ysgol y Graig ei hun yn adeilad gweddol newydd, gofynnodd am sicrwydd mai’r cynigion hyn yw’r ateb iawn y tro hwn ar gyfer yr ardal hon yn Llangefni ac o ystyried twf yr ardal yn y dyfodol.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod diogelwch y safle o'r pwys mwyaf; bydd asesiad risg yn cael ei gynnal cyn i unrhyw waith gael ei wneud a rhoddir sylw priodol i bob agwedd ar ddiogelwch y plant. O ran integreiddio'r ddau floc ar wahân, bydd yn rhaid i bob bloc gael ei neuadd a’i ffreutur ei hun oherwydd nad oes digon o le yn Ysgol y Graig fel ag y mae a byddai’n rhaid trefnu i’r plant gael amser chwarae ac amser cinio ar adegau gwahanol. Bydd gwasanaethau ychwanegol ar ffurf clybiau cyn-ysgol, clybiau gofal, Dechrau'n Deg ac ati yn cael eu hymgorffori yn y cynllun yn y dyfodol ac mae'r cynllun hwn yn cynnig y potensial i weithio ochr yn ochr â'r Mudiad Meithrin a chyda’r Ganolfan Blant i sicrhau’r ddarpariaeth ddi-dor y cyfeirir ati. O ran gallu ymdopi â thwf yn y dyfodol, mae'n ofynnol i'r Awdurdod seilio ei gynllun busnes ar ffeithiau

DRAFT

h.y. datblygiadau sydd wedi cael caniatâd cynllunio; mae'r Awdurdod wedi ystyried y rhagamcanion yn y CDLl ar y Cyd ar gyfer yr ardal gyfan dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac wrth gynllunio unrhyw ysgol newydd bydd yn ceisio caniatáu ar gyfer twf pellach yn y dyfodol. Mae capasiti yn Ysgol y Graig ar hyn o bryd ar gyfer dwy ystafell ddosbarth newydd, ond yn yr achos hwn, nid yw hynny'n ddigonol ac mae angen bloc newydd. Ni chaniateir i'r Awdurdod adeiladu ysgol newydd sydd â 10% o lefydd gwag heb achos busnes cadarn iawn dros wneud hynny e.e. os yw'n gwybod bod diwydiant penodol yn dod i'r ardal a bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer tai a fydd yn tynnu i mewn nifer uchel o deuluoedd ifanc. Nid yw dod â dwy ysgol at ei gilydd mewn un endid yn digwydd ar unwaith ar ôl cau ysgol; mae'n broses sy'n cymryd dros 2 flynedd lle mae grwpiau o blant yn cael eu dwyn ynghyd i arfer â'i gilydd a'u sefyllfa newydd; cynhelir gweithgareddau ar y cyd a chydlynir y cwricwlwm fel bod y plant yn gwneud yr un gwaith ar yr un pryd i'r un lefel ar gyfer yr un ystod oedran. Felly mae'r Awdurdod yn hyderus y bydd y plant yn gwybod beth sy'n digwydd fel bod unrhyw ofnau yn cael eu lleddfu ac y byddant wedi cael yr amser i baratoi ar gyfer y newid. O ran teithio, mae darpariaeth tacsis yn mynd yn ôl ac ymlaen rhwng Llangefni a Thalwrn ar hyn o bryd, felly ni fydd y sefyllfa o ran y cynllun arfaethedig yn wahanol. Bydd yr Awdurdod yn edrych ar nifer y siwrneiau a wneir, nifer y plant dan sylw a chyflwr a diogelwch llwybrau troed fel rhan o'r asesiad ehangach o'r ardal. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r problemau parcio mewn perthynas ag Ysgol y Graig fel y mae ar hyn o bryd ac fel agwedd allweddol ar y gwaith bydd raid i'r Awdurdod gydbwyso'r hawl i'r cyfleusterau parcio y gall eu cynnig gyda chanlyniad yr asesiad effaith traffig y bydd yr Awdurdod yn ei gynnal. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r heriau yn yr ardal sydd wedi'u crybwyll yn glir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Wrth ymateb i gwestiwn pellach gan yr Aelod Lleol mewn perthynas â'r tir sydd ar gael, cadarnhaodd y Swyddog fod y broses o nodi tir addas ar gyfer y bloc newydd wedi cychwyn – roedd rhaid i'r Awdurdod fod wedi dechrau'r broses hon er mwyn gallu cyflwyno rhai o'r cynigion i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees, hefyd yn siarad fel Aelod Lleol, er ei fod yn cefnogi ehangu Ysgol y Graig fel rhan o'r ateb i'r broblem mewn perthynas â'r nifer annigonol o leoedd ysgol yn Llangefni, roedd yn anghyfforddus gyda'r bwriad i gau Ysgol Talwrn fel rhan o'r ateb oherwydd mai problem yn ysgolion Llangefni yw hon, ac ni ddylai ysgolion gwledig orfod dioddef yn ei sgil. Cyfeiriodd a dyfynnodd o'r datganiad a wnaed y llynedd gan y Gweinidog dros Addysg yn Llywodraeth Cymru yn egluro y dylid rhagdybio yn erbyn cau ysgolion gwledig ac na ddylid ystyried cau ond pan fydd dewsiadau eraill a'u heffeithiau ar y cymunedau wedi cael eu hystyried. Pan yn ystyried cau ysgol, dywed y Gweinidog y dylid rhoi sylw i'r canllawiau wrth asesu'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, yr effaith debygol ar y gymuned ac effaith debygol y gwahanol drefniadau teithio. Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees fod siaradwyr blaenorol wedi cyfeirio at safon uchel yr addysg yn Ysgol Talwrn a'r effaith ddinistriol y byddai cau'r ysgol yn ei chael ar y gymuned ac ar fudiadau sy'n dibynnu arni, e.e. yr Eisteddfod leol. Cyfeiriwyd hefyd at y problemau posib o safbwynt trafnidiaeth a'r tagfeydd presennol o gwmpas Ysgol y Graig. Felly, er ei fod yn croesawu'r cynigion i fynd i'r afael â'r problemau yn Ysgol y Graig, nid oedd yn derbyn y dylai cau Ysgol Talwrn fod yn rhan o'r ateb.

*Fel Cadeirydd, dygodd y Cynghorydd Dylan Rees sylw yn y fan hon at y ffaith fod y Pwyllgor bellach wedi bod rhedeg am dair awr ac yn unol â'r darpariaethau dan baragraff 4.1.10 yng Nghyfansoddiad y Cyngor, roedd angen penderfyniad gan y mwyafrif o'r Aelodau hynny o'r Pwyllgor a oedd yn bresennol i gytuno i'r cyfarfod fynd yn ei flaen.* ***Penderfynwyd y dylai'r cyfarfod barhau****.*

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar ac fe wnaethpwyd y pwyntiau canlynol -

- Roedd y Pwyllgor yn nodi ac yn cydnabod y teimladau cyrf yng nghymuned Talwrn yn erbyn cau ei hysgol gan dderbyn eto fod cau ysgol yn gynnig anodd a gresynus.
- Nododd y Pwyllgor mai prinder lleoedd ysgol yn Llangefni yw'r broblem yn hytrach na lleoedd gweigion. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â'r sefyllfa o ran Ysgol y Graig, nododd ymhellach fod cau Ysgol Gynradd Talwrn fel rhan o'r ateb i ddatrys y broblem yn yr ardal a'r tagfeydd ychwanegol yn Llangefni y gallai hyn ei achosi yn ymddangos yn groes ac yn ateb y mae gan y Pwyllgor broblem ag ef.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu y bydd asesiad effaith traffig yn cael ei gynnal fel rhan o'r cynllun a bod cynllun busnes yr Awdurdod yn annhebygol o gael ei gymeradwyo oni bai ei fod yn gallu dangos ei fod wedi ymgynghori â'r Awdurdod Priffyrdd ac yn gallu dangos bod yr ardal yn ddiogel.

- Nododd y Pwyllgor mai dim ond 6 o lefydd gwag sydd ar hyn o bryd yn Ysgol y Talwrn a bod y rhain yn debygol o gael eu llenwi gan bedwar eiddo sydd newydd gael eu hadeiladu. Nododd y Pwyllgor hefyd fod yr ysgol yn perfformio'n dda o dan arweiniad pennaeth ifanc a benodwyd yn ddiweddar ac mai'r ysgol yw canolbwynt bywyd cymunedol, gweithgaredd cymunedol a'r iaith Gymraeg. Felly, nid yw'r achos dros gau yr ysgol yn glir.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn o'r tu allan i'w dalgylchoedd eu hunain ac a yw'r cynlluniau'n ystyried y 300 o dai newydd sydd wedi eu cynllunio ar gyfer ardal Llangefni ac sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod oddeutu 50% o'r disgyblion yn Ysgol Talwrn yn byw y tu allan i'r dalgylch; mae 4 disgybl yn cael eu danfon mewn tacsi o Langefni oherwydd nad oes lle iddynt yn Ysgol y Graig. Mae nifer y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu Ysgol y Graig wedi gostwng yn ddiweddar oherwydd mai lle i ddisgyblion lleol yn unig sydd ar gael yn yr ysgol. Cadarnhaodd y Swyddog fod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r datblygiadau tai sydd ar y gweill yn Llangefni.

Gwnaeth y Prif Weithredwr y pwyntiau canlynol -

- Mae cau ysgol yn benderfyniad caled ac yn anodd ei dderbyn ond mae'n rhaid ei ystyried yn wyneb realiti'r sefyllfa.
- Mae Ysgol Talwrn yn perfformio'n dda yn CA2 ond nid yw perfformiad yr ysgol ac Ynys Môn yn gyffredinol mor dda yn CA1 (Y Cyfnod Sylfaen).
- Ar hyn o bryd, mae 6 lle gwag yn Ysgol Talwrn 6. Fodd bynnag, roedd canran y lleoedd gweigion yn yr ysgol yn uchel ar un adeg, a dyna pam y rhoddwyd ystyriaeth i ddyfodol yr ysgol. Roedd nifer y lleoedd gweigion wedi gostwng oherwydd y diffyg lleoedd mewn ysgolion yn Llangefni gyda phlant o Langefni yn mynd i Ysgol Talwrn.
- Bod yr Awdurdod yn wynebu heriau ariannol ac y bydd y rheini'n parhau; mae cyllidebau ysgolion hefyd yn gostwng yn sylweddol sy'n golygu bod raid ystyried dyfodol ysgolion bach.
- Er bod Ysgol Talwrn wedi llwyddo i benodi pennaeth, y tueddiad yw i benaethiaid ysgolion bach symud ymlaen pan fydd cyfle'n codi; mae hefyd yn fwy o her i recriwtio a chadw penaethiaid mewn ysgolion bach sy'n ffactor yn nhrefniadau cynllunio olyniaeth yr Awdurdod.

DRAFT

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod Ysgol Talwrn wedi cael tri phennaeth gwahanol mewn cyfnod cymharol fyr, sy'n ystyriaeth o bwys i'r Awdurdod wrth iddo gynllunio ar gyfer cynaladwyedd ei ysgolion yn y dyfodol.

**Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed, PENDERFYNODD y Pwyllgor argymell i'r Pwyllgor Gwaith -**

- **Bod adeilad presennol Ysgol y Graig yn cael ei ddefnyddio a'i addasu ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, sef blynyddoedd 3 i 6.**
- **Y dylid adeiladu bloc neu adeilad newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen h.y. y Dosbarth Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2.**
- **Ni ddylid cau Ysgol Talwrn.**
- **Dylid ystyried adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg o fewn y ddarpariaeth newydd.**
- **Dylid sicrhau bod y tyrbin gwynt ar y safle yn gweithio erbyn dyddiad agor yr adeilad newydd.**

**6 ASESIAD DIGONOLRWYDD CHWARAE**

**Penderfynwyd gohirio ystyried yr eitem hon oherwydd diffyg amser** .

**7 BLAENRAGLEN WAITH**

**Penderfynwyd gohirio ystyried yr eitem hon oherwydd diffyg amser** .

**Y Cynghorydd Dylan Rees**
**Cadeirydd**

1

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 23 Ebrill, 2018 |
| **Pwnc:** | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Statudol yn ardal Llangefni: Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn – adrodd yn ôl ar y broses ymgynghori statudol; cynnig argymhellaid a derbyn sylwadau y Pwyllgor Sgriwtini. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Aled Morris Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng R Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant) |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Arwyn Williams, Pennaeth Dysgu |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Annwen Morgan, Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| **Aelodau lleol:** | Cyng Nicola Roberts<br>Cyng Bob Parry<br>Cyng Dylan Rees<br>Cyng Dafydd Roberts<br>Cyng Eric Wyn Jones |

**1 – Argymhelliad/ion**

Mae'r dystiolaeth o'r ymgynghoriad yn arwain at y casgliadau a ganlyn.

- Bod angen i Ysgol Corn Hir yn sgîl nifer disgyblion, capasiti cyfredol, cost y pen ac ôl-groniad cynnal a chadw fod yn ganolog i unrhyw drefniadaeth newydd.
- Bod safonau cyfredol yr ysgol, cyflymder y gwelliant ac ansawdd arweinyddiaeth, maint yr ysgol, ôl-groniad cynnal a chadw a chost y pen yn golygu nad yw yn bosib cyfiawnhau dyfodol Ysgol Bodffordd. Dylid fodd bynnag nodi bod angen i unrhyw benderfyniad gymryd ystyriaeth o'r angen i geisio sicrhau dyfodol y ddarpariaeth gymunedol.
- Mae nifer o faterion sydd angen sylw wrth ystyried dyfodol Ysgol Henblas.
  - Mae safonau'r ysgol yn is na'r disgwyl ac wedi bod dros gyfnod o amser ac mae cyflymder y gwelliant yn siomedig iawn.
  - Mae cryn waith i'w wneud i ddatblygu arweinyddiaeth yn yr ysgol.
  - Mae maint yr ysgol yn golygu bod dosbarthiadau o oedran cymysg yn yr ysgol ac mae hyn, ynghyd â'r disgwyliad i baratoi gwaith addas ar gyfer yr ystod o alluoedd mewn dosbarth, yn cynnig lefel uwch o her i'r athrawon.
  - Yn ôl asesiad cyfredol yr Awdurdod mae cyflwr presennol yr adeilad yn foddhaol ac mae ôl-groniad cynnal a chadw o £112,000.
  - Mae cost y pen yn uwch yn yr ysgol na'r ddwy ysgol arall.
  - Mae 13% o lefydd gweigion yn yr ysgol er gwaethaf y ffaith fod % y disgyblion all-dalgylch, er wedi lleihau yn ddiweddar, yn gymharol uchel.
- Cydnabyddir fodd bynnag y gallai penderfyniad i gau Ysgol Henblas ddylanwadu ar argaeledd addysg mewn ardal wledig ynghyd â chyfarfod a dymuniad rhai rhieni am fath wahanol o ysgol. Yn sgîl hyn gellid cyflwyno achos i gefnogi Ysgol Henblas cyn belled â bo tystiolaeth bendant bod y gwelliannau diweddar yn parhau a'r cyflymder gwelliant yn cynyddu.

Dengys y dadansoddiad ariannol bod cost ôl-groniad y tair ysgol yn £406k ac y byddai'r swm hyn yn cynyddu wrth i'r adeiladau nesáu at ddiwedd eu hoes ddefnyddiol. Nodir hefyd byddai adeiladu un ysgol i gymryd lle

Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas yn ddrutach nag adeiladu un ysgol ar gyfer Corn Hir a Bodffordd ond fe wrthbwysir y gost ychwanegol yma'n rhannol gan gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a'r derbyniad cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu safle Ysgol Henblas. Byddai cau Henblas yn gwella gwerth am arian yr ysgol newydd gan y byddai'n arwain at fwy o arbedion refeniw.

Yn sgîl yr uchod, a'r holl sylwadau a dderbyniwyd cyflwynir yr opsiynau a ganlyn.

*Opsiwn 1*
Adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd, Corn Hir a Henblas.

*Opsiwn 2*
Adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd a Corn Hir a pharhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus. Fe allai'r ddarpariaeth yn Llangristiolus olygu cynnal Ysgol Henblas ar ei ffurf gyfredol neu ysgol aml-safle [h.y. uno Henblas gyda'r ysgol newydd a chreu un ysgol ar ddau safle]. Byddai rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn gysylltiedig â chael sicrwydd mewn blwyddyn bod safonau yn Ysgol Henblas yn codi, bod y raddfa gwelliant cyfredol yn cynyddu a bod rhagolygon niferoedd disgyblion yn parhau'n gyson neu yn codi. Byddai rhaid i unrhyw waith cynllunio ar gyfer yr ysgol newydd gymryd ystyriaeth o hyn.

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini roi sylw i'r materion a ganlyn.

I. Rhoi ystyriaeth i'r adroddiad yn ei chyfanrwydd a dwyn sylw at **unrhyw faterion ychwanegol** allai fod yn ddefnyddiol i'w cynnwys i gynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddod i benderfyniad.
II. Rhoi ystyriaeth i'r uchod ac argymell pa opsiwn y dylid ei ffafrio gan y Pwyllgor Gwaith.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

Cyswllt uniongyrchol gyda Chynllun y Cyngor 2017/22:

**Amcan 1: Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.**

Byddwn yn parhau i godi safonau addysg a sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau cywir ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant

1. Parhau â'n rhaglen moderneiddio ysgolion drwy gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig fydd yn mynd i'r afael â chynaliadwyedd tymor hir addysg gynradd ac addysg uwchradd ar draws yr Ynys. Bydd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gampysau dysgu 3 – 18 oed mewn lleoliadau penodol
2. Cwblhau'r gwaith ar Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch ac ardaloedd Seiriol a **Llangefni.**

## 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**
**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Sut mae'r cynigion yma'n galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni Cynllun newydd y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid? Oes yna unrhyw risgiau penodol?
2. Beth yw manteision ac anfanteision opsiwn 1 a 2 o ran darpariaeth addysgol a gwerth am arian?
3. Pa weithdrefnau/cefnogaeth sydd yn eu lle gan y gwasanaeth addysg i godi safonau gydag opsiwn 2?
4. Oes yna wybodaeth/ystyriaethau eraill y dylid ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor Gwaith er mwyn gwneud penderfyniad gan gynnwys y defnydd cymunedol o adeiladau?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

**Gweledigaeth y Cyngor a'r Strategaeth Moderneiddio**

Mae gan Cyngor Sir Ynys Môn yr uchelgais o sicrhau bod bob plentyn, pob unigolyn ifanc a phob dysgwr, waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, yn cyflawni eu llawn botensial a bod yn barod i chwarae rhan ragweithiol fel dinasyddion cyfrifol a phencampwyr cymunedol y dyfodol.

Mae'r Cyngor am sicrhau bod pob ysgol yn cyflawni'r safonau uchaf fel bod pobl ifanc Ynys Môn yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael yn y byd cystadleuol sydd ohoni. Mae'n hanfodol bod safonau addysg ar Ynys Môn ymysg y gorau yn genedlaethol.

Mae'r Straegaeth Moderneiddio yn allweddol i wireddu'r weledigaeth uchelgeisiol uchod trwy sicrhau bod ysgolion effeithiol, hunan feirniadol, o'r maint cywir yn y lleoliadau cywir sydd yn cael eu harwain gan Benaethiaid a Thimau Arweinyddol ysbrydoledig sydd yn gwbl ymroddedig i godi safonau gwaith y dysgwyr yn eu gofal.

Ers cyhoeddi'r strategaeth wreiddiol yn 2013 mae'r Awdurdod wedi cydweithio gyda Phenaethiaid ac aelodau etholedig i foderneiddio'r stoc ysgolion ar yr ynys drwy gyfuno 10 o ysgolion llai ac adeiladu ysgolion y 21ain ganrif mewn tair ardal o fewn Band A, gydag un ohonynt yn agor ym Mawrth 2019. [Gweler yr atodiad]

Mae'r sefyllfa gyllidol yn heriol yn y sector gynradd. Mae'r gwahaniaeth yn y gwariant fesul disgybl yn y sector cynradd yn destun pryder ac yn anghynaladwy ar gyfer y dyfodol. Gellid dadlau fod y ffaith fod ysgolion cynradd llai yn derbyn yr hyn sy'n gyfystyr ag arian ychwanegol i gynnal isafswm o lefelau staffio yn golygu bod yr 11 ysgolion mwyaf, sydd yn aml yn gwasanaethu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn sybsideiddio'r ysgolion llai eu maint. Nid yw hyn yn gynaliadwy at y dyfodol, yn enwedig os bydd y rhaglen llymder ariannol y Llywodraeth yn parhau.

Mae'r sefyllfa o ran proffil oed Penaethiaid wedi gwella ac mae nifer o ysgolion yn rhannu timau arwain drwy weithredu trefniadau Rheolaeth Bartneriaethol, ffedereiddio anffurfiol a ffedereiddio ffurfiol Mae strategaeth ar gyfer datblygu Arweinwyr Ysgolion y Dyfodol sydd yn cynnig datblygiad proffesiynol i'r rhai sydd a'r potensial yn weithredol. Serch hynny, mae nifer ymgeiswyr ar gyfer swyddi Penaethiaid yn isel, yn enwedig ar gyfer ysgolion bach, gwledig.

Mae Estyn, yn eu hadroddiad 'Ysgolion Cynradd Bychain yng Nghymru' wedi nodi'r heriau addysgol a wynebir gan ysgolion bach. Mae'r rhain yn cynnwys yr her o addysgu dosbarthiadau oedran cymysg yn cynnwys mwy na 2 neu 3 o grwpiau oedran; maint cyfyngedig grwpiau cymheiriaid a digonolrwydd her; cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol; anawsterau gyda recriwtio a chadw staff; beichiau gormodol ar staff a'r arbenigedd uwch sy'n ofynnol i gefnogi disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r Rhaglen Moderneiddio ysgolion yn rhoi sylw i'r heriau uchod a chynllunio i sicrhau bod niferoedd disgyblion digonol ar y gofrestr o fewn pob cyfnod allweddol. Golyga hyn yr angen i adolygu dyfodol ysgolion ble mae niferoedd y disgyblion yn fach, gan benderfynu ar gynaliadwyedd pob un. Bydd hyn yn lleihau'r nifer o ddosbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oedran, yn sicrhau bod gan arweinyddion/penaethiaid amser digyswllt digonol er mwyn cyflawni cyfrifoldebau allweddol o godi safonau, sicrhau bod trefniadau gweinyddu a rheoli cefnogol mewn lle, a chysoni'r gwariant y pen ar draws yr ynys i fod yn fwy cyfartal.

Erys y gyrwyr ar gyfer newid yn gyson, sef:

- Gwella safonau addysgu a chyrhaeddiad.
- Lleihau nifer y lleoedd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.
- Anelu i leihau'r amrediad gwariant fesul disgybl gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.
- Capasiti Arweinyddiaeth a Rheolaeth.
- Cynllunio olyniaeth
- Darpariaeth gyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Sicrhau bod adeiladau ysgolion addas i bwrpas.

Cyflwynir adroddiad manwl ar yr ymgynghoriad ynghyd â'r casgliadau a'r argymhelliad yn yr atodiad.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Cwblhawyd Asesiad Effaith ar gyfer y broses ymgynghori statudol. Cafodd effaith posib gwireddu'r cynnig ar yr iaith Gymraeg, cydraddoldeb a'r gymuned eu hasesu.

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Mae'r effaith posib ar sefyllfa gyllidol yr Awdurdod yn cael ei asesu yn yr adroddiad

**8 – Atodiadau**

Atodiad 1 – Gweledigaeth ar gyfer ysgolion unfed ganrif ar hugian
Atodiad 2 – Adroddiad manwl ar yr ymgynghoriad, casgliadau ac argymhelliad

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Y ddogfen ymgynghori statudol (20 Chwefror – 6 Ebrill 2018) – Cyswllt Mr Emrys Bebb

**Gweledigaeth LLC ar gyfer Ysgolion y 21ain Ganrif** **Atodiad 1**

- Bydd ysgolion wedi eu cyflunio i ymateb i ddulliau newidiol o addysgu a dysgu a fydd, ynghyd ag arweinyddiaeth ysgol wedi ei chryfhau ac ymwneud y gymuned ysgol, yn adlewyrchu anghenion lleol ac yn cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial .
- Amgylcheddau ysbrydoledig sy'n briodol ar gyfer datblygiadau a thechnolegau addysgol newydd, sy'n effeithiol ac eto'n ddigon addasadwy i ddarparu ar gyfer anghenion newidiol y dyfodol hyd at 2030.
- Amgylcheddau o safon byd eang, sy'n gynaliadwy i athrawon addysgu a dysgwyr i ddysgu; wedi eu cefnogi'n llawn gan TGaCh, ac sy'n gyrru gwelliannau mewn safonau addysgol, ac yn mynd i'r afael â materion newid hinsawdd.
- Cynwysoldeb, gan ddarparu darpariaeth briodol ar gyfer anghenion dysgu unigol pob dysgwr, lleoedd lle gall y rhai gydag anghenion addysgol arbennig ac anableddau deimlo y perchir eu hanghenion, ac sy'n galluogi pob aelod o weithlu'r ysgol weithio, gorffwys a chymdeithasu.
- Adnodd nodedig ar gyfer yr holl gymuned a all gynnig ystod o gyfleusterau wedi eu cydleoli megis gofal plant, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a hyfforddiant oedolion.
- Cyfle i ysgolion a gwasanaethau eraill weithio'n gydweithredol i ychwanegu at yr addysgu a'r dysgu a chysylltu'n fwy effeithiol gyda'r agenda trawsnewid ôl-16 .

**SWYDDOGOL – *OFFICIAL***

# ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD STATUDOL - ARDAL LLANGEFNI (Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Henblas)

# *REPORT ON THE STATUTORY CONSULTATION – LLANGEFNI AREA (Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir and Ysgol Henblas*)

## 20 Chwefror – 6 Ebrill 2018 / *20 February – 6 April 2018*




**CYNGOR SIR YNYS MÔN / *ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL***
**ADRAN DYSGU GYDOL OES / *LIFELONG LEARNING DEPARTMENT***

**[www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk) / [www.anglesey.gov.uk](http://www.anglesey.gov.uk)**

| Rhif | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | CYFLWYNIAD A CHEFNDIR | 3 |
| 2. | GYRWYR NEWID | 3 |
| 3. | Y BROSES YMGYNGHORI | 5 |
| 4. | SYLWADAU O’R CYFARFODYDD YMGYNGHORI | 5 |
| 5. | YMATEBION O YSGOL BODFFORDD | 6 |
| 6. | YMATEBION O YSGOL CORN HIR | 7 |
| 7. | YMATEBION O YSGOL HENBLAS | 7 |
| 8. | YMATEBION ERAILL | 9 |
| 9. | ADBORTH GAN DDISGYBLION | 11 |
| 10. | YMATEB I’R SYLWADAU A DDERBYNIWYD | 15 |
| 11. | YSTYRIAETHAU ARIANNOL | 18 |
| 12. | YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL | 19 |
| 13 | CASGLIADAU ac ARGYMHELLIAD | 20 |
| ATODIAD 1 | ADBORTH AR LEIN | 22 |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ynys Môn am sicrhau'r ddarpariaeth addysgol orau un ar gyfer holl blant a phobl ifanc yr ynys.

Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor yn adnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu deniadol sy'n symbylu plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol a chyflawni sgiliau bywyd yn brif flaenoriaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor am foderneiddio ysgolion er mwyn:

- gwella deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc a thorri'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel,
- gwella ymhellach safonau arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu,
- sicrhau ysgolion sector-arweiniol a safonau sector-arweiniol ar gyfer pob cymuned.

Bydd cyflwyno'r rhaglen foderneiddio uchelgeisiol hon yn gofyn am uno ysgolion sydd yn bodoli drwy gyfuniad o ffederasiynau ysgol, ad-drefnu dalgylchoedd yn helaeth yn seiliedig ar ailfodelu adeiladau ysgolion sydd yn bodoli neu adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt yn addas i bwrpas.

## 2. GYRWYR NEWID MODERNEIDDIO FYDD YN DYLANWADU AR BENDERFYNIAD YNGHYLCH Y DDARPARIAETH ORAU I'R ARDAL

Nodir isod rhai o'r gyrwyr moderneiddio fydd yn dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth orau i'r ardal.

*Codi safonau addysgol*

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i barhau i godi safonau'n os am gyrraedd ei nod o fod yn un o'r 5 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil presennol, awgrymir ei bod yn anodd cysylltu safonau â maint ysgol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod gan ysgolion cynradd mwy [dros 150 o ddisgyblion neu fwy] dimau arweinyddiaeth sydd â mwy o gapasiti i sicrhau gwelliannau; athrawon gydag ystod ehangach o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill a thrwy hynny yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau gwaith plant. Mewn ysgolion llai [o gwmpas 50 neu lai] mae dosbarthiadau oedrannau cymysg yn cynnwys hyd at bedwar grŵp oedran, ac sydd weithiau yn rhychwantu cyfnodau allweddol. Mae hyn yn gosod her sylweddol i athrawon os am sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ymestyn hyd eithaf i'w allu. Mae'r strategaeth moderneiddio ysgolion yn anelu i ddileu esiamplau o ddosbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oed.

*Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl*

Mae'r gost fesul disgybl yn amrywio'n sylweddol, o £2,795 i £10,828, ar draws ysgolion cynradd y sir. Roedd gwariant y Cyngor ar ysgolion cynradd yn 2017-18 [£3,962 y disgybl ar gyfartaledd] yr uchaf ond un yng Nghymru. Bydd angen i'r rhaglen moderneiddio roi sylw i normaleiddio'r gost y disgybl ar draws yr awdurdod a'i chysoni â'r cyfartaledd Cymru gyfan.

*Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib*

Mae gwella ansawdd yr adeiladau ysgol a sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posibl [sy'n adlewyrchu'r rhai yn ein hadeiladau ysgolion ddiweddaraf – Ysgol y Graig, Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan] ar gyfer ein plant yn hanfodol bwysig i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r math hyn o amgylchedd yn cynnwys cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau, cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf, mannau chwarae addas, ardaloedd staffio a gweinyddu priodol, ynghyd â diogelwch ar gyfer adeiladau'r ysgol a safle'r ysgol. Noda Estyn bod "gwella ansawdd yr adeiladau'n cael effaith lesol iawn ar ansawdd yr addysgu a morâl y staff sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad plant." Bydd gan bob plentyn fynediad at gyfleusterau addas fel y gellir darparu ystod lawn o brofiadau addysgol.

Nid yw yn bosib i'r Cyngor gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio ac yn gostus i'w cynnal. Rhaid sefydlu patrwm newydd o ysgolion sydd yn dileu'r diffygion yn yr adeiladau presennol, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch sylweddol sy'n gysylltiedig â'r adeilad neu'r safle. Mae angen datblygu cyfundrefn o ysgolion lle mae trefniadau cynnal a chadw ar eu cyfer sy'n gynaliadwy.

*Creu'r amodau fel bod Penaethiaid yn llwyddo - cynyddu capasiti arweinyddol*
Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys y Llywodraethwyr. Mae'r sialensiau sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r disgwyliadau'n parhau i gynyddu. Mae angen amser digyswllt digonol ar Bennaeth, gyda chefnogaeth dirprwy bennaeth neu uwch dîm rheoli, i sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu o'r radd flaenaf, i werthuso a chodi safonau, i ddatblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu trylwyr ac i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae'r rhain yn ddisgwyliadau sylweddol. Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid o leiaf 50% o amser digyswllt. Golyga hyn bod angen i ysgol [neu ffederasiwn o ysgolion] gael o leiaf 100 o ddisgyblion os am ddarparu'r amser angenrheidiol i'r Pennaeth i gyflawni'r rôl arwain yn llwyddiannus.

*Sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid at y dyfodol*
Dros y pum mlynedd nesaf mae'n debyg y bydd 28% o'n penaethiaid cynradd yn ymddeol. Oherwydd bod llawer ohonynt yn arwain ysgolion bach, bydd angen i'r Cyngor ystyried y modelau arweinyddiaeth fwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi pennaeth wedi lleihau ac mae hyn yn destun pryder. Mae angen i'r rhaglen moderneiddio ysgolion geisio ateb y broblem drwy sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion unigol. Mae angen arweinwyr rhagorol ar ein hysgolion. Bydd y rhaglen foderneiddio'n rhoi sylw i faterion cynllunio olyniaeth ac yn diogelu a datblygu'r talentau arweinyddiaeth sydd gennym yn ein hysgolion.

*Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol*
Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion gyda gwasanaethau ychwanegol fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, gwarchod plant, gweithgareddau haf a phenwythnos yn cyflawni safonau uwch a chyswllt gwell â rhieni a'r gymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd fod yn adnodd i'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. Mae'r math yma o weithgaredd yn bwysig i ddatblygu'r cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Bydd ysgolion a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn gweithredu fel ysgol ardal h.y. yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r diwrnod ysgol, i helpu i gwrdd ag anghenion y plant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

*Lleihau nifer llefydd gweigion*
Ym Medi 2017, roedd nifer y llefydd gweigion mewn ysgolion cynradd ym Môn yn 12.3%. Y sefyllfa gyfredol [Medi 2017] yn y tair ysgol dan sylw yw bod 13% o lefydd gweigion yn Ysgol Henblas, 1.6% yn Ysgol Bodffordd tra bod Ysgol Corn Hir 9.3% dros capasiti. Er hynny, mae angen i'r Cyngor, barhau i leihau nifer y llefydd gweigion er mwyn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac ymateb i un o feirniadaethau Estyn yn adroddiad 2012. Golyga hyn bod angen anelu at sefyllfa lle bo ysgolion yn fwy na 85% llawn gan anelu bod 90% o'r llefydd wedi eu llenwi ar draws y sector cynradd.

*Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*
Bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio'n rhoi blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg / dwyieithrwydd.

## 3. Y BROSES YMGYNGHORI

Ymgynghorodd y Cyngor gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y tair ysgol a hefyd gyda'r cynghorwyr lleol a chyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n digwydd rhwng 20 Chwefror hyd at 6 Ebrill 2018.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid fel a ganlyn.

| | | | Cyfarfod gyda | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Dyddiad (yn 2018)** | | **Staff** | **Llywodraethwyr** | **Rhieni** |
| Henblas | Dydd Llun | 26 Chwefror | 3.30 | 6.00 | 7.00 |
| Bodffordd | Dydd Mawrth | 27 Chwefror | 3.40 | 5.45 | 6.45 |
| Corn Hir | Dydd Mercher | 28 Chwefror | 4.00 | 5.00 | 6.00 |

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ariannu ysgol newydd, mae angen i'w buddsoddiad gwrdd ag amcanion buddsoddi sef:-

1. lleihau llefydd gweigion
2. cynyddu amser di gyswllt i athrawon
3. i'r ysgol fod o safon ysgol yr unfed ganrif ar hugain
4. gwella deilliannau addysgol
5. lleihau ôl groniad cynnal a chadw
6. gwella effeithlonrwydd ynni

Cynigwyd y syniad gan rieni y dylid adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol yn Llangefni. Os yw hyn yn golygu adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol i'r ysgolion sydd yno yn bresennol, ni fyddai Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi hyn oherwydd er byddai'r ysgol gynradd newydd yn ysgol yr unfed ganrif ar hugain, yn unol â'r meini prawf uchod, ni fyddai'n :

- lleihau llefydd gweigion. Yn wir gall arwain at gynnydd mewn llefydd gweigion
- yn sicrhau newid y sefyllfa o ran amser di-gyswllt i athrawon.
- gwella deilliannau addysgol ohono'i hun
- lleihau ôl groniad cynnal a chadw
- gwella effeithlonrwydd ynni. Yn wir, byddai ysgol ac adeilad ychwanegol yn arwain at ddefnyddio mwy o danwydd.

Yn ogystal, mae'n annhebygol iawn byddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ysgol gynradd newydd oni bai fod cyfuno ysgolion yn rhan o'r broses.

Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni ddewis pa ysgol fydd eu plentyn yn ei mynychu. Petai ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu yn Llangefni, byddai angen adolygu'r dalgylchoedd presennol a ffurfio dalgylch i'r ysgol gynradd newydd. Yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu gorfodi rhieni i symud eu plant i'r ysgol gynradd newydd. Byddai hyn yn cynyddu'r risg o lefel uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol gynradd newydd.

## 4. SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Rhestrir rhai sylwadau a phryderon o bob un o'r cyfarfodydd isod (nid yw'r rhain yn gofnodion o'r cyfarfodydd). Ceir fwy o sylwadau yn rhan 5-7 o'r adroddiad hwn.

**Ysgol Bodffordd**

- Roedd rhai yn teimlo nad oedd pwynt ymateb i'r ymgynghoriad
- Holwyd am safle posib ac amserlen posib y gwaith
- Pryderon am ddiogelwch y plant yn ystod y gwaith adeiladu

- I ba raddau fydd yr ysgol newydd posib yn barod ar gyfer cwricwlwm Donaldson
- Pryder am effaith posib y cynnig ar staffio a swyddi
- Pryder am ddyfodol y Ganolfan Gymunedol a'r Cylch Meithrin

**Ysgol Corn Hir**

- Holwyd am y cynlluniau ar gyfer yr ysgol bresennol os fydd y cynnig yn cael ei wireddu
- Holwyd am effaith posib cyflawni'r cynnig ar y meithrin ac ar glwb ar ôl ysgol
- Pryderon am swyddi'r staff
- Holodd rai am safle posib yr ysgol gynradd newydd arfaethedig ac am unrhyw gysylltiad rhwng yr ysgol newydd ac Ysgol Gyfun Llangefni.

**Ysgol Henblas**

- Pryder ynglŷn â pha ysgol byddai disgyblion Ysgol Bodorgan yn trosglwyddo iddi petai Ysgol Henblas yn cau
- Nid oedd rhanddeiliaid yn deall pam fod yr Awdurdod yn ystyried cau Ysgol Henblas
- Pryderon am swyddi'r staff
- Beth fyddai'n digwydd i'r adeilad petai'r ysgol yn cau?
- Rhai rhieni'n teimlo y dylid rhoi cyfle i'r Pennaeth newydd

## 5. YMATEBION O YSGOL BODFFORDD

5.1 Derbyniwyd dros 260 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol ac roedd y mwyafrif helaeth yn anghytuno gyda'r posibilrwydd o gau'r ysgol.

5.2 Cyflwynwyd deiseb i'r Awdurdod oedd â'r pennawd "Na i gau Ysgol Gymuned Bodffordd". Roedd 43 o lofnodwyr wedi arwyddo'r ddeiseb. Bydd y ddeiseb yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2018.

5.3 Yn ei llythyr, dywedodd Ysgrifennydd Clwb Pensiynwyr Bodffordd fod "nifer o gymdeithasau yn cynnal eu gweithgareddau yn y Ganolfan sydd ynghlwm â'r ysgol". Yn ôl yr ysgrifennydd, y Ganolfan yw "calon y pentref".

5.4 Dywedodd llefarydd ar ran Cylch Llenyddol Bodffordd eu bod yn defnyddio'r Canolfan Cymunedol 5 gwaith y flwyddyn. Ei farn oedd bod "angen strategaeth i gadw'r Ganolfan ar agor i'r pentref".

5.5 Yn eu llythyr, roedd cyd-arweinyddion y Cylch Meithrin ym Modffordd yn dweud fod y Cylch yn "rhan bwysig o'r pentref a'r gymuned". Dywedodd y ddwy fod y Cylch wedi ei gynnwys "yn adroddiad blynyddol Estyn fel cylch rhagorol sydd yn arwain yn y sector, yr unig un yng Nghymru." Gallai cau'r Cylch olygu fod plant yn "colli allan ar ddechrau hanfodol yn ei bywyd addysgiadol, cymdeithasol a diwylliannol."

5.6 Dywedodd cyn arweinydd y Cylch Meithrin mai'r "ysgol a'r Ganolfan Gymuned yw calon y pentref". Yn ôl y cyn arweinydd, mae'r "Cylch Meithrin ... yn llawn" a bod "100% o'r plant sydd yn mynychu yn Gymraeg iaith gyntaf...iaith y cartref!!" Ei barn yw bod "rhaid cadw'r diwylliannau cryf yma yn enwedig mewn ardal sydd mor gynnes, chymunedol a chefnogol". Roedd yn nodi fod y Cylch Meithrin "wedi cael rhagoriaeth gan Estyn yn 2016" a'u cynnwys "yn adroddiad blynyddol Estyn fel Cylch a oedd yn arwain y sector".

5.7 Roedd athrawon a staff ategol yr ysgol yn dymuno lleisio "eu gwrthwynebiad i'r opsiwn gwreiddiol ac ymhellach i'r opsiwn 'newydd' sydd wedi ei osod yn y ddogfen ymgynghori statudol". Roeddent yn dymuno tynnu sylw'r Awdurdod at rai o'r ffactorau a ganlyn.

- Dewis rhieni yn cael ei danseilio
- Creu ansicrwydd
- Cefnogaeth rhieni i barhad ysgol Bodffordd yn “llwyr”
- Naws ac ethos yr ysgol yn gryf
- Mae’r Mudiad Meithrin yn rhan annatod o “gychwyn taith plant yr ardal trwy eu taith addysgol”.
- Mae’r ysgol yn “rhan annatod o gymuned ddiwylliannol a Chymreig fyw”
- Byddai cau’r ysgol “yn mynd yn groes i Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol”

## 6. YMATEBION O YSGOL CORN HIR

6.1 Cafwyd 2 ymateb gan randdeiliaid Ysgol Corn Hir. Daeth y cyntaf gan Lywodraethwyr Ysgol Corn Hir. Roedd yr ymateb ar ffurf 5 pwynt bwled. Nodir y pwyntiau isod:

1. Mae’r cynnig o gael rhif mynediad o 64 yn creu problemau trefnu dosbarthiadau. Dylid rhoi rhif mynediad o 75 sy’n rhoi cyfle i ysgol greu trefn ddosbarthiadau hyfyw a chreu capasiti ar gyfer tyfu. Mae achos cryf iawn yn yr ardal i fynd dros y 10% ychwanegol o ystyried yr hyn sydd eisoes wedi digwydd yn Ysgol y Graig a’r ffaith fod angen ailymweld â’r ysgol honno dim ond ar ôl cwta ddeng mlynedd. Mae’r sylwadau ym mhwynt 5 hefyd yn cynnig datrysiad ychwanegol o ran creu mwy o gyllid i ariannu’r cynllun.
2. Er nad yw hyn yn cael ei gynnig dylid sicrhau trefn o addasu ffiniau dalgylch yr ysgol – byddai hyn yn tynnu’r pwysau o ddalgylch Ysgol y Graig ar gyfer y dyfodol byddai yn ei dro yn golygu fod posib edrych ar addasu’r cynigion addasu yn yr ardal honno e.e. fydd angen buddsoddi mewn tiroedd ychwanegol o gwbl – gall hyn yn y pendraw **arbed** costau i’r Cyngor.
3. Mae angen dirfawr am gynllun interim ar gyfer Ysgol Corn Hir er mwyn galluogi’r ysgol allu parhau i gynnig cwricwlwm llawn i’r disgyblion. Mae’r problemau sydd wedi’i adnabod parthed gofod a diffyg lle a niferoedd mewn dosbarthiadau yn yr adroddiad ymgynghorol eisoes yn broblem yn yr ysgol ac angen eu datrys ar fyrder er tegwch i’r disgyblion ar staff yn yr ysgol. Mae hyn hefyd yn datblygu i fod yn broblem Iechyd a Diogelwch difrifol.
4. Mae’r ysgol (yn staff a llywodraethwyr) yn dymuno i’r Cyngor symud ar yr agenda ar fyrder oherwydd difrifoldeb y sefyllfa yn yr ysgol parthed gofod a niferoedd dosbarth – problem sydd yn fwy na hysbys i Adran Addysg y Cyngor.
5. Mae cwestiwn parthed ydi’r Cyngor yn cael gwerth am arian wrth werthu’r safleoedd ac ystyrir y ffigwr sydd wedi’i nodi yn yr ymgynghoriad yn isel – mae angen edrych i weld os fyddai posib sicrhau caniatâd cynllunio ar y safleoedd cyn eu gwerthu er mwyn cael y gwerth am arian gorau.
6. Gan fod y cynllun yn pontio Band A a Band B mae cyfle yma i greu ysgol gwbl gynhwysol i’r holl gymuned ac yn adnodd wirioneddol werthfawr i holl aelodau’r gymuned nid yn unig plant yr ysgol, i gynnwys gwasanaethau ychwanegol - e.e. gyda’r gwasanaeth iechyd, yn sicrhau gofal o oed cynnar iawn, ystafelloedd hyfforddi (cyrsiau i rieni ayyb), gwasanaethau chwaraeon fel bod yr ysgol yn ‘one stop shop’ ar gyfer yr holl adnoddau fydd y rhieni eu hangen.

6.2 Roedd y rhanddeiliad arall yn pryderu byddai ysgol newydd posib i 450 o blant yn rhy fach. Yn ogystal, roedd yn teimlo fod yr ymgynghoriad yn ofer a bod y penderfyniad wedi ei wneud.

## 7. YMATEBION O YSGOL HENBLAS

7.1 Derbyniwyd 118 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol ac roedd y mwyafrif helaeth yn anghytuno gyda’r posibilrwydd o gau’r ysgol.

7.2 Cyflwynwyd deiseb i’r Awdurdod oedd yn gofyn am “gefnogaeth i gadw Ysgol Henblas ar agor drwy arwyddo’r ddeiseb hon.” Roedd 107 o lofnodwyr wedi arwyddo’r ddeiseb, gyda nifer o du allan i’r ardal wedi ei harwyddo. Bydd y ddeiseb yn cael ei chyflwyno i’r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2018. Erbyn 11 Ebrill 2018, roedd 901 o unigolion wedi arwyddo deiseb electronig oedd yn gofyn i “gadw Ysgol Henblas ar agored” – nifer o du allan i ddalgylch yr ysgol.

7.3 Yn ei hymateb, dywedodd Cadeiryddes Cylch Meithrin Henblas fod y Cylch Meithrin yn “hynod o dda” ac “yn orlawn”. Ychwanegodd fod hyn yn “arwydd gwych y bod gair da y Cylch a’r Ysgol gyda hapusrwydd y plant yn arwain tuag at ddyfodol disglair i dalgylch Henblas”.

7.4 Dywedodd aelod etholedig lleol sydd hefyd yn un o Lywodraethwyr Ysgol Henblas ei fod o’r farn “**y dylai penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf 2017 sefyll,** ac nad oes cyfiawnhad digonol wedi ei gyflwyno dros y cynnig dan sylw, sef cau Ysgol Henblas , a chyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir a Henblas mewn i ysgol newydd.” Rhestrodd resymau pam oedd yn meddwl y dylid cadw’r ysgol ar agor.

- Niferoedd yn yr ysgol ar hyn o bryd a gellid cynyddu hyn ar ôl ymestyn yr ysgol.
- Bod yr adeilad yn weddol fodern ac yn addas iawn ar gyfer ei ddiweddaru i safonau’r Unfed Ganrif ar Hugain.
- Byddai cau Henblas yn golygu trefnu cludiant o Langristiolus a Cherigceinwen i Langefni. Mae cludiant ysgol yn un o’r meysydd sy’n gorwario’n gyson, gorwariant a fyddai yn lleihau unrhyw arbedion posibl o gyfuno’r ysgolion.
- Pryder byddai llawer o rieni yn dewis cludo plant ieuengaf i’r ysgol mewn ceir preifat. Mae croesi’r A5 yn Tyrpeg Nant yn berygl. Byddai cynyddu’r drafnidiaeth sy’n croesi Tyrpeg Nant ar oriau brig yn cynyddu’r perygl hwn.
- Penodi Pennaeth newydd yn wyneb y broses ymgynghori yn dysteb i wytnwch yr Ysgol, ac mi fydd y penodiad hwn yn cryfhau arweinyddiaeth a sicrhau safonau'r ysgol tuag at y dyfodol.
- Mae ysgolion yn ffocws i’r gymuned ac mae’n hanfodol fod Sir wledig fel Ynys Môn yn cadw ysgolion gwledig hyfyw fel Ysgol Henblas

7.5 Ysgrifennodd llefarydd ar ran Ysgol Sul Eglwys Llangristiolus. Roedd yn gofyn i’r Awdurdod “ystyried y pwyntiau canlynol yn llawn cyn penderfynu cau ysgol wledig arall:

- Mae gwirfoddolwyr lu yn Henblas sydd wedi sicrhau llwyddiant cenedlaethol ym maes chwaraeon ac ar lwyfan eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Ceir ymdeimlad o gymdeithas ar ei gorau yma ac mae hyn yn ymestyn i deulu’r eglwys. Mae’r teimlad o berthyn ac o gyfrifoldeb yn deillio o’r profiadau a geir yn yr ysgol a’u hatgyfnerthu yn yr Ysgol Sul.
- Mae yna ganran uchel o rieni o du allan i’r dalgylch yn gyrru eu plant i Ysgol Henblas – ar hyn o bryd ceir dewis teg o ysgol drefol ac ysgol wledig yng nghylch Cefni. Rhaid gwrando ar lais y bobl sy’n mynnu cael dewis am y ffordd maent yn magu eu plant. Os collwn y cymunedau clos rhain ar draul moderneiddio ni fydd troi nôl. Mewn oes lle ceir fwy o ‘ffrindiau’ ar wefannau cymdeithasol ond llai o wir gyfeillion rhaid dal ein gafael ar cymunedau fel Henblas.
- Yn Henblas mae pawb yn cael dewis bod yn y côr, adrodd, tîm pêl-droed, tîm pêl rwyd, cystadleuaeth gymnasteg – mewn ysgol fawr o dros 400 mi fyddai hyn yn amhosib. Rhaid sicrhau fod ein plant yn cael pob chwarae teg i fod yn aelodau llawn a chyfrifol o gymdeithas. Gwn am nifer o blant mewn ysgolion mawr ar yr ynys nad ydynt yn cael y cyfleoedd hyn gan fod disgyblion eraill ‘yn well’. Pa fath o neges mae hyn yn ei roi i blentyn bychan?

Roedd y llefarydd yn gofyn i’r Awdurdod ddychwelyd i’r penderfyniad gwreiddiol sef adnewyddu Henblas a thrysori cymunedau fel Llangristiolus sy’n cyfrannu cymaint i Gymreictod a chymuned arbennig Môn.”

7.6 Derbyniwyd e-bost gan Arweinydd Adran yr Urdd Henblas oedd yn “datgan eu gwrthwynebiad i'r argymhelliad i gau Ysgol Henblas, Llangristiolus.” Eu teimlad oedd “mai camgymeriad llwyr fyddai cau ysgol sydd mor ganolog i'r gymuned yma yn Llangristiolus. Mae Adran yr Urdd wedi'i sefydlu yn y pentref ers blynyddoedd lawer bellach ac mae gennym dîm o wirfoddolwyr ymroddedig sy'n sicrhau fod y plant yn elwa o holl weithgareddau'r Urdd.” Roeddent o’r farn “os bydd yr Ysgol yn cau, bydd hynny, yn ddi-os yn ddiwedd ar yr Adran. Byddai cau'r ysgol yn golled ddiwylliannol ddrudfawr i'r gymuned gyfan”.

7.7 Derbyniwyd ymateb gan Gadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Henblas. Er yn "cydnabod fod gan y Cyngor benderfyniadau anodd iawn i'w gwneud", roedd y Corff o'r farn nad "aberthu Ysgol Henblas" oedd yr ateb. Eu teimlad am y cynnig fyddai'n golygu cau Ysgol Henblas oedd:

- Y byddai'n lleihau 'r dewis o ysgolion ar gael i blant yn yr ardal
- Nad oedd y cynnig yn gwneud synnwyr yn ariannol
- Os byddai'r ysgol yn cau, byddai hynny'n arwain at "broblemau amgylcheddol, diboblogi cefn gwlad, effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg ac ar ddiwylliant Gymreig"
- Na ddylid cau'r ysgol o ystyried datganiad diweddar yr Ysgrifennydd Cabinet ar Addysg.
- Y diffygion roeddent yn eu gweld yn y broses ymgynghori
- Barn y Grŵp na ellid cyfiawnhau cau 2 ysgol "o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion"

**NODER** - Mae Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas ar restr yr ysgolion gwledig gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Nid yw'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion wedi dod i rym.

## 8. YMATEBION ERAILL

8.1 Yn ogystal â chwrdd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni, anfonwyd y ddogfen ymgynghori at y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyngor Gwynedd;
- Swyddogion Llywodraeth Cymru;
- Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol ac Aelod Seneddol
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff ategol;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol sef GwE;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Ranbarthol sef Taith;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf;
- Mudiad Meithrin;
- Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod;
- Ysgol Gyfun Llangefni.

8.2 Cafwyd ymateb gan yr Aelod Cynulliad lleol. Dywedodd: "Yr argraff felly yw mai ystyriaethau ariannol sydd wedi gyrru'r newid meddwl. Gan nad oes dim wedi newid yn ariannol o ran Ysgol Henblas, gellid maddau i bobl am feddwl mai ystyriaethau ariannol yn deillio o rannau eraill o'ch rhaglen rhesymoli sy'n ei gwneud yn ddeniadol i gynnwys disgyblion Ysgol Henblas yn eich cynlluniau.

*Strategaeth* sydd ei angen mewn unrhyw raglen resymoli, a siawns mai ystyriaethau hirdymor ddylai yrru strategaeth? Wrth gwrs bod pwysau ariannol byrdymor dybryd arnoch fel awdurdod, ond pan mae penderfyniad yn cael ei wneud a'i ddadwneud o fewn ychydig fisoedd, ar fater mor bwysig â dyfodol ysgol a phlant a chymuned, nid yw'n rhoi hyder i bobl bod gwir strategaeth ar waith yma.

Gallwn restru rhesymau hirfaith dros gadw Ysgol Henblas ar agor. Y ffaith nad ysgol fach yw hi. Y ffaith bod pennaeth newydd rhagorol wedi ei benodi yn ddiweddar. Y ffaith bod yr adeilad yn dal yn gymharol newydd ac yn addas i bwrpas. Y ffaith ei bod yn afresymol i beidio â chael ysgol gynradd i wasanaethu ardal wledig mor enfawr rhwng Llangefni ac arfordir gorllewinol Môn (wedi cau Bodorgan hefyd). Cymreigrwydd gwledig cynhenid yr ysgol. Y ffaith bod plant Llangristiolus yn cyfrannu'n helaeth yn ddiwylliannol i Fôn yn deillio'n uniongyrchol o'u profiad yn Henblas. Y ffaith bod parc chwarae newydd wedi cael ei agor i'r pentref ar y cae ysgol yn ddiweddar (a'r arian i gyd wedi cael ei godi gan fy ngwraig tra'n Gynghorydd Cymuned). Y ffaith mai Ysgol Henblas yw unig neuadd y pentref ar gyfer unrhyw ddigwyddiad o faint sylweddol.

Ond mi wn bod degau o rieni eraill yn rhestru'r ffactorau hyn, a llawer mwy.

Y cwestiynau gen i yw: a oes strategaeth yma, ac a ydych wirioneddol yn gyfforddus yn y modd yr ydych wedi delio ag achos Ysgol Henblas drwy roi prin ddim amser i ail-ymgynghori ar rywbeth sydd mor bellgyrhaeddol ei oblygiadau, nid yn unig i Langristiolus ond i ardal wledig eang yng ngorllewin Môn?"

8.3 Yn ei grynodeb, dywedodd Estyn "Ym marn Estyn, mae'r cynnig yn debygol i o leiaf gynnal y ddarpariaeth a'r safonau ar gyfer disgyblion yn yr ardal".

8.4 Cafwyd ymateb gan swyddogion undeb yr N.E.U. Roedd eu swyddog yn dweud: "Mae Is-adran Ynys Môn o Undeb Addysg Genedlaethol (Adran yr UDG neu N.U.T.) yn cefnogi Rhaglen Ysgolion C21. Er yn yr achos hwn, ymddengys nad yw maint y lleoedd dros ben ac oedran adeiladau'r ysgol yn yrwyr newid allweddol, mae manteision y cyfleusterau / hyblygrwydd staffio / lleoedd ychwanegol, o ysgol ardal C21 newydd yn ddiymwad. **Yr hyn mae'r Undeb yn parhau i wrthwynebu yw'r risg i swyddi aelodau a symud i ddiswyddiadau gorfodol. Mae graddfa'r diswyddiadau yn ad-drefnu Santes Dwynwen wedi ansefydlogi aelodau ar draws yr ynys a gall hyn gynyddu'r gwrthwynebiad i ad-drefniadau pellach.** Rydym yn gwerthfawrogi eich ymdrech i "ail-leoli" aelodau sydd wedi colli eu swyddi, ac yn awgrymu bod yr Awdurdod yn cyhoeddi unrhyw lwyddiant yn hyn o beth, gan wrth gwrs, amddiffyn preifatrwydd unigolion."

8.5 Dywedodd swyddog Undeb Athrawon Cenedlaethol Cymru: "Mae UCAC yn ymwybodol mai un o flaenoriaethau'r Cyngor yw gwella'r deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc o ardaloedd difreintiedig drwy dorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyflawniad addysgol isel. Wrth ystyried y pwysau gwaith sydd ar benaethiaid ac athrawon yn ein hysgolion y dyddiau hyn, mae UCAC yn falch iawn o ddeall fod yr Awdurdod yn cydweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i ddatblygu model sy'n lleihau baich biwrocratiaeth a gwella trefniadau rheoli busnes i'r sector gynradd, drwy'r cynllun grantiau Ysgolion Bach a Gwledig a Rheoli Busnes."

8.6 Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Cymuned Llangristiolus a Cerrigceinwen. Eu hymateb oedd: "Mae aelodau Cyngor Cymuned Llangristiolus yn gryf o blaid cadw'r ysgol yn agored. Mae'r aelodau'n yn teimlo pe byddai'r ysgol yn cau byddai'n effaith fawr ar y gymuned. Mae nifer fawr o blant yn yr ysgol ac mae perfformiad yr ysgol yn rhagorol."

8.7 Derbyniwyd ymateb gan Bennaeth Ysgol Gyfun Llangefni. Roedd yn mynegi ei siom nad oedd sôn am opsiwn o gael "ysgol 3-18 ar safle Ysgol Gyfun Llangefni" "yng nghorff yr adroddiad". Roedd yn teimlo "gyda dyfodiad y cwricwlwm newydd yn 2022, fod hwn yn gyfle euraidd i ddatblygu cyfundrefn arloesol ar gyfer disgyblion yr ardal".
Aeth ymlaen i ddisgrifio manteision posib ysgol 3-18 sef:

- Safonau a Darpariaeth
- Datblygiad Proffesiynol ac Arweinwyr y Dyfodol
- Adnoddau

8.8 Derbyniwyd ymateb gan lefarydd ar ran Grŵp Ymgyrch Addysg, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Roedd y grŵp yn datgan eu gwrthwynebiad i'r cynnig i gau ysgolion Henblas, Bodffordd ac Ysgol Corn Hir er mwyn creu ysgol ardal newydd. Y prif bwyntiau yn yr e-bost oedd:

- Y diffygion roeddent yn eu gweld yn y broses ymgynghori
- Barn y Grŵp na ellid cyfiawnhau cau 2 ysgol "o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion"
- Barn y Grŵp fod "diffyg ystyriaeth opsiynau eraill" gan yr Awdurdod
- Effaith y cynigion ym marn y Grŵp ar gymunedau Cymraeg

8.9 Yn ychwanegol i'r ffurflenni a'r llythyrau adborth ar yr ymgynghoriad roedd cyfle i'r rhanddeiliaid gyfrannu at arolwg electroneg trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn. Cyflwynir crynodeb o'r arolwg [101 o ymatebion] yn atodiad 1.

## 9. ADBORTH GAN DDISGYBLION

9.1 Cyfarfu swyddogion y Cyngor gyda disgyblion Ysgol Henblas, Bodffordd a Corn Hir. Y bwriad oedd cynnal cyfarfodydd byr gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion o'r tair ysgol, er mwyn canfod eu barn am y cynnig i newid eu hysgol bresennol.

Eglurwyd i'r disgyblion fod ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda'r oedolion yn y gymuned, ac roedd hyn yn gyfle i'r plant o'r ysgolion fynegi eu barn am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer moderneiddio ysgolion. Pwysleisiwyd bod eu barn yn bwysig gan mai nhw sy'n mynychu'r ysgolion. Dywedwyd wrthynt bydd y wybodaeth a gyflwynir ganddynt yn cael eu trosglwyddo i ffurf adroddiad a'i gyflwyno i Gynghorwyr y Cyngor fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol.

Eglurwyd mai'r rhesymau dros foderneiddio oedd:
- Angen gwneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yn cael addysg dda
- Angen gwneud siŵr fod yr ysgol yn fodern ac yn cynnig adnoddau da
- Bod y Cyngor yn gwario eu harian ar ysgolion mewn ffordd deg
- Mae gan ysgolion Ynys Môn ormod o lefydd gwag neu dim digon o lefydd mewn rhai o'u hysgolion

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r plant.
1. Beth oedd y disgyblion yn hoffi am eu hysgol bresennol?
2. Beth yw eich barn am y cynnig i gyfuno Ysgol Henblas, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd ac adeiladu ysgol newydd?
3. A oeddent yn cytuno gyda'r rhesymau dros newid
4. Unrhyw sylwadau eraill

Yn ystod rhai sesiynau, ysgrifennodd rhai plant eu sylwadau ar bapur ac fe'i cyflwynir yn iaith y plant.

### 9.2 Barn Plant Ysgol Bodffordd

| **Cwestiwn - Beth rydych yn hoffi am eich ysgol bresennol?** |
|---|
| ▪ Mannau chwarae tu allan<br>▪ Staff da<br>▪ Pobl garedig - staff a phlant<br>▪ Gwaith diddorol<br>▪ Teimlo'n saff<br>▪ Gwybod at pwy i droi<br>▪ Dim yn ysgol i'w gau<br>▪ Ardaloedd da i chwarae<br>▪ Lle / gofod mawr ar gyfer ymarfer corff<br>▪ Adnabod pawb yn yr ysgol<br>▪ Pawb yn ffrindiau yma<br>▪ Cinio da<br>▪ Brecwast da yma<br>▪ Gemau pêl-droed<br>▪ Tri amser chwarae<br>▪ Hwyl<br>▪ Pawb yn cael eu trin yn deg<br>▪ Digon o gyfrifiaduron/ digon o adnoddau<br>▪ Digon o siarad Cymraeg |

| |
|---|
| ▪ Pawb yn helpu<br>▪ Dim eisiau colli ffrindiau<br>▪ Plant a staff yn gymwynasgar<br>▪ Pawb yn barod eu cymwynas<br>▪ Pan rydym yn poeni - mae'r staff pob amser yn eich helpu<br>▪ Staff yn edrych ar ein holau<br>▪ Bydd ffrindiau yma i'n helpu, os nad yw staff ar gael<br>▪ Pobl yma i chwarae<br>▪ Digon o fwyd iachus<br>▪ Neb yn annifyr efo'i gilydd |

| **Cwestiwn - Beth yw eich barn am y cynnig i gyfuno Ysgol Henblas, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd ac adeiladu ysgol newydd** |
|---|
| ▪ Ffrindiau yn cael eu gwahanu<br>▪ Staff yn colli gwaith<br>▪ Dim yn hapus a dim yn cytuno gyda'r cynnig<br>▪ Adnabod pawb yma<br>▪ Nid ydym eisiau cau'r ysgol yma. Mae Corn Hir eisiau'r ysgol gau- felly pam na wnewch estyniad iddyn nhw<br>▪ Mae ysgol i 500 o blant yn ormod<br>▪ Ni fyddwn yn gwybod lle i fynd (bydd yr ysgol yn fawr)<br>▪ Mwyaf yw'r ysgol, mwyaf yw'r problemau<br>▪ Os bydd plant yn cael eu gwahardd o'r ysgol newydd, a'r ysgolion eraill yn llawn - i ba ysgol fydd y plant sydd wedi eu gwahardd yn mynd?<br>▪ Heb ysgol nid oes dim ym Modffordd - mae'n ysgol i'r gymuned e.e. cynnal partïon pen-blwydd, Eisteddfod Bodffordd, Eisteddfod Celf a Chrefft<br>▪ Mewn ysgol fawr nid oes cyfle teg. Mae mwy o chwarae teg mewn ysgol fach<br>▪ Dim eisiau bod yn ddisgybl mewn ysgol fawr<br>▪ Byddaf yn swil mewn ysgol fawr ac yn teimlo mwy cyfforddus mewn ysgol fach<br>▪ Bydd angen ystyried diogelwch yn yr ysgol, gan y bydd mwy o ddrysau yn yr ysgol newydd<br>▪ Ffrindiau dieithr - bydd rhaid cael cyfle i ddod i'w adnabod<br>▪ Ni fydd y staff yn adnabod y plant o ran eu henwau |

| **Holwyd y plant os yr oeddent yn cytuno efo'r rhesymau dros newid:**<br>**Yr angen i gynllunio llefydd priodol**<br>**Gwneud yn siŵr fod pawb yn parhau i gael addysg dda**<br>**Ysgol fodern ac offer da**<br>**Gwario arian ar ein hysgolion mewn ffordd deg** |
|---|
| ▪ Roedd rhai o'r Cyngor ysgol yn cytuno efo'r rhesymau ac eraill ddim.<br>▪ Nododd un plentyn – rwy'n casáu'r cynllun sy'n cael ei ystyried gan y Cyngor, a holwyd pam nad yw'r Cyngor wedi meddwl ymhellach am estyniad i Ysgol Bodffordd. |

## 9.3 Barn Plant Ysgol Corn Hir

**Cynrychiolaeth o flynyddoedd 2-6**

| **Cwestiwn - Beth rydych yn hoffi am eich ysgol bresennol?** |
|---|
| ▪ Chwarae pêl-droed yn yr haf<br>▪ Ysgol fach - teimlo'n saff yma a phobl glên<br>▪ Dathlu diwrnod y llyfr<br>▪ Cystadlaethau a'r Eisteddfod<br>▪ Lot o ffrindiau<br>▪ Cyfle i wneud mwy o ffrindiau yn yr ysgol newydd<br>▪ Gwaith yn cŵl |

- Mathemateg
- Agos at dai - ac nid yn ysgol sydd yn ganol cae yn rhywle
- Cerdded yma
- Lot o adnoddau
- Dod ar ein beics i'r ysgol a chyfleoedd chwaraeon
- Cwl Cymru
- Iard feics
- Ffrâm ddringo
- Babanod ac Iau a Derbyn (3 iard)
- Os ydynt yn cael ysgol newydd - eisiau parc bach fel sy'n Ysgol y Graig
- Rydym eisiau trampolinau - os yw hynny yn iawn efo Iechyd a Diogelwch
- Rydym angen toiledau mwy eu maint
- Mwy o blant a mwy o siawns iddynt frifo
- Dosbarthiadau mwy
- Neuadd fwy. Neuadd bresennol yn fach
- Yn dymuno i'r gegin ysgol newydd fod fel un Ysgol Gyfun Llangefni
- Bydd mwy o staff yn yr ysgol newydd i wneud y bwyd
- Sut bydd plant anabl yn mynd i fyny grisiau os yw'r ysgol dros 2 lawr?
- Bydd mwy o wersi yn yr ysgol e.e. Coginio
- Efallai daw cyfle i blant baratoi bwyd yn yr ysgol newydd
- Rydym yn dymuno cael gôl arall yn yr ysgol newydd er mwyn cael chwarae pêl-droed yn ystod y gaeaf
- Yn yr ysgol newydd rhannu'r iard yn deg rhwng y rhai sy'n chwarae pêl droed a'r rhai sydd ddim
- Cael AstroTurf
- Mae cyfleodd chwaraeon yn bwysig
- Bydd yn anfantais i blant Ysgol Henblas - bydd gofyn iddynt deithio yn bellach
- Rydym eisiau gweld cydweithio rhwng yr adran iau a'r babanod
- Yn dymuno cael neuadd arall i ymarfer corff, gan fod bwyd ar lawr yn y neuadd pan yn cael ymarfer corff yn bresennol
- Dim digon o ystafelloedd yn yr ysgol yn bresennol ac yn gorfod jyglo ystafelloedd
- Yn dymuno cael man chwarae AstroTurf a chynnwys cadeiriau ar gyfer pobl ddod yno i wylio, fel stadiwm
- Yn awyddus i gael ysgol sy'n fwy modern
- Ysgol fawr - cadw'n iach a saff
- Yn dymuno cael gofod bach i chwarae a chael cyfleoedd i weu ac ati
- Nyrs ysgol
- Ystafell fwy o ran maint i'r Clwb ar ôl ysgol a chyfrifiadur i bawb

**Cwestiwn - Beth yw eich barn am y cynnig i gyfuno Ysgol Henblas, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd ac adeiladu ysgol newydd**

- Anfanteision, ond hefyd bydd mwy o fanteision
- Gwell - bydd nwy i le i gadw'r offer, sy'n ein helpu efo gwaith
- Eisiau dillad ymarfer corff sy'n fwy lliwgar
- Bydd y traffig yn 'ofnadwy' - bydd rhaid meddwl yn ofalus amdano
- Bydd yn well, oherwydd lot mwy o athrawon. A fydd swyddi i'r athrawon?
- Cael bysus ysgol
- Eisiau gwersi dawnsio
- Beth sy'n digwydd i adeiladau presennol yr ysgolion
- Ydi'r ysgol newydd am fynd tu ôl i ysgol y Graig
- Dim eisiau agor y Rheilffordd yn Llangefni
- Gallwn gystadlu a llwyddo mwy yn yr Eisteddfod gan y bydd mwy o blant yn ysgol
- Bydd mwy o reolau, os bydd mwy o blant

- Yn awyddus i siarad efo'r pensaer am y dyluniad
- Eisiau loceri yn lle pegiau i ddal ein cotiau ac ati
- Rydym eisiau logos a gwisg ysgol newydd
- Awgrym am enw i'r ysgol newydd: Ysgol Corn Henffordd
- Eisiau sicrhau bod yna lot o ffonau yn yr ysgol newydd
- Eisiau sioe pob wythnos yn yr ysgol newydd
- Rwy'n ypset na fyddaf yn mynd i'r ysgol newydd. Erbyn hynny byddaf yn yr uwchradd
- Cael adnoddau da a phethau sy'n gweithio e.e. cyfrifiaduron
- Syniad da - gan ein bod yn brin o le yn yr ysgol yma
- Mae'n bwysig i'r ysgol fod yn lân
- Mae dysgu am y byd natur yn bwysig hefyd
- Parhau efo seren yr wythnos a seren y diwrnod

| **Holwyd y plant os yr oeddent yn cytuno efo'r rhesymau dros newid:<br>Yr angen i gynllunio llefydd priodol<br>Gwneud yn siŵr fod pawb yn parhau i gael addysg dda<br>Ysgol fodern ac offer da<br>Gwario arian ar ein hysgolion mewn ffordd deg** |
|---|
| Yn deall y rhesymau dros newid |

## 9.4 Barn Plant Ysgol Henblas

**Cynrychiolaeth o flynyddoedd 2-6**

**Cwestiwn - Beth rydych yn hoffi am eich ysgol bresennol?**

- Dysgu pethau gwahanol. Cyfleoedd
- Ffrindiau
- Athrawon Clên
- Pawb yn mwynhau
- Cinio
- Lot o ffrindiau
- Bywyd yn ddiflas heb ysgol a ffrindiau
- Gwaith hwyl
- Ysgol yn saff
- Ysgol agos at dai/ cartref
- Dysgu a gwneud ffrindiau newydd
- Criced ar ôl ysgol
- Gweithgareddau ar ôl ysgol
- Popeth
- Mae'n hwyl
- Gwersi offerynnau
- Adnoddau da
- Athrawon a chymorthyddion yn edrych ar ein holau - dim bwlio
- Os ydym yn drist mae gennym ffrindiau i'n helpu
- Trio pethau newydd - pob math o bethau gwahanol
- Rydym yn cael trio pethau newydd fel bwydydd sy'n dod o Affrica
- Cawsom wneud 'Fudge' cyfnod y Nadolig
- Awgrymiad am Ysgol newydd. FforCenblas (Cyfuniad o'r 3 ysgol)
- Cyfle i wylio ffilm yn yr ysgol
- Ysgol yn y Gymuned
- Ysgol i'r gymuned

**Cwestiwn - Beth yw eich barn am y cynnig i gyfuno Ysgol Henblas, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd ac adeiladu ysgol newydd**

- Mae'r ysgol rŵan yn agos at le dwi'n byw, ac mae fy ffrindiau yn bwysig
- Mae ysgol bentref yn bwysig, bydd dim ysgol yma
- Bydd bwlio yn broblem yn yr ysgol newydd
- Pwysig i'r Cyngor feddwl am sut fydd y plant yn cyrraedd yr ysgol yn saff
- Rwy'n poeni bydd y plant, sydd rŵan yn ffrindiau, yn cael eu gwahanu
- Dim cyswllt efo'r gymuned unwaith bydd yr ysgol yn mynd
- Mewn dosbarthiadau mwy, ni fyddwn yn cael sylw'r athrawes
- Ni chawn gymaint o sylw osbydd y dosbarthiadau yn fwy
- Ysgol fwy yn teimlo llai saff
- Pwysig parhau efo lle chwarae yn Llangristiolus
- Mae nifer o'r plant yn defnyddio tir yr ysgol i chwarae, ar ôl i'r ysgol gau
- Mae gennym barc newydd yma, pam rydych yn ei ddinistrio

| **Holwyd y plant os yr oeddent yn cytuno efo'r rhesymau dros newid:**<br>**Yr angen i gynllunio llefydd priodol**<br>**Gwneud yn siwr fod pawb yn parhau i gael addysg dda**<br>**Ysgol fodern ac offer da**<br>**Gwario arian ar ein hysgolion mewn ffordd deg** |
|---|
| Barn gyffredinol oedd eu bod yn deall y rhesymau dros newid |

| **Gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan y plant**<br>**13 sylw ysgrifenedig wedi ei gyflwyno ar y diwrnod (yng ngeiriau'r plant)** |
|---|

- Bydd yr ysgol yn fawr
- Gormod o blant i'r athrawon rhoi sylw iddynt.
- Os bydd un ohonom yn gofyn i rywun mewn ysgol arall i  chwarae, beth os fydd y nhw yn dweud na ac yn gwneud i ni deimlo yn drist.
- Rydym ni wedi talu miloedd o bunnoedd ar yr ysgol buasai'r pres i gyd yn mynd i wast, mae technoleg fodern yma yn barod, a fydd  cael addysg well mewn ysgol lai.
- Fy marn i am gau Henblas - Dwi eisiau i fy mhlant fynd i Ysgol Henblas felly dwi ddim eisiau 'ysgol ardal' ac mae'n agos at fy nhŷ.  Dwi ddim mynd holl ffordd i Langefni i fynd i'r ysgol. Felly na i gau ysgol Henblas! Henblas am byth!
- Fy marn yw cadw'ch yr ysgol ar agor. Nid ydym am gyfuno. Mae'r ysgol yn dda.
- Dwi'n hapus yn yr ysgol ac mae lot o ffrindiau yma.
- Os fydd yr ysgol yn cau, yn yr ysgol newydd gall blant fynd ar goll.
- Ni fydd plant yn cael chwarae ar ôl ysgol ar yr iard / tir.
- Na i gyfuno. Dim ysgol ardal.
- Bydd dim ysgol cymuned.
- Yn fy marn i ella bydd rhai o'r athrawon yn colli eu swyddi. Os bydd yr ysgol yn cael ei ddymchwel yna mwy o dai ac wedyn mwy o bobol yn yr ysgol. Diolch am gymryd fy marn.
- Dwi'n caru'r ysgol yma oherwydd mae pawb gyda ffrindiau ac mae llawer o atgofion yma.
- Ella bydd gormod o blant mewn dosbarth a ni fydd digon o sylw i blant sydd ei hangen. Fydd yna ormod o blant.

## 10. YMATEB I'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

Nid yw yn bosib ymateb i'r holl sylwadau unigol a dderbyniwyd am sawl rheswm gan gynnwys y ffaith fod nifer ohonynt yn debyg.  Cyflwynir isod ymateb yr Awdurdod i'r rhai o'r prif themâu a gyflwynwyd mewn cymhariaeth â'r prif yrwyr newid yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion [adran 2].

### *10.1 Ysgol Henblas*

1. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y sylwadau a dderbyniwyd at y ffaith fod safonau yn Ysgol Henblas wedi bod yn isel dros gyfnod o amser a gadarnheir gan adroddiad Estyn (Mai 2017). Ers hynny, nid yw'r ysgol wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig ac mae'n ffaith fod y nifer dyddiau o amser cefnogi ysgol a ddarparwyd i'r ysgol yn llawer uwch na nifer sylweddol o'r ysgolion eraill. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gwelliant diweddar dan arweiniad y Pennaeth drosdro ond erys cwestiynau ynghylch gallu'r ysgol i wella a chyrraedd y safonau sydd yn ddisgwyliedig gan yr Awdurdod. Beth bynnag fydd y penderfyniad terfynol, mae angen dybryd i'r Awdurdod, rhieni a'r Corff Llywodraethu barhau i gydweithio <u>dros y flwyddyn nesaf</u> i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

2. Nid yw maint yr ysgol yn caniatáu i benodi dirprwy ac mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod cryn waith i'w wneud i gyrraedd pwynt lle byddai arweinyddiaeth ddosranedig [nifer o athrawon yn cyfrannu at arweinyddiaeth yr ysgol] yn un o gryfderau'r ysgol. Yn sgîl hyn gellid dadlau bod datblygu diwylliant o ddatblygu arweinyddiaeth a chynllunio olyniaeth am fod yn her sylweddol yn yr ysgol.

3. Mae maint yr ysgol yn golygu bod dosbarthiadau o oedran cymysg yn yr ysgol. Mae hyn, ynghyd â'r disgwyliad i baratoi gwaith addas ar gyfer yr ystod o alluoedd mewn dosbarth, yn cynnig lefel uwch o her i athrawon mewn ysgolion llai.

4. Noda nifer sylweddol o'r ymatebion bod cyflwr yr ysgol yn dda. Yn ôl asesiad cyfredol yr Awdurdod mae cyflwr presennol yr adeilad yn foddhaol ac mae ôl-groniad cynnal a chadw o £112,000. Angen gwirio hyn.

5. Mae nifer o'r ymatebion wedi cyfeirio at ddefnydd cymunedol o'r ysgol. Cwestiynir os yw yn uwch na'r hyn sydd yn digwydd mewn nifer o ysgolion/ardaloedd eraill. Bydd yr asesiad effaith cymunedol a ddatblygwyd gan yr Awdurdod yn edrych yn fanylach ar y defnydd cymunedol o'r ysgol.

6. Cyfeirir at y ffaith fod y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn well yn Ysgol Henblas nag mewn ysgolion eraill. Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn gan fod y defnydd o'r Gymraeg yn un o gryfderau'r tair ysgol ac mae'r sylw yn sarhad ar arferion cyfredol y ddwy ysgol arall. Honnir hefyd byddai sefydlu ysgol fwy yn cael dylanwad negyddol ar y Gymraeg. Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi hyn. Nodir hefyd bod plant yr ardal yn cyfrannu'n helaeth yn ddiwylliannol yn Ynys Môn yn sgîl eu profiad yn yr ysgol. Mae esiamplau i gefnogi y rhan gyntaf o'r datganiad ond cwestiynir os yw hyn yn well na chyfraniad yr ysgolion eraill dan sylw, yn ddiwylliannol ac mewn meysydd eraill. Nid yw'r asesiad effaith Ieithyddol yn cadarnhau nifer o'r materion hyn.

7. Cyfeirir at y parc chwarae newydd ar y cae ysgol. Er bod hyn yn fater o bwys nid yw yn ffactor allweddol wrth ystyried dyfodol yr ysgol gan y byddai'n bosib rhoi ystyriaeth i hyn ar lefel gymunedol petai penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol. Yn yr un modd mae cyfeiriad at y defnydd o neuadd yr ysgol yn berthnasol i'r ysgolion eraill dan sylw; cwestiynir hefyd os yw'r defnydd o'r neuadd ysgol yn uwch na'r hyn sydd yn digwydd yn yr ysgolion eraill ac ar draws y Sir.

8. Nid oes unrhyw gyfeiriad at gost y disgybl - Henblas yw'r uchaf o'r tair ysgol. Mae 13% o lefydd gweigion yn yr ysgol er gwaethaf y ffaith fod % y disgyblion all-dalgylch [32%], er wedi lleihau yn ddiweddar, yn gymharol uchel.

### 10.2 Ysgol Bodffordd

1. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y sylwadau a dderbyniwyd at y ffaith fod safonau yn Ysgol Bodffordd wedi bod yn isel dros gyfnod o amser - ffaith a gadarnheir gan adroddiad Estyn (Mehefin 2015). Yn ogystal, mae'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers hynny wedi bod yn araf ac fe ellid dadlau bod y gefnogaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod, trwy GwE, wedi bod yn allweddol er mwyn sicrhau hyn. Mae'r amser cefnogi ysgol a ddarparwyd i Ysgol Bodffordd yn llawer uwch na nifer sylweddol o'r ysgolion eraill.

2. Cyfyd yr uchod gwestiynau ynghylch ansawdd arweinyddiaeth yn yr ysgol ac yn y cyd-destun byddai'r Awdurdod yn cydnabod yr her sydd mewn ysgolion llai o fod yn gyfrifol am ddosbarth am ran sylweddol o'r wythnos yn ogystal â bod yn gyfrifol am holl agweddau o arwain ysgol.

3. Mae maint yr ysgol yn golygu bod dosbarthiadau o oedran cymysg. Mae hyn, ynghyd â'r disgwyliad i baratoi gwaith addas ar gyfer yr ystod o alluoedd mewn dosbarth, yn cynnig lefel uwch o her i athrawon mewn ysgolion llai.

4. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod defnydd cymunedol sylweddol o'r ysgol sydd yn ymddangos yn llawer uwch na'r ysgolion eraill dan sylw ac ar draws y sir. Petai'r penderfyniad terfynol yn un o gau'r ysgol cydnabyddir yr angen i gydweithio gyda'r gymuned i ganfod datrysiad fyddai'n caniatáu i'r gweithgareddau cymunedol i barhau.

5. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan yr asesiad effaith Ieithyddol.

6. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y sylwadau a dderbyniwyd ynghylch cost y disgybl o £4,500 sydd yn uwch na chyfartaledd Ynys Môn (£3,972). Yn ogystal mae angen nodi bod ôl-groniad cynnal a chadw o £209,000 sydd yn adlewyrchu oedran a chyflwr yr adeilad.

**10.3 Ysgol Corn Hir**

1. Mae'r Awdurdod yn cydnabod mai Ysgol Corn Hir yw'r ysgol fwyaf dan sylw ac yn sgîl hynny bod angen i'r opsiwn terfynol adlewyrchu hynny. Cydnabyddir hefyd bod diffyg capasiti yn yr ysgol yn gyfredol ac nad yw yn bosib ehangu'r ysgol ar y safle gyfredol.

2. Mae safonau cyfredol yr ysgol yn dda. Fodd bynnag, fe fyddai'r Awdurdod yn dadlau bod lle i wella.

3. Mae ôl-groniad cynnal a chadw yn yr ysgol o £239,000

4. Cost y disgybl yw'r isaf o'r tair ysgol dan sylw ac fe ellid dadlau bod hyn yn arwain at her gyllidol sylweddol uwch i'r ysgol na'r ysgolion eraill dan sylw. O ganlyniad mae'r dosbarthiadau yn fawr yn yr ysgol ac yn sgîl hyn a'r ffaith fod ysgolion mwy yn aml yn gwasanaethu ardaloedd mwy difreintiedig, gellid dadlau nad yw hyn yn hyrwyddo cyfle cyfartal.

5. Mae dirprwy ac mae esiamplau o unigolion yn symud ymlaen i swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion eraill.

6. Mae'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn yr ysgol yn dda iawn. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan yr asesiad effaith Ieithyddol.

**10.4 Sylwadau Cyffredinol**

Derbyniwyd sylwadau oedd yn gyson ar draws yr ysgolion ac fe ymatebir i'r rhai mwyaf cyffredin isod.

- Roedd nifer o sylwadau ynghylch y Gymraeg ac yn cwestiynu statws ieithyddol ac ansawdd y Gymraeg yn yr ysgol newydd; bod maint ysgol yn effeithio ar ansawdd y Gymraeg. Mae yn flaenoriaeth gan y Cyngor i gryfhau a diogelu'r Gymraeg. Bydd unrhyw gynllun ysgol newydd a gyflwynir yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith. Yn ogystal, mae'n ddisgwyliad gan y Cyngor i ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod ysgolion llai yn fwy effeithiol mewn perthynas â hyrwyddo safonau uchel yn y Gymraeg.

- Cyflwynir y sylw bod ysgolion mwy yn llai effeithiol mewn perthynas â chreu 'ymdeimlad o deulu' ac nad oes yr un cyfle i'r plant gael y cyfle i gynrychioli'r ysgol. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn wir - mae trefnioadau mewn ysgolion cynradd i sicrhau cyfleoedd i'r holl ddisgyblion gyfranogi e.e. timau blynyddoedd, corau oedran penodol.
- Honnir bod 'ysgolion yn galon y gymuned' ac y byddai'r gymuned yn dirywio pan fo ysgol yn cau. Derbynnir bod hyn un her ond mae esiamplau penodol lle bo ysgol newydd wedi creu cymuned 'ehangach'. Yn ogystal mae esiamplau lle mae'r gymuned yn parhau i ffynnu mewn pentrefi lle mae'r ysgol wedi cau.

## 11. YSTYRIAETHAU ARIANNOL

Cyllidir costau cyfalaf unrhyw ysgol newydd a adeiladir dan Band A o raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru drwy gyfuniad o grantiau a benthyciadau. Darperir 50% o'r gyllideb gan Llywodraeth Cymru drwy grantiau cyfalaf a benthyca gyda chefnogaeth (cyllidir ad-daliadau dyled blynyddol a chostau llog yn y Grant Cymorth Refeniw). Mae'n rhaid cyllido'r 50% sy'n weddill gan yr Awdurdod Lleol drwy unrhyw incwm a gynhyrchir drwy werthu hen safleoedd ysgolion a drwy benthyca di-gefnogaeth lle mae'n rhaid i'r Cyngor gyllido'r cost blynyddol o ad-dalu dyled a llog blynyddol.

Mae adeiladu ysgolion newydd yn fuddsoddiad cyfalaf sylweddol a rhaid i'r gwerthusiad ariannol o'r opsiynau ystyried y rhwymedigaeth refeniw i'r dyfodol er mwyn sicrhau fod y baich ariannol o adeiladu ysgolion newydd i genedlaethau'r dyfodol cyn lleiad â phosib. Mae adeiladu ysgolion newydd mwy hefyd yn arwain at economïau maint a chostau refeniw llai. Mae'r gostyngiad yng nghostau refeniw hefyd yn ffactor bwysig yn y gwerthusiad ariannol gan fod yr arbedion a gynhyrchir yn cyfrannu tuag at y costau cyllido cyfalaf ychwanegol.

Cynhyrchir arbedion refeniw gan fod rhedeg un ysgol fawr yn llai costus yn nhermau cynnal a chadw adeilad ac ynni, costau rheoli llai (un Pennaeth yn lle dau neu dri) a gellir gosod meintiau dosbarthiadau i'r lefel orau posib sy'n gostwng costau dysgu.

Cyn cyrraedd yr opsiwn a gynigir, ymgymerwyd â gwerthusiad ariannol ar y 4 opsiwn isod:-
1. Peidio gwneud dim a pharhau i gynnal Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas
2. Agor ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd a pharhau i gynnal Ysgol Henblas
3. Agor ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas (ar yr un safle ag opsiwn 2).
4. Agor ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas (ar safle gwahanol). Mae'r gwerthusiad ariannol yn ystyried y gost o gyllido'r benthyciad, yr arbedion refeniw a gynhyrchir a'r costau ychwanegol o gludo disgyblion i'r ysgol newydd. Er mwyn ymgymryd â'r gwerthusiad ariannol, gwnaed y rhagdybiaethau isod.
   - Ystyried benthyciadau i gyllido'r ysgolion newydd dros gyfnod o 50 mlynedd gyda'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf wedi ei gyfrifo ar ddull llinell syth 2%.
   - Ystyried benthyciadau i gyllido'r costau cynnal a chadw ôl-groniad dros gyfnod o 20 mlynedd gyda'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf wedi ei gyfrifo ar ddull llinell syth 4%.
   - Defnyddio graddfeydd llog cyfredol i fodelu costau.
   - I gyfrifo costau refeniw'r ysgol newydd, defnyddiwyd y wybodaeth gyfredol ynglŷn â niferoedd disgyblion, prydau ysgol am ddim, anghenion addysgiadol arbennig disgyblion, ac ati, er mwyn gwneud dyraniad amcangyfrifiedig ar gyfer yr ysgol newydd.
   - Ni chynhwyswyd costau unwaith ac am byth yn y gwerthusiad ariannol, gan gynnwys costau apwyntio Pennaeth cyn i'r ysgol newydd agor, costau diswyddiadau, diogelu cyflogau a chostau cynnal y gyn safleoedd. Fe gymerir y rhain i ystyriaeth pan lunnir y cynllun busnes manwl o'r opsiwn y cytunir arno

Ni fyddai cynnal y 3 ysgol gyfredol yn arwain at gostau cyfalaf sylweddol, ond byddai angen rhoi sylw i'r cynnal a chadw ôl-groniad y tair ysgol o £406k, gyda phosibilrwydd o gostau ychwanegol pellach wrth i'r adeiladau nesáu at ddiwedd eu hoes ddefnyddiol. Fe all costau ychwanegol godi wrth dalu i gludo plant i ysgolion arall, sydd y tu allan i'r dalgylch oherwydd diffyg capasiti, yn enwedig yn Ysgol Corn Hir, ond mae'n anodd pennu'r rhain ar yr adeg yma ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad.

Byddai adeiladu un ysgol i gymryd lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas yn ddrutach ond be wrthbwysir y gost ychwanegol yma'n rhannol gan gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a'r derbyniad cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu safle Ysgol Henblas. Byddai cau Henblas yn cynyddu'r economïau maint yr ysgol newydd a byddai'n cynhyrchu mwy o arbedion refeniw.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwerthusiad ariannol o'r 4 opsiwn a nodir uchod

| | **Opsiwn 1**<br>**Gwneud Dim** | **Opsiwn 2**<br>**Ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd. Ysgol Henblas i aros ar agor gydag addasiadau** | **Opsiwn 3**<br>**Ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas**<br>**Ar yr un safle ag Opsiwn 2** | **Opsiwn 4**<br>**Ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas**<br>**Ar safle gwahanol** |
|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif Cost Cyfalaf | £0 | £8,143,000 | £8,412,000 | £10,162,000 |
| Cost cynnal a chadw ôl-groniadol | £406,000 | £0 | £0 | £0 |
| **Cyfanswm Costau Cyfalaf** | **£406,000** | **£8,143,000** | **£8,412,000** | **£10,162,000** |
| Cyllid Llywodraeth Cymru | £0 | (£4,071,500) | (£4,206,000) | (£5,081,000) |
| Derbyniadau Cyfalaf | £0 | (£320,000) | (£770,000) | (£770,000) |
| **Benthyca Di-gefnogaeth Net** | **£406,000** | **£3,751,500** | **£3,436,000** | **£4,311,000** |
| **Rhwymedigaethau Refeniw** | | | | |
| Cost flynyddol Darpariaeth Refeniw Isaf | £20,300 | £75,030 | £68,720 | £86,220 |
| Cost Llog Blynyddol @ 2.3% | £9,340 | £86,280 | £79,030 | £99,150 |
| Costau Cludo Ychwanegol | Heb ei gyfrifo | £32,000 | £64,000 | £64,000 |
| **Cyfanswm Costau Refeniw Ychwanegol** | **£29,640** | **£193,310** | **£211,750** | **£249,370** |
| Arbedion Refeniw | £0 | (£25,700) | (£110,470) | (£110,470) |
| **Costau Refeniw Ychwanegol Net** | **£29,640** | **£167,610** | **£101,280** | **£138,900** |

## 12. YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL

Cafodd Strategaeth Ynni'r Awdurdod ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith yn 2017. Nod y strategaeth yw i leihau allyriadau carbon yr Awdurdod o 15% erbyn 2022. Gweler isod wybodaeth am wariant yr Awdurdod ar danwydd a thrydan, dros y tair blynedd ariannol diwethaf, i'r ysgolion:

| | **Gwariant (ar drydan a thanwydd)** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2014-2015** | **2015-2016** | **2016-2017** | **Cyfartaledd (y flwyddyn)** | **Cyfartaledd cost y disgybl** |
| **Bodffordd** | £6,491 | £5,560 | £6,814 | £6,288 | £101 |
| **Corn Hir** | £9,178 | £8,442 | £9,525 | £9,048 | £42 |
| **Henblas** | £7,380 | £6,834 | £7,467 | £7,227 | £82 |

Mae’r tabl isod yn manylu ar allyriadau carbon deuocsid o’r ysgolion dros y dair blynedd ariannol diwethaf:

| Ysgol | Tunnell $CO_2$ (trydan a thanwydd) 2014-2015 | 2015-2016 | 2016-2017 | Cyfartaledd * | Cyfartaledd y disgybl |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bodffordd** | 25 | 31 | 27 | 28 | 0.45 |
| **Corn Hir** | 35 | 34 | 47 | 38 | 0.18 |
| **Henblas** | 34 | 28 | 26 | 29 | 0.33 |

**Allwedd - * tunnell $CO_2$**

Gweler mai gan Ysgol Corn Hir mae’r allyriadau carbon deuocsid uchaf ond hefyd sydd a’r cyfartaledd allyriadau **$CO_2$** lleiaf, y disgybl, o’r tair ysgol.

## 13. CASGLIADAU AC ARGYMHELLIAD

13.1 Ceisir isod grynhoi'r prif faterion a gyflwynir yn yr adrannau blaenorol a cheisio defnyddio hynny i gyflwyno argymhelliad ar gyfer sylw’r Pwyllgor.

13.2 Mae’r dystiolaeth uchod yn arwain at y casgliadau a ganlyn.

- Bod angen i Ysgol Corn Hir yn sgîl nifer disgyblion, capasiti cyfredol, cost y pen ac ôl-groniad cynnal a chadw fod yn ganolog i unrhyw drefniadaeth newydd.
- Bod safonau cyfredol yr ysgol, cyflymder y gwelliant ac ansawdd arweinyddiaeth, maint yr ysgol, ôl-groniad cynnal a chadw a chost y pen yn golygu nad yw yn bosib cyfiawnhau dyfodol Ysgol Bodffordd. Dylid fodd bynnag nodi bod angen i unrhyw benderfyniad gymryd ystyriaeth o’r angen i geisio sicrhau dyfodol y ddarpariaeth gymunedol.
- Mae nifer o faterion sydd angen sylw wrth ystyried dyfodol Ysgol Henblas.
  - Mae safonau’r ysgol yn is na’r disgwyl ac wedi bod dros gyfnod o amser ac mae cyflymder y gwelliant yn siomedig iawn.
  - Mae cryn waith i’w wneud i ddatblygu arweinyddiaeth yn yr ysgol.
  - Mae maint yr ysgol yn golygu bod dosbarthiadau o oedran cymysg yn yr ysgol ac mae hyn, ynghyd â’r disgwyliad i baratoi gwaith addas ar gyfer yr ystod o alluoedd mewn dosbarth, yn cynnig lefel uwch o her i’r athrawon.
  - Yn ôl asesiad cyfredol yr Awdurdod mae cyflwr presennol yr adeilad yn foddhaol ac mae ôl-groniad cynnal a chadw o £112,000.
  - Mae cost y pen yn uwch yn yr ysgol na’r ddwy ysgol arall.
  - Mae 13% o lefydd gweigion yn yr ysgol er gwaethaf y ffaith fod % y disgyblion all-dalgylch, er wedi lleihau yn ddiweddar, yn gymharol uchel.
- Cydnabyddir fodd bynnag y gallai penderfyniad i gau Ysgol Henblas ddylanwadu ar argaeledd addysg mewn ardal wledig ynghyd â chyfarfod a dymuniad rhai rhieni am fath gwahanol o ysgol. Yn sgîl hyn gellid cyflwyno achos i gefnogi Ysgol Henblas cyn belled â bod tystiolaeth bendant bod y gwelliannau diweddar yn parhau a’r cyflymder gwelliant yn cynyddu.

13.3 Dengys y dadansoddiad ariannol bod cost ôl-groniad y tair ysgol yn £406k ac y byddai’r swm hyn yn cynyddu wrth i’r adeiladau nesáu at ddiwedd eu hoes ddefnyddiol. Nodir hefyd byddai adeiladu un ysgol i gymryd lle Ysgol Corn Hir, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Henblas yn ddrutach nag adeiladu un ysgol ar gyfer Corn Hir a Bodffordd ond fe wrthbwysir y gost ychwanegol yma’n rhannol gan gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a’r derbyniad cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu safle Ysgol Henblas. Byddai cau Henblas yn gwella gwerth am arian yr ysgol newydd gan y byddai’n arwain at fwy o arbedion refeniw.

13.4 Yn sgîl yr uchod, a’r holl sylwadau a dderbyniwyd cyflwynir yr opsiynau a ganlyn.

*Opsiwn 1*
Adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd, Corn Hir a Henblas.

*Opsiwn 2*

Adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd a Corn Hir a pharhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus. Fe allai'r ddarpariaeth yn Llangristiolus olygu cynnal Ysgol Henblas ar ei ffurf gyfredol neu ysgol aml-safle [h.y. uno Henblas gyda'r ysgol newydd a chreu un ysgol ar ddau safle]. Byddai rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn gysylltiedig â chael sicrwydd mewn blwyddyn bod safonau yn Ysgol Henblas yn codi, bod y raddfa gwelliant cyfredol yn cynyddu a bod rhagolygon niferoedd disgyblion yn parhau'n gyson neu yn codi. Byddai rhaid i unrhyw waith cynllunio ar gyfer yr ysgol newydd gymryd ystyriaeth o hyn.

13.5 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini roi sylw i'r materion a ganlyn.

I. Rhoi ystyriaeth i'r adroddiad yn ei chyfanrwydd a dwyn sylw at **unrhyw faterion ychwanegol** allai fod yn ddefnyddiol i'w cynnwys i gynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddod i benderfyniad.

II. Rhoi ystyriaeth i'r uchod ac argymell pa opsiwn y dylid ei ffafrio gan y Pwyllgor Gwaith.


**ATODIAD 1**

## ADBORTH AR LEIN


Yn ychwanegol i'r ffurflenni a'r llythyrau adborth ar yr ymgynghoriad roedd cyfle i'r rhanddeiliaid gyfrannu at arolwg electroneg trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn .Cyflwynir isod grynodeb o'r arolwg.

Rydym yn ddiolchgar i'r 101 o bobl a gymerodd ran yn yr arolwg gyda chynrychiolaeth o'r tair ysgol dan sylw.

**Holwyd y rhanddeiliaid pa grŵp roeddent yn eu cynrychioli, a dyma'r ymateb:**




**Dyma grynodeb o gynrychiolaeth yr ysgolion dan sylw, gyda rhai unigolion wedi dewis mwy nac un ysgol.**




**Holwyd y rhanddeiliaid a fyddai'r cynnig o adeiladu ysgol gynradd newydd Llangefni a chau ysgolion Henblas, Bodffordd a Chorn Hir yn cael effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg?'**

| Bydd effaith negyddol | Dim effaith negyddol |
|---|---|
| 73% | 27% |

**Dyma grynodeb o brif fesurau lliniaru a gyflwynwyd gan y rhanddeiliaid i leihau'r effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg, os cymeradwyir y cynnig.**

| |
|---|
| Cadw Ysgol Henblas ar agor<br>Cadw Ysgol Bodffordd ar agor<br>Cadw Canolfan a Chylch Meithrin ar agor.<br>Trosglwyddo'r ganolfan yn ôl i eiddo'r gymuned. Cadw ysgolion bach, cymunedol, wledig ar agor. Mae gan ysgol wledig fwy o ffocws ar addysg Gymraeg |
| Angen i gyfleoedd o annog diwylliant a thraddodiadau Cymreig barhau |
| Sicrhau bod y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn parhau i fod yn gryf yn ystod amser egwyl, cinio ayyb. |
| Sicrhau bod staff Cymraeg yn cael eu penodi |
| Mae'n amhosib lleihau'r effaith negyddol, ac yn anodd ei reoli yn ystod amseroedd egwyl ac ati |
| Parhau gyda gweithgareddau megis Eisteddfodau pentref sy'n annog Cymreictod a diwylliant Cymreig |
| Rhoi sicrwydd am statws Ieithyddol yr ysgol newydd. Datblygu cynllun ar gyfer ymdrin â theuluoedd di-gymraeg sy'n symud i'r ardal o ganlyniad i Horizon a phrosiectau eraill. |
| Ymestyn Ysgol Henblas a'i gadw yn y gymuned i sicrhau'r Iaith Gymraeg |
| Rhoi sicrwydd i Gymdeithas yr Iaith ac eraill na fydd cau ysgolion gwledig (os cymeradwyir hynny) yn yr achos yma yn cael effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg |
| Niferoedd uchel o ddysgwyr yn golygu bydd angen i'r ysgol newydd fod â statws Ieithyddol dwyieithog. |
| Cyfuno Ysgol Henblas ac Ysgol Bodorgan - er mwyn cadw'r cysylltiad rhwng Iaith a'r Gymuned |
| Hybu'r Iaith yn yr ysgol. Gwersi trwy gyfrwng y Gymraeg |

**Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r uchod am y pryderon am yr Iaith Gymraeg**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yr un yw'r disgwyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir feddu ar y sgiliau priodol i fod yn hyderus yn eu dwyieithrwydd. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw gynllun ysgol newydd a gyflwynir - yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan ysgolion gwledig ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at gymunedau, y defnydd o'r Iaith Gymraeg a ffordd o fyw. Wrth ystyried opsiynau moderneiddio ysgolion bydd y Cyngor yn rhoddi ystyriaeth i gydbwyso anghenion addysgol gydag anghenion tymor hir ein cymunedau.

Mae'n ddisgwyliad gan y Cyngor i ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion  barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith.

Bydd yn flaenoriaeth gan y Cyngor i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.

**Holwyd y rhanddeiliaid 'Pa effaith fydd y cynnig yn ei gael ar deuluoedd lleol?'**

| |
|---|
| Effaith negyddol ar deuluoedd sydd heb fynediad at gerbyd neu ddull o gludiant eu hunain, yn enwedig teuluoedd sy'n gallu cerdded i'w hysgol yn bresennol. |
| Mae'n rhesymol i deithio rhai milltiroedd i'r ysgol. Bydd rhieni dal yn gallu cymdeithasu wrth giât yr ysgol. Gallaf weld y bydd yn bechod cau ysgol ond nid oes disgwyliad i drethdalwyr dalu am sefydliad i'r lleiafrif, a rhaid bod yn realistig. |
| Mwy o bellter teithio i'r ysgol newydd. |
| Effaith negyddol ar deuluoedd tlawd, sydd heb fynediad at geir, a'u gorfodi i edrych am ffyrdd gwahanol o  deithio.  Costau ychwanegol ar gyfer cludiant i deuluoedd. |
| O ganlyniad i gau ysgol Bodorgan ac Aberffraw a'r cynnig dan sylw byd ardal ddaearyddol fawr heb ysgol. |
| Bydd yn achosi anhawster. Bydd yn cael effaith ariannol, personol ac emosiynol. |
| Colli cysylltiadau clos presennol |
| Colli canolbwynt cymunedol. |
| Prisiau tai yn gostwng yn yr ardaloedd heb ysgol |
| Diffyg dewis ysgol wledig i rieni |
| Pryder am ddyfodol pentrefi i'r dyfodol |
| Pryder am gyfeillgarwch rhieni, yn credu fod perthynas rhwng rhieni yn haws mewn ysgol lai |
| Poendod am blant ifanc 4 oed yn teithio ar fysus ben eu hunain |
| Colli perthynas rhwng rhieni a staff yr ysgol Colli'r ymdeimlad o 'deulu' sydd yn yr ysgolion presennol |
| Dinistriol, yn gyffredinol |
| Mae plant yn teimlo mwy diogel mewn ysgol lai ei maint |
| Bydd yn straen ar deuluoedd |
| Ni fydd cau ysgol Bodffordd yn cael effaith niweidiol ar deuluoedd lleol. Bydd pawb yn gweld ei gilydd yn yr ysgol newydd. |
| Os bydd yr ysgol yn cau , bydd yr ysgol Feithrin yn colli adeilad. Yn hanesyddol maent yn colli niferoedd ac yn cau. |
| Bydd cau ysgolion pentref yn gallu arwain at wneud y lle yn llai atyniadol i bobl ifanc a theuluoedd. Canlyniad anochel hynny yw tlodi yng nghefn gwlad |

| |
|---|
| Dinistriol - meddyliwch am y tymor hir ac nid yn ariannol. Yn gwerthfawrogi bod rhaid i'r Awdurdod wneud arbedion. |
| Bydd teuluoedd yn cael eu gorfodi i symud yn agosach at yr ysgol newydd. Byddaf yn ystyried symud gan nad wyf yn hapus i anfon fy mhlant ar y bws, gan nad yw'n ddiogel. |
| Ofnadwy. Rydym wedi symud i ardal Henblas ac wedi cael croeso. Mae amryw o ddogfennaeth wedi eu datblygu i amlinellu'r effaith o gau ysgol wledig ar y cymunedau. |
| Effaith negyddol ar Iechyd. Yn bresennol mai rhai yn gallu cerdded i'r ysgol a chael ymarfer corff |
| Colli mynediad at wasanaethau e.e. Cylchoedd Meithrin |
| A oes ystyriaeth i'r teuluoedd a oedd yn mynychu Ysgol Llandrygarn , a'r oblygiadau teithio ychwanegol |
| Anoddach i grwpiau penodol megis rhieni sengl. |
| Materion traffig. Bydd y traffig yn drymach |
| O safbwynt chwaraeon a diwylliannol, mae niferoedd llai mewn ysgol yn rhoi mwy o hyder a chyfleodd i gynrychiolir ysgol.<br>Poeni am golli cyfleoedd mewn ysgol fwy ei maint. Poeni bydd mhwyo bwyslais ar lwyddiant yn hytrach na'r cymryd rhan |
| Straen ychwanegol ar deuluoedd i chwilio am ddarpariaeth i'r plant |
| Mae ysgolion bach gyd dosbarthiadau llai, ac felly mae'r plant yn cyfranogi mwy. Mae problemau yn cael eu hadnabod gan athrawon oherwydd y berthynas rhwng y plant a'r athrawon. |
| Gwneud gofal cyn ac ar ôl ysgol yn anoddach. |
| Bydd yn cael effaith andwyol ar deuluoedd lleol ac mae nifer wedi symud mewn i'r pentref/ardal er mwyn gallu mynychu'r ysgol. |
| Effaith negyddol iawn. Mae ysgol Henblas wedi bod trwy lawer o newidiadau yn y blynyddoedd diwethaf. Mae rhai teuluoedd wedi symud eu plant o'r ysgol, yn bennaf oherwydd problemau staffio. Mae'r mwyafrif o deuluoedd wedi aros yn ffyddlon i'r ysgol, yn gwybod pwysigrwydd yr ysgol i'r gymuned leol a bod eu plant yn hapus yn yr ysgol. Mae apwyntiad Pennaeth ifanc, brwdfrydig yn ddiweddar wedi rhoi hwb enfawr i'r ysgol. Mae rhieni, plant a staff yr ysgol yn edrych ymlaen at y dyfodol ac i weld ysgol Henblas yn serennu unwaith eto. |

**Holwyd y rhanddeiliaid 'Sut bydd y cynnig yn effeithio cymunedau?'**

| |
|---|
| Yn gyffredinol yn teimlo y bydd cau unrhyw ysgolion mewn cymunedau yn cael effaith negyddol. Heb os ac oni bai, bydd unrhyw gyfleoedd yn gyfyngedig o'u cymharu â'r sefyllfa bresennol gan y byddai'n rhaid rhannu a chynnig y cyfleoedd hynny i nifer fwy o blant ond gyda llai o adnoddau dynol. Yn anorfod felly bydd y plant hynny yn cael llai o sylw ac o risg o gael eu colli i'r system. |
| Y golled fwyaf fydd y ganolfan, er nad oes defnydd mawr ohono, hwn yw'r unig gyfleuster yn y pentref. Colli hwb canolog y gymuned. Yn adeilad pwysig ar gyfer ymgynnull a chyfarfodydd. |
| Lleihau cyfleoedd i bobl gymdeithasu a chwrdd â phobl o'r un pentref a bydd hyn yn cael effaith negyddol ar lesiant yr ardal. |
| Ni fydd yn parhau i fod yn bentref, dim ond ystâd o dai. |
| Mae'r agosatrwydd naturiol sy'n bodoli a'r gefnogaeth yn mynd i wanhau a chwalu yn y diwedd. Heb galon a chyswllt dyddiol ni fydd yna fwrlwm na theimlad o berthyn. |
| Bydd yn ddistaw iawn. |
| Peryg o droi Bodffordd yn bentref sydd ond yn un gyda phobl yn mynd oddi yno i'w gwaith, neb o gwmpas yn y dydd. |
| Colli calon y pentref. Colli safle ymgynnull y pentre' .Colli'r ymdeimlad o gymuned a phlant gwledig. |
| Dirywiad mewn iaith, diffyg cyfathrebu ac adnabod pawb gan fod gormod o rieni a staff. Plant yn debygol o gael eu hanghofio amdanynt, os yn blant distaw, neu gydag anhawster dysgu. |

| |
|---|
| Bydd y Gymuned yn dioddef. Colli'r cydweithio rhwng y gymuned leol a'r ysgol.. Mae llawer o drigolion a henoed y pentref yn cefnogi cyngherddau 'Dolig, Diolchgarwch a nosweithiau coffi sydd yn cael eu cynnal gan yr ysgol, unai yn y Neuadd Gymuned neu'r Capeli lleol. Os bydd yr ysgol yn cau ni all hyn ddigwydd ar eu carreg drws. |
| Effaith mwyaf ar gymuned Llangristiolus fydd cau'r ysgol. Yr ysgol yw calon y gymuned hon. Mae plant yn gallu cerdded a beicio i'r ysgol. |
| Dinistriol |
| Bydd colli Ysgol Gymuned Bodffordd yn drychineb mawr i'r gymuned. Colli hwb y pentref. Diwylliant a thraddodiad Cymreig yn dod i ben. |
| Lleihau parodrwydd newydd-ddyfodiaid i siarad Cymraeg. Seisnigeiddir ardal.  Colli diwylliant. |
| Dim gwahaniaeth. Bydd trefnu cyfarfodydd eraill er mwyn cael sgwrs. |
| Mae’r Cyngor yn euog o ddilyn system sydd ddim yn effeithiol. (defnyddio model Lloegr, ac maent erbyn hyn yn ail edrych ar y model ac yn gweld y buddiannau o ysgolion llai). Nid oes ffydd yn y cynnig gan fod Ysgol y Graig yn enghraifft o hynny, bellach sydd ddim yn addas i bwrpas na chynaliadwy ond yn ysgol newydd. |
| Bydd yn cael effaith ddifrifol ar gymuned Bodffordd |
| Nid oes tafarn na siop yn y gymuned, felly bydd cau’r ysgol yn stopio’r cyfleoedd o’r gymuned ddod at ei gilydd. |
| Yn bresennol yn gymdeithasol iawn ar ôl ysgol, mae plant yn aros yn y maes chwarae a chae chwarae’r ysgol. Y rheini yn sgwrsio tra bod y plant yn chwarae. Bydd cymuned teuluoedd ifanc Llangristiolus yn dioddef. |
| Effaith negyddol iawn- llai o deuluoedd yn symud oherwydd mae cael ysgol leol yn atyniad mawr. Gyda hyn bydd dim yn ardal Llangristiolus a bydd yn gymuned. Bydd y rhieni sydd yma'n barod yn colli'r cysylltiad lleol drwy orfod mynd â'u plant ymhellach |
| Dim cymuned yn Llangristiolus. |
| Mae yna gymuned arbennig yn Llangristiolus ac Ysgol Henblas yw calon y pentref. Nid oes siop na thŷ tafarn nac unrhyw fan arall i bobl ymgynnull yma, heb yr ysgol dim ond pasio heibio'i gilydd fyddai pawb a bydd y gymuned Gymraeg, gryf, naturiol sydd yma yn cael ei cholli. Ar amryw o achlysuron mae rhieni a thrigolion y pentref yn dod at ei gilydd, e.e. i godi pres at Eisteddfod Môn, at Adran Urdd Henblas neu at elusen arall, ac mae amryw o helfeydd trysor, prynhawniau te a.y.b. wedi cael eu trefnu. Os na fydd ysgol yn parhau yn y pentref fydd y gymuned ar chwâl a bydd colli cymuned Gymraeg naturiol arall. |
| Chwalu cymunedau. Teuluoedd ifanc yn symud yn agosach at yr ysgol ardal ac ail dai fydd yn ein pentrefi. |
| Prisiau tai yn gostwng. Dim canolbwynt.. |
| Colli cysylltiadau lleol. Colli’r Gymraeg |
| Difrifol mae’r ysgol yn galonnog i'r pentref. Chwalu cymuned heb fod eisiau. |
| Pobl ddim yn adnabod ei gilydd |
| Dim hwb cymunedol |
| Effaith dinistriol ar gymuned fach |
| Ymfudiad yn anochel |
| Bydd y pentref yn rhesi o dai heb galon. Ni fydd ffrindiau yn bodoli. Yr ysgol yw calon y gymuned ac mae ei gau yn drosedd. |
| Poblogaeth Llangristiolus wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer o deuluoedd ifanc yn ymgartrefu. Yr ysgol yw hwb y gymuned. |
| Bydd cau ysgol Henblas yn lladd y gymuned. Mae'n gymuned lewyrchus gyda nifer o deuluoedd ifanc wedi symud yma dros y blynyddoedd diwethaf ar ysgol yn un o'r prif atynfeydd iddynt symud yma. Mae'r Cylch Meithrin yn llawn , bydd 2 sesiwn yn cael ei gynnal o Fedi 2018. |

| |
|---|
| Effaith ar y gymuned gyfan. Yr ysgol yw canolbwynt y pentref. Mae'r gymuned yn dod at ei gilydd oherwydd yr ysgol a hebddi bydd cymuned arall yn chwalu a'r iaith Gymraeg yn dechrau diflannu. |
| Effaith ar fywyd cymunedol yn amlwg, gyda llai o deuluoedd yn dewis byw ym mhentrefi'r ynys. |
| Colli gwaith. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 23 Ebrill 2018 |
| **Pwnc:** | **Arolygiaeth Gofal Cymru (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gynt)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Rhoi diweddariad i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (yn dilyn briffio'r pwyllgor ar 2 Hydref 2017) am y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu mewn ymateb i Lythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws<br>Y Cynghorydd Peter Rogers |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn Rhys Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol<br><br>Emma J Edwards, Dirprwy Reolwr Busnes<br>01248 751887 emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

1. Argymhellir bod aelodau'r Panel Sgriwtini Corfforaethol:

   Yn cael gwybod bod Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi newid ei henw i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar 15 Ionawr 2018.

2. Yn ystyried a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu diweddaraf (Ebrill 2018) mewn ymateb i Lythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol AGGCC. Rhannwyd y Cynllun Gweithredu cychwynnol gydag aelodau ym mis Hydref 2017. Gweler Atodiad 2 am gopi o'r Cynllun Gweithredu i'w ystyried. (Mae Atodiad 3 yn cynnwys copi o Lythyr Blynyddol AGGCC 2017, er hwylustod).

3. Yn cael gwybod bod AGC wedi hysbysu CSYM yn ysgrifenedig ar 23 Chwefror 2018 yn cadarnhau, yn dilyn gwerthusiad, na fydd yr Arolygiaeth yn cyflenwi llythyr blynyddol yn 2018. Mae copi o'r llythyr ynghlwm er gwybodaeth.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini i gael adolygu Cynllun Gweithredu diweddaredig ym mis Mawrth 2018 (wedi'i aildrefnu ar gyfer Ebrill 2018). O ganlyniad, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhannu adroddiad gyda'r aelodau yn amlinellu nodi bod cynnydd wedi ei wneud yn erbyn y mwyaf o'r camau gweithredu neu eu bod wedi eu cwblhau.

Gobeithir y bydd y diweddariad yn rhoi sicrwydd pellach i'r aelodau fod y Cyfarwyddwr, y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Uwch Reolwyr eraill yn gweithio'n ddiflino er mwyn gwneud gwelliannau a newidiadau fel yr amlinellir gan AGC (AGGCC gynt).

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Bydd yr egwyddorion a ganlyn yn cynorthwyo Aelodau i graffu ar y pwnc:-**

**3.1 Y dinesydd / cwsmer** [edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt y cwsmer/ dinesydd]

Mae ein harolygwyr, sef AGGCC, wedi cynhyrchu'r llythyrau fel crynodeb o'u hadborth ar eu gweithgareddau arolygu, ymgysylltu a pherfformiad dros y 12 mis diwethaf yn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Cynllun Gweithredu diweddaredig yn ceisio rhoi sicrwydd i gwsmeriaid a dinasyddion Ynys Môn ein bod yn rheoli ac yn mynd i'r afael â'r holl faterion a phryderon a amlinellwyd gan ein Harolygwyr

**3.2 Gwerth** (edrych a yw cynlluniau a chynigion yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Edrych ar ofynion ehangach o ran buddion cymunedol hefyd)

Mae'r Cynllun Gweithredu yn rhan o gynllun gwaith ehangach sy'n gysylltiedig â'n Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Plant, felly mae'n anelu at roi sicrwydd bod materion yn cael sylw mewn modd amserol ac effeithlon.

**3.3 Risg** (edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt gwytnwch a thrawsnewid gwasanaeth. Mae'n ymwneud â throsglwyddo o wasanaeth traddodiadol i un sydd wedi ei weddnewid ac â chadernid y gwasanaeth hwnnw unwaith y bydd yn ei le)

'Rydym yn monitro ein taith wella ochr yn ochr â'n harolygwyr AGGCC, a hynny er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu ein prosesau, ein rheolaeth a'n hallbynnau. Nod y cynllun diweddaredig, a luniwyd mewn ymateb i'r llythyr blynyddol, yw rhoi sicrwydd i AGGCC ac aelodau ein bod yn parhau i reoli ein taith wella'n ofalus.

**3.4 Canolbwyntio ar y system (gan gynnwys datblygu'r sefydliad)** (Sicrhau bod gan y Cyngor a'i bartneriaid y systemau ar waith i sicrhau y gallent weithredu'r trawsnewid yn esmwyth, yn effeithlon a heb gael effaith negyddol ar ddarparu gwasanaethau)

**3.5 Canolbwyntio ar berfformiad ac ansawdd** [Sgriwtini yn ymgymryd â rôl monitro perfformiad neu sicrhau ansawdd, ar sail eithriad)

**3.6 Canolbwyntio ar Lesiant** (edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Ydych chi'n dawel eich meddwl bod gwaith yn cael ei wneud a'i gwblhau mewn modd amserol?
2. A oes unrhyw risgiau allweddol wrth gyrraedd gofynion - sut y mae'r rhain yn cael sylw gan y gwasanaeth?
3. A yw'r manylder yn y cynllun gweithredu yn ddigon cadarn a medru eu gwireddu - a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau ?
4. A oes unrhyw feysydd gwella eraill angen eu datrys?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Newidiodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ei henw i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar 15 Ionawr 2018.

Yn dilyn cyhoeddi'r Llythyr Blynyddol gan AGGCC, ymatebodd y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda Chynllun Gweithredu, a rannwyd gydag aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gan y Cyfarwyddwr a Swyddogion o AGGCC ym mis Hydref 2017. Cytunwyd y byddai cynllun diweddaredig yn cael ei rannu gydag aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o fewn 6 mis er mwyn adolygu cynnydd.

Rhoddodd AGC wybod i ni yn ysgrifenedig ar 23 Chwefror 2018 yn cadarnhau, yn dilyn gwerthusiad, na fyddai yn cyflenwi llythyr blynyddol yn 2018. Mae copi o'r llythyr ynghlwm er gwybodaeth

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Amherthnasol

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Amherthnasol

**8 – Atodiadau**

1. Diweddariad Llythyr Blynyddol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) (Chwefror 2018)

letter -CIW Annual Letter update feb 20´

2. Cynllun Gweithredu diweddaredig Ebrill 2018 yn seiliedig ar Lythyr Adolygu Perfformiad AGGCC.

CSSIW Improvement Priority Plan - based c

3. Copi o Lythyr Adolygu Perfformiad 2017 gan AGGCC er hwylustod.

CSSIW Performance Review letter for the Is

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| --- |
| Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch cysylltwch ag Emma Edwards emmaedwards@ynysmon.gov.uk 01248 751887 os gwelwch yn dda. |

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Dyddiad / Date 23/02/18:

Annwyl gydweithiwr

Parthed: LLYTHYR BLYNYDDOL AROLYGIAETH GOFAL Cymru

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn o newid sylweddol i Arolygiaeth Gofal Cymru. Drwy gydol ein proses ailstrwythuro, rydym wedi bod yn ymgynghori â'n staff a'n rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â'n blaenoriaethau a'n rhaglen waith.

Llynedd, gwnaethom symud i ffwrdd o greu adroddiad gwerthuso perfformiad manwl, ac ysgrifennu atoch ym mis Mehefin yn hytrach yn crynhoi ein dadansoddiad o berfformiad yr awdurdod lleol yn ystod 2016/17, a gosod ein blaenraglen waith. Gwnaethom geisio derbyn adborth ar y dull diwygiedig hwn, a gwnaethom chael ymatebion cymysg. Mae hyn, ynghyd â'r materion sy'n codi o'r gyfres ddiwygiedig o ddangosyddion perfformiad, wedi arwain at ein penderfyniad i beidio ag ysgrifennu llythyr perfformiad blynyddol eleni.

Byddwn yn trefnu i drafod ein dull o arolygu ac adolygu perfformiad yn y dyfodol â chi a'n rhanddeiliaid allweddol eraill dros y misoedd nesaf er mwyn llywio ein blaenraglen waith.

Hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am ymgysylltu â rheolwyr Arolygiaeth Gofal Cymru drwy gydol y flwyddyn, ac fel y gwyddoch, rydym wedi trefnu i gyfarfod â chi i gynnal trafodaeth adolygu perfformiad dros yr wythnosau nesaf.

Yn gywir

Vicky Poole
Pennaeth Awdurdodau Lleol

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Cyffordd Llandudno
Swyddfeydd Llywodraeth
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
0872 437 7301
ciw.llandudnojunction@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Llandudno Junction Office
Government Offices
Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cynllun Blaenoriaeth ar gyfer Gwella 2017-18, yn seiliedig ar Lythyr AGGCC ar Adolygiad o Berfformiad CSYM (Mehefin 2017)**

| | Gwasanaeth | Blaenoriaethau Gwella a Nodwyd | Swyddog sy'n Arwain | Canlyniad / Tasg / Lliniaru | Amserlen | Tystiolaeth | Proses Adrodd / Sicrwydd Ansawdd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Oedolion | **Themâu AGGCC am 2017-18 mewn perthynas ag Arolygiad, Ymgysylltiad a Pherfformiad:** "Darparu cefnogaeth ar gyfer pobl gydag anghenion iechyd meddwl gyda ffocws ar Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol" | ARJ – BW | Hysbysu Rheolwyr Gwasanaeth ac Arweinwyr Tîm i ddisgwyl Adolygiad yn ystod y flwyddyn | Gwanwyn / Haf 2018 (Amserlen AGGCC) | Ymarfer casglu data bwrdd gwaith cenedlaethol wedi ei gwblhau ar gyfer AGGCC. Disgwylir adroddiad llawn yn y Gwanwyn / Haf 2018 | Unwaith y bydd adroddiad AGGCC wedi ei dderbyn (Gwanwyn / Haf 2018), bydd ymateb llawn yn cael ei baratoi. |
| 2 | Oedolion | Tîm Un Pwynt Mynediad (SPOA) – Adolygu / ailstrwythuro'r Tîm (yr angen am Weithiwr Cymdeithasol ychwanegol i gael ei nodi) | ARJ - IR | Adolygu a gwerthuso anghenion Gwasanaeth yr UPA a'r tîm broceriaeth a gweithredu ar argymhellion priodol tua canol 2018/19 (amserlen wedi ei hadolygu o Ionawr 2018) | Arbrofi gyda'r strwythur newydd Mawrth – Mehefin 2018<br><br>Strwythur diwygiedig erbyn canol 2018 | Oherwydd problemau staffio – arbrofi gyda model newydd ar hyn o bryd – mae hyn yn cynnwys cael Gweithiwr Cymdeithasol a Therapydd Galwedigaethol fel rhan o'r gwasanaeth am 3 mis (Mawrth-Mehefin).<br><br>Bydd angen rhoi sylw i'r Cynllun Gweithredu, ymgynghori gyda staff, y strwythur newydd i gael ei weithredu erbyn canol 2018 (dyddiad diwygiedig) | Gwasanaethau Oedolion Uwch Dîm Rheoli |
| 3 | Oedolion | Y Rhaglen Drawsnewid i gael ei monitro | ARJ – EW ST | Busnes fel arfer – Parhau gyda'r cynlluniau cyfredol fel y cânt eu | Busnes fel Arfer – mae gan bob | Cofnodion a Rhaglen y Bwrdd Trawsnewid, Cynlluniau Prosiect ac ati | Grŵp Cyflawni'r Rhaglen |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | rheoli gan yr arweinwyr a'r rheolwyr rhaglen. | prosiect ei amserlen ei hun, cael eu monitro gan Trawsnewid | | Gwasanaethau Oedolion |
| 4 | Oedolion | Datblygu Gwasanaethau Gofal Preswyl i gefnogi pobl sydd â dementia ac anghenion cymhleth (gyda BIPBC). *CSSIW wedi ein cynghori i fod yn ofalus iawn wrth fabwysiadu'r dull hwn* | ARJ – IR | Model gofal diwygiedig wedi cael ei gytuno ar gyfer Garreglwyd, mewn partneriaeth gyda BIPBC. Gwaith yn mynd rhagddo ac yn cael ei reoli gan Reolwr Rhaglen y gwasanaeth. | Garreglwyd wedi ail-agor a nifer y preswylwyr yn cynyddu (cyllid ICF) | Cofrestru Garreglwyd wedi ei gwblhau, wedi cychwyn derbyn preswylwyr newydd mewn partneriaeth gyda BIPBC | Grŵp Cyflawni'r Rhaglen Gwasanaethau Oedolion |
| 5 | Oedolion | Ailgomisiynu gwasanaethau gofal cartref ar sail ardaloedd (gyda BIPBC). *CSSIW wedi ein cynghori i fod yn ofalus iawn wrth fabwysiadu'r dull hwn* | ARJ – IR | Wrthi'n tendro ar hyn o bryd am Wasanaeth Gofal yn y Cartref yn seiliedig ar ardaloedd a hynny drwy GwerthwchiGymru. | Oedi gyda dyfranu'r Contract yn Hydref 2017 oherwydd anawsterau technegol gyda sgorio | Rheolwr Trosiannol wedi cychwyn yn y swydd am 18 mis er mwyn cefnogi a monitro'r gwaith unwaith y bydd y contract wedi ei ddyfarnu.<br><br>Y tendr diwygiedig yn weithredol ar hyn o bryd.<br><br>Disgwylir bid ddiwygiedig ddechrau mis Ebrill ac y bydd y contract yn ei le erbyn Mehefin 2018. | Grŵp Cyflawni'r Rhaglen Gwasanaethau Oedolion |
| 6 | Oedolion | DoLS- angen gwella perfformiad sy'n gysylltiedig ag adolygiadau thematig ac argymhellion blaenorol. | ARJ – AH/OD | Busnes fel arfer: Mae'r gwasanaeth wedi rhoi sylw i'r angen i wella'r modd y rheolir ei asesiadau | Busnes fel Arfer – fodd bynnag, mae'r pwyllgor | Swyddog DoLS Arweiniol wedi ei nodi ac aelod ychwanegol o staff wedi ei benodi i reoli ceisiadau ac i hyrwyddo hyfforddiant a | Tîm Uwch Reolwyr y Gwasanaethau Oedolion |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Bydd AGGCC yn adolygu cynnydd yn 2017-18.** | | DoLS a bydd yn monitro cynnydd. | gwaith wedi cytuno i ryddhau capasiti ychwanegol fel y gellir cynyddu nifer yr asesiadau DoLS a gwblheir yn 2018/19 | gwybodaeth. 7 aelod os staff wedi cael hyfforddiant ac yn gymwys i gynnal asesiadau DoLS.<br>Yn recriwtio ar hyn o bryd i 2 swydd newydd i gefnogi'r gwaith hwn. | |
| 7 | Oedolion | Cynnydd annigonol i foderneiddio gwasanaethau ar gyfer oedolion gydag Anableddau Dysgu. **Bydd AGGCCSSIW yn adolygu cynnydd yn 2017-18.** | ARJ – BW (ST) | ALl i weithio ac ymgysylltu gyda mentrau cymdeithasol i symud y rhaglen hon yn ei blaen, gan gynnwys:<br>Cyd-gynhyrchu Model Byw â Chymorth, Cytundeb Fframwaith ar gyfer Gwasanaethau Dydd, Allanoli Gwasanaethau Darparwr Mewnol. | Fframwaith wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2018 | Gwahodd tendrau ar gyfer y Fframwaith ym mis Hydref 2018 mewn perthynas â gwasanaethau gofal dydd allanol.<br><br>Y gwaith o gyd-gynhyrchu Model Byw â Chymorth yn mynd rhagddo, gyda golwg ar gwblhau ymhen 12 mis (darparwr mewnol – yn digwydd yn unol â'r targed).<br><br>Allanoli Gwasanaethau Darparwr Mewnol – adolygiad pellach wedi ei gynnal ac yn bwriadu ei gadw'n fewnol gan ddefnyddio methodoleg cyd-gynhyrchu. | Grŵp Cyflawni'r Rhaglen Oedolion Fengach |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Gweithio gyda chefnogaeth arbenigol i ailfodelu ac ailstrwythuro'r gwasanaeth allanol byw â chymorth.<br><br>Wrthi'n adolygu'r gwasanaethau gofal dydd mewnol ar hyn o bryd gyda golwg ar eu moderneiddio a sicrhau eu cynaliadwyedd yn y dyfodol. | |
| 8 | Oedolion | Eiriolaeth wedi cael ei nodi fel maes y mae angen i'r Gwasanaethau Oedolion ei ddatblygu | ARJ - | Rydym yn caffael gwasanaethau eiriolaeth ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd ar gyfer yr holl gleientiaid cymwys. Bydd hyn yn caniatáu i ni gydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | Dyddiad dyfarnu contract oddeutu Hydref 2017. Dyddiad cychwyn y contract – 1 Ebrill 2018 | Tendr wedi ei chwblhau a bydd y contract yn cychwyn ar 1 Ebrill 2018. | Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaethau Oedolion |
| 9 | Plant | **Themâu AGGCC am 2017-18 mewn perthynas ag Arolygiad, Ymgysylltiad a Pherfformiad:**<br>"Penderfyniadau Lleoli ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal" | FR | Mae'r Gwasanaeth eisoes yn blaenoriaethu'r gwaith hwn. Gweithio i sicrhau bod ein penderfyniadau'n gadarn ac yn seiliedig ar asesiad clir o angen yn seiliedig ar gynllun gofal a chefnogaeth sy'n | Gwaith yn mynd rhagddo gan y Gwasanaeth<br><br>AGGCC wedi cadarnhau y byddant yn dychwelyd | Gwella a monitro cynnydd fel pwynt 3.1 o Gynllun Gwella'r Gwasanaeth | Bwrdd Gwella Gwasanaethau Plant |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | amlinellu'r ymyrraeth ar gyfer teuluoedd.<br>3.1 yng Nghynllun Gwella'r Gwasanaeth | yn hwyr yn 2018 | | |
| 10 | Plant | Gweithredu Cynllun Gwella (hyn yn cael ei fonitro gan AGGCC ynghyd â'r broses graffu fewnol). **Disgwylir ail archwiliad gan AGGCC** (cadarnhawyd ar gyfer yn hwyr yn 2018). | FR | Mae'r Gwasanaethau Plant yn blaenoriaethu camau gweithredu yn erbyn ei Gynllun Gweithredu, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd a monitro cynnydd. | Yn mynd rhagddo<br><br>AGGCC yn dychwelyd yn hwyr yn 2018 | Bydd y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Plant yn parhau i gyfarfod bob mis ac yn adolygu ac yn craffu cynnydd yn erbyn y Cynllun. | Bwrdd Gwella Gwasanaethau Plant |
| 11 | Plant | Staffio i sicrhau bod gan y Gwasanaeth ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg yn unol â chynllun Llywodraeth Cymru - 'Mwy Na Geiriau' | FR | Gyda'r nod o recriwtio'r ymgeiswyr gorau posibl, efallai y bydd angen ystyried hyfforddiant a datblygiad iaith Gymraeg ar gyfer y sawl nad ydynt yn siarad Cymraeg a hynny er mwyn cydymffurfio gyda'r gofyniad. Parheir i adolygu staff sy'n siarad Cymraeg. | 1 Hydref – 15 Ionawr 8 aelod ychwanegol o staff wedi cychwyn, 5 ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl | Wedi ei gysylltu â Chamau Gweithredu 1.1 & 1.2 yn y Cynllun Gweithredu<br><br>Sgiliau Iaith Staff yn cael eu monitro.<br>Amryw raglenni hyfforddiant a datblygu ar gael i gefnogi sgiliau iaith staff. | Tîm Rheoli'r Gwasanaethau Plant |
| 12 | Plant | Gofalwyr – rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth gofalwyr ifanc sydd wedi cael ei sefydlu | FR-MJ | Y Gwasanaeth i ddylanwadu ar y Gwasanaeth i Ofalwyr Ifanc er mwyn gostwng yr amser aros am wasanaethau | Busnes fel Arfer ond yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Gwasanaeth, | Yn gweithio ar hyn o bryd gyda Gweithredu dros Blant.<br><br>Mae'r sefyllfa o ran y rhestr aros ar gyfer y prosiect wedi gostwng ac yn Ch3, roedd y nifer i lawr i 3 theulu. | |

Tudalen 56

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Melanie Jones | Cynhaliwyd 10 asesiad yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>Nod y gwasanaeth yw peidio â chael rhestr aros ac fel modd o reoli cyfeiriadau newydd, datblygwyd system goleuadau traffig er mwyn adolygu a monitro achosion sy'n nodi'r teuluoedd mwyaf bregus, h.y. lle mae salwch difrifol / terfynol, lefelau uchel o gyfrifoldebau gofalu sy'n cael effaith negyddol ar y Gofalwr Ifanc, diogelu plant.<br><br>Unwaith y bydd cyfeiriad wedi cael ei sgrinio, mae Gweithredu dros Blant bellach yn cynnig Skype fel ffordd o gyfathrebu gyda phobl ifanc. Mae'r datblygiad hwn yn gyfrwng poblogaidd gyda'r bobl ifanc. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnig sesiynau unigol, sesiynau galw heibio yn yr holl ysgolion uwchradd ar Ynys Môn a gweithgareddau grŵp rheolaidd. | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Plant | Yr ALl yn datblygu gwasanaethau ataliol sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac adnoddau cymunedol | FR - LRh | Cynllun i ddatblygu strategaeth Ataliol Gorfforaethol ar draws ein gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc | Ebrill 2018 | Bydd cyllid Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith hwn. Strategaeth ataliol wedi cael ei llunio. Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gydag asiantaethau a grwpiau cymunedol. Cynllun cyflawni a chostiadau llawn wedi cael eu paratoi ac mae angen cytuno ar y cynnwys. | Grŵp Gwella Gwasanaethau Plant |
| 14 | Oedolion a Phlant | Strategaeth Gofalwyr – angen symud ymlaen i gomisiynu a chynllunio gwasanaethau er mwyn datblygu dealltwriaeth o effaith y gwasanaethau hyn sy'n cael eu cynnig (cyswllt â 12 uchod) | ARJ & FR | GP – Gweler Pwynt 12 uchod<br><br>GA - wedi adolygu ein strategaeth yn ddiweddar mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Gwynedd ac mewn ymgynghoriad gyda gofalwyr. | Gweler P12 uchod<br><br>Wedi'i gwblhau | GP – Gweler 12 uchod<br><br>GA – Strategaeth ddiwygiedig wrthi'n cael ei hymestyn ar hyn o bryd | Gweler P12 uchod<br><br>Busnes fel arfer Mynd rhagddo (Grŵp Gofalwyr) |
| 15 | Oedolion a Phlant | Mae'r ALl wedi archwilio cydymffurfiaeth yn erbyn y Ddeddf – wedi nodi gwaith pellach ac adnoddau sydd eu hangen | ARJ & FR –<br>DB | PG yn ymwybodol o'r blaenoriaethau a fydd angen sylw yn ystod y flwyddyn<br><br>Cynhelir archwiliad pellach yn Ch3 er mwyn monitro cynnydd. (Cafwyd oedi yn Ch3 | Yn mynd rhagddo<br><br>Archwiliad pellach yn Ch4 | Archwiliad i'w gynnal yn Ch$3 er mwyn mesur cynnydd ac i gynorthwyo i lenwi cynllun gwaith ac ACRF 18/19 | Bydd y canlyniad yn cael ei fonitro gan yr UDA ac ati |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | oherwydd pwysau gwaith eraill) | | | |
| 16 | Oedolion a Phlant | Mae gweithio'n strategol mewn partneriaeth gyda BIPBC yn parhau i fod yn heriol – rhaid i'r ALl yn yr ardal roi sylw i hyn ar y cyd | ARJ & FR | Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo drwy grwpiau megis y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 'Dydd Gwener Partneriaeth', Grŵp BCI, gwaith y Gwasanaethau Arbenigol Plant, Model Môn ac ati | Mae nifer o fentrau cydweithio ac mae gan y cyfan amserlenni gwahanol | Mae'r bartneriaeth ranbarthol yn cryfhau drwy dasgau megis 'wythnos mewn ystafell', WCCIS ac ati. YM yn cymryd rhan yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. | Pob bwrdd / grŵp unigol |
| 17 | Oedolion a Phlant | Bydd AGGCC yn parhau i adolygu camau gweithredu yn erbyn argymhellion a wnaed mewn adolygiadau thematig cenedlaethol blaenorol gan AGGCC:<br>- DoLS<br>- Gwasanaethau i Bobl gydag Anableddau Dysgu<br>- Gofal Cartref<br>- Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus | ARJ & FR<br><br>FR | DoLS – Gweler Pwynt 6 uchod<br><br>Gwasanaethau i bobl gydag Anableddau Dysgu – gweler Pwynt 7 uchod<br><br>Gofal Cartref – gweler Pwynt 5 uchod<br><br>Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) – Uwch Reolwr wrthi'n cynnal Archwiliad o'r PLO ar hyn o bryd a bydd yn crynhoi cynnydd ac unrhyw welliannau eraill y mae angen eu gweithredu. | 6 uchod<br><br>7 uchod<br><br>5 uchod<br><br>Yn mynd rhagddo | 6 uchod<br><br>7 uchod<br><br>5 uchod<br><br>Adolygiad ar y gweill. Cyfarfod gyda CAFCASS ddwywaith y flwyddyn i adolygu. Cyfarfodydd chwarterol gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Teulu mewn perthynas â PLO. Cynhaliodd y Gwasanaeth archwiliad o achosion yn y broses PLO ym Mai 2017. Roedd yn anodd dod i gasgliadau cyffredinol o'r | 6 uchod<br><br>7 uchod<br><br>5 uchod<br><br>Mae gwelliannau sy'n gysylltiedig at archwilio mewnol yn cael eu logio ar y system 4Action |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | sampl bychan o achosion ond yn gyffredinol o edrych ar yr archwiliad hwn, ymddengys bod y Cyfarfod Porthgadw Cyfreithiol yn gweithio'n dda a bod modd gwneud penderfyniadau clir ynghylch trothwyon PLO o'r wybodaeth a gyflwynwyd. Roedd angen gwelliannau o ran dilyn i fyny mewn modd amserol benderfyniad yr LGM ac ymyrraeth bwrpasol ac mae cyfarfodydd a gynhelir gyda rhieni cyn achosion yn cael eu cynnal yn ystyrlon. Ymddengys o'r archwiliad fod y llythyrau cyn achosion yn cynnwys yr holl faterion allweddol a drafodwyd. Mae angen ystyried y rhyng-wyneb rhwng y Cynllun AP a'r broses PLO a sut i sicrhau fod rhieni yn gwbl ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ohonynt gan gynnwys amserlenni ar gyfer newid.<br><br>Fel rhan o'i raglen i wella ymarfer mae gan yr Awdurdod Lleol gamau | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | gweithredu sydd wedi eu dylunio i wella ymarfer yn y PLO | |
| 18 | Oedolion a Phlant | Mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod angen iddo wneud gwaith pellach i ddatblygu canllawiau ar gyfer staff a phartneriaid wrth weithredu'r canllawiau diogelu newydd (Rhan 7 y Rheoliadau Diogelu). | ARJ & FR | Bydd yr Uned Ddiogelu'n gweithio gyda'r Gwasanaethau Oedolion i fapio allan y gofynion er mwyn sicrhau bod arferion gwaith a pholisïau yn cydymffurfio. | Mawrth 2018 | Bydd yr Uned Ddiogelu'n sicrhau bod Rheoliad 7 y rheoliadau diogelu'n cael eu bodloni.<br><br>Y Gwasanaethau Oedolion wedi gweithio gyda'r sawl sy'n arwain yn rhanbarthol ar y Bwrdd Diogelu i gynnal archwiliad o achosion er mwyn ystyried a yw'r arferion cyfredol yn y Gwasanaethau Oedolion yn cydymffurfio gyda gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Canolbwyntiodd yr archwiliad ar y meysydd canlynol:<br><br>• Ansawdd yr Adroddiadau Diogelu Oedolion (cyfeiriadau) a baratowyd gan asiantaethau partner<br>• Gwneud penderfyniadau yn | Tîm Rheoli Oedolion |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | dilyn yr Adroddiad Diogelu Oedolion<br>• Cam Ymholiadau'r Broses Ddiogelu. Mae yna dair elfen wahanol o'r cam ymholi y mae'n rhaid i'r swydd eu dilyn:<br>➢ Achos rhesymol i amau<br>➢ Gwneud ymholiadau; a<br>➢ Cofnodi canlyniad yr ymholiadau<br>• Ymgysylltiad yr Oedolyn sydd mewn Perygl / Gofalwyr / Teuluoedd yn y broses<br>• Trosolwg y broses cyfarfod strategaeth a chysylltiad yr asiantaethau partner yn y broses honno<br>• Trosolwg o achosion rhwng cyfarfodydd strategaeth | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Mae'r canlyniadau wedi cael eu rhannu gyda'r Pennaeth Gwasanaeth. Gwnaed cytundeb y bydd hyfforddiant diweddaru yn cael ei ddarparu unwaith y bydd y canllawiau Ymdrin ag Achosion Unigol a Diogelu Oedolion sydd mewn Perygl wedi cael eu cymeradwyo. Mae hyn wedi ei drefnu dros dro ar gyfer dechrau'r Flwyddyn Newydd a'r nod yw gwella cysondeb penderfyniadau ar draws y gwasanaeth. | |

At Caroline Turner Mehefin 2017
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Annwyl Gyfarwyddwr

**Adolygiad Perfformiad AGGCC o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn**

Mae'r llythyr hwn yn seiliedig ar arolygiad AGGCC, yr adolygiad perfformiad a'r gweithgareddau ymgysylltu yn ystod 2016/17. Yn y cyfarfod Adolygu Perfformiad ar 24 Mawrth 2017, darparom adborth ar ein gwaith arolygu, ymgysylltu ac adolygu perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cynnydd ar feysydd allweddol ar gyfer gwella, a datblygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd parhaus wrth weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae wedi archwilio'i gydymffurfiad â'r Ddeddf ac wedi nodi meysydd lle mae angen mwy o waith ac adnoddau arnynt. Mae'r galw am ofal a chymorth yn cynyddu, ac mae'r awdurdod lleol yn datblygu gwasanaethau ataliol er mwyn hyrwyddo annibyniaeth ac adnoddau'r gymuned.

Mae'r rhaglen trawsnewid gwasanaethau i oedolion yn rhoi pwyslais ar gefnogi pobl i fyw eu bywydau'n annibynnol. Mae'r pwynt mynediad sengl mewn gwasanaethau i oedolion wedi'i sefydlu'n gadarn, ac mae ganddo gysylltiadau cryf â'r trydydd sector. Bellach, mae'r awdurdod lleol yn ystyried ac yn gwerthuso p'un a ddylai fuddsoddi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ychwanegol i'r gwasanaeth. Mewn gwasanaethau i blant, dechreuwyd gweithredu'r pwynt mynediad sengl ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â phlant neu'r teulu ym mis Ebrill 2017.

Yn ystod 2017-18, mae'r awdurdod lleol yn bwriadu adolygu, ymgynghori ac ail-gomisiynu ei gwasanaethau ataliol i blant a phobl ifanc. Mae Gwasanaethau

AGGCC
Rhanbarth Gogledd Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy LL31 9RZ
www.aggcc.org.uk

Ffôn: 0300 790 0126
Fax: 0300 062 5030
cssiw.north@wales.gsi.gov.uk
cssiw.north@cymru.gsi.gov.uk

CSSIW
North Wales Region
Government Offices
Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy LL31 9RZ
www.cssiw.org.uk

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Arbenigol i Blant wedi datblygu eu hymgysylltiad nhw â theuluoedd, ac wedi datblygu gwasanaeth ataliol sy'n llwyddiannus mewn darparu gwybodaeth a chyngor cynnar yn yr ysgol arbenigol.

Mae'r gwasanaethau cefnogi a chydlynu asedau cymdeithasol yn enghraifft gadarnhaol o ddatblygu modelau gwahanol o ddarpariaeth, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r rhain wedi'u hymestyn y tu hwnt i oriau'r swyddfa ac ar gael gyda'r hwyr ac ar benwythnosau.

Mae'r awdurdod wedi cydnabod bod angen datblygu'i wasanaethau ymhellach ar gyfer yr henoed. Wrth weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB), mae'r awdurdod lleol yn datblygu ei wasanaethau preswyl er mwyn cefnogi pobl sydd â dementia ac anghenion cymhleth. Maent hefyd yn ail-gomisiynu gwasanaethau gofal cartref mewn ardaloedd. Mae AGGCC wedi cynghori i ymdrin a'r dull gweithredu hwn gyda gofal.

Yn ôl y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid , mae Cyngor Sir Ynys Môn yn allanolyn o ran ei berfformiad, ac mae'n edrych ar ei brosesau casglu data er mwyn deall yn well y rhesymau dros hyn. Er mwyn gwella perfformiad, mae'r awdurdod lleol wedi penodi swyddog i reoli ceisiadau, ac wedi hyfforddi staff eraill i helpu. Bydd AGGCC yn edrych ar y maes hwn eto yn 2017-18.

Ni welwyd cynnydd digonol wrth foderneiddio gwasanaethau i oedolion sydd ag anableddau dysgu. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ymgysylltu â mentrau cymdeithasol a gwella ar hyn yn 2017-18. Bydd y cynnydd hwn a'r dulliau datblygu yn cael eu monitro gan AGGCC.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi eiriolaeth fel maes i'w ddatblygu mewn gwasanaethau i oedolion. Gwelwyd bod gwasanaethau i blant yn gwneud defnydd effeithiol o eiriolaeth anffurfiol.

Mae gan yr awdurdod lleol gyfran sylweddol o staff sy'n siarad Cymraeg, er mwyn bodloni gofynion 'Mwy na Geiriau.' Fodd bynnag, mae defnyddio staff o'r asiantaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi lleihau nifer y staff sy'n gymwys o ran yr iaith Gymraeg yn y gwasanaethau i blant.

Mae'r bartneriaeth strategaeth o weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau'n heriol, ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol y rhanbarth fynd i'r afael â hyn ar y cyd.

Adborth ar y themâu ymgysylltu blynyddol

Yn ystod 2016-17, gwnaed amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu gennym dros yr holl awdurdodau yng Nghymru. Mae'r gweithgaredd ymgysylltu hwn yn canolbwyntio ar ddwy brif thema sef diogelu oedolion a gofalwyr.

- Diogelu

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu ei bolisi, ei weithdrefnau a'i ymarfer diogelu corfforaethol mewn ymateb i newidiadau deddfwriaethol. Mae'r gwasanaeth diogelu a sicrwydd ansawdd wedi darparu trosolwg effeithiol o reolaeth y prosesau o ddiogelu oedolion.

Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau diogelu cyson a sefydlog gan ddefnyddio rheolwyr profiadol penodol, archwiliadau rheolaidd a chyfarfodydd i ddatblygu dysgu a gwella'r ymarfer. Maent yn atgyfeirio llai o bobl at y gwasanaeth diogelu, ac maent yn fwy priodol oherwydd cânt eu sgrinio gan weithiwr cymdeithasol yn y gwasanaeth Pwynt Mynediad Unigol.

Mae'r awdurdod lleol wedi adnabod meysydd sydd angen mwy o waith arnynt er mwyn datblygu canllawiau ar gyfer staff a phartneriaid ynghylch gweithredu'r canllawiau diogelu newydd.

- Gofalwyr

Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu gwasanaethau sefydlog yn y trydydd sector ar gyfer gofalwyr. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cael eu gwerthfawrogi gan ofalwyr, gyda dull ataliol yn amlwg yng ngwasanaethau Agewell. Mae gwasanaethau cefnogi dementia hefyd yn cael eu datblygu, fel canolfan gymunedol Pobol Seiriol.

Mae gan yr aelod etholedig sy'n hyrwyddwr ar y gofalwyr, ddigon o wybodaeth am anghenion y gofalwyr, ac mae'n ymgysylltu â gofalwyr yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth gofalwyr ifanc sefydlog, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau grŵp ac unigol. Bu i rai pobl sydd â salwch iechyd meddwl neu broblemau camddefnyddio sylweddau gael bywydau prysur, a wnaeth gael effaith enfawr ar y rhai sy'n gofalu amdanynt. O ganlyniad, roedd eu gofalwyr yn gofidio amdanynt yn fawr.

Dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r swyddogion wedi rhoi sylw cyson i ddatblygu'r strategaethau a'r gwasanaethau i ofalwyr. Mae gwasanaethau wedi'u creu, ond ni ddatblygwyd dealltwriaeth o effaith y gwasanaethau hyn. Mae'r strategaeth i ofalwyr cyfredol yn adnabod yr angen am ddatblygu sut y caiff y gwasanaeth ei gomisiynu a'i gynllunio.

Cynnydd ar argymhellion a godwyd o arolygiadau AGGCC

Edrychodd yr arolygiad o wasanaethau plant ym mis Tachwedd 2017 ar ganlyniadau'r plant sydd angen help, gofal, cymorth a diogelwch. Bu iddo hefyd edrych ar y gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth. Darganfuwyd gan yr arolygiad bod pryderon mawr ynghylch sut roedd y rheolaeth yn edrych ar ddiogelu, mynediad ac asesu, a pha mor gyflym yr oedd y gwasanaeth yn gwella. Yn ystod y flwyddyn, roedd pwysau ychwanegol yn wynebu'r gwasanaeth i blant, oherwydd cynnydd yn y galw am blant sydd angen gofal. Un o'r meysydd allweddol sydd angen ei ddatblygu yn y gwasanaethau i blant yw datblygiad y gweithlu. Mae aelodau gweithredol a'r cyngor yn rhan fawr o'r agenda ar gyfer gwella ac yn ymgysylltu'n fawr â'r rhaglen. Mae'r awdurdod lleol wedi creu cynllun gwella sy'n cael ei fonitro gan AGGCC drwy gyfres strwythuredig o gyfarfodydd adolygu. Mae AGGCC hefyd yn arsylwi cyfarfodydd swyddogion allweddol ac aelodau craffu, ac yn dilyn profiadau teuluoedd. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ail-adolygu er mwyn gwerthuso'r cynnydd.

Cynllun Arolygu, Ymgysylltu ac Adolygu Perfformiad

Yn 2017-18, yn ogystal â'r meysydd a nodwyd uchod bod angen eu dilyn; o ran adolygiad, ymgysylltiad ac adolygu perfformiad, nodwyd gan AGGCC bod angen mynd i'r afael â'r themâu canlynol:

- Cefnogi pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl, gan ganolbwyntio ar dimoedd iechyd meddwl cymunedol
- Penderfyniadau ar leoliadau'r plant sy'n derbyn gofal

Bydd AGGCC yn rhoi rhybudd o chwe wythnos os byddant yn cynnal arolygiad i'r awdurdod yn ystod 2017/18 yn ôl yr amserlen.

Hefyd, bydd AGGCC yn parhau i ystyried pa gamau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol mewn perthynas ag argymhellion yn ei adolygiadau thematig cenedlaethol gan gynnwys trefniadau amddifadedd diogelu rhyddid, gwasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, gofal cartref ac Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

Gwaith AGGCC gydag arolygwyr sy'n bartneriaid

Byddwch yn sylwi bod y llythyr hwn wedi'i anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae AGGCC yn gweithio'n agos gydag arolygwyr sy'n bartneriaid er mwyn ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, yn ogystal â'r cyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf i ni ysgrifennu atoch fel hyn, ni fyddwn yn cyhoeddi'r llythyr hwn, ond byddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol.

Yn gywir,



Vicky Poole

Cyfarwyddwr Rhanbarthol

Anfonwyd copi at y canlynol:

Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Estyn
Swyddfa Archwilio Cymru

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 23/04/18 |
| **Pwnc:** | Trawsnewid Gwasanaethau Anableddau Dysgu |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddariad ar y Rhaglen Trawsnewid |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Aled Morris Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cynghorydd Llinos Medi Huws |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn R Jones |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Sandra Thomas, Rheolwr Rhaglen x 2024<br>sltss@ynysmon.gov.uk<br>Barbara Williams, Rheolwr Gwasanaeth x 2738<br>bwxss@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | - |

**1– Argymhelliad/ion**

1.1 Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn y datganiad hwn ar y sefyllfa mewn perthynas â'r gwasanaeth Anabledd Dysgu.

1.2 Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn cymeradwyo'r datblygiadau arfaethedig i'r gwasanaeth hwn.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

2.1 Mae'r weledigaeth a amlinellwyd yn cefnogi'n llawn y gwaith o gyflawni'r amcanion hynny a fabwysiadwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2017-2022 sy'n nodi bod y blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol agos yn cynnwys :

- Creu'r amodau i bawb gyrraedd eu potensial hirdymor.
- Cefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd a'u cadw mor ddiogel, iach ac annibynnol â phosib.

2.2 Mae'r amcanion allweddol yn y Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys:

- Datblygu modelau llety a modelau cymorth hyblyg ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl er mwyn hyrwyddo byw'n annibynnol yn ein cymunedau.
- Gwneud ein gorau glas i greu'r amodau i fusnesau lleol ddatblygu a chreu swyddi o ansawdd da yn Ynys Môn. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod gwariant y Cyngor yn cefnogi busnesau lleol. (= yn gysylltiedig â chreu fframwaith ar gyfer comisiynu gwasanaethau dydd).

| 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>3.1 Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>3.4 Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor<br>• atal<br>• integreiddio<br>• cydweithio<br>• cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| 1. Beth yw'r risgiau allweddol o ran cyflenwi a sut bwriedir lliniaru hyn. A yw'r arbedion a gynlluniwyd yn gyraeddadwy?<br><br>2. Pa welliannau pellach sydd wedi'u cynllunio yn y tymor byr/canolig i gyflawni rhaglen trawsnewid?<br><br>3. Beth yw'r gwersi allweddol o ymgysylltu â rhanddeiliaid a sut y defnyddir y wybodaeth hon i wella gwasanaethau? |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|
| **5.0 Trosolwg**<br><br>5.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu ac yn benodol ar y Rhaglen Trawsnewid o fewn y gwasanaeth.<br><br>5.2 Mae'r Rhaglen Trawsnewid yn uchelgeisiol ac yn drawsbynciol ac yn cefnogi'r weledigaeth ganlynol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu yn y dyfodol:<br><br>*"Y weledigaeth gyffredinol yw cael gwasanaethau o ansawdd uchel, cynaliadwy, cost-effeithiol sy'n creu'r amodau i bawb ag anabledd dysgu i gyflawni eu potensial yn y tymor hir"*<br><br>5.3 Mae Prosiectau Trawsnewid sydd wedi'u cwblhau'n llwyddiannus yn ystod y 12 mis diwethaf yn cynnwys Ail-lansio'r Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol (TU) ar gyfer pob grŵp cleient, ac nid dim ond anabledd dysgu. Fe wnaethom gyd-gynhyrchu'r newidiadau gyda defnyddwyr gwasanaeth, gan ganolbwyntio ar y meysydd y tybir eu bod yn broblem gan y rhai a oedd, ac sydd yn derbyn TU ar hyn o bryd. O dan eu harweiniad, bu modd i ni wella'r cymorth a'r gefnogaeth yr ydym yn eu rhoddi i'r sawl |

sy'n derbyn TU am y tro cyntaf a hynny'n ystod y cyfnod sefydlu a'r tri mis cyntaf o'u TU; fe wnaethom wella'r mynediad parhaus i gyngor technegol ynghylch bod yn gyflogwr ac fe gafodd gwefan y cyngor ei gwella er mwyn darparu gwybodaeth fwy cyfredol a defnyddiol am TU. Mae nifer y bobl sydd wedi cymryd taliadau TU wedi dyblu bron o 59 ym mis Medi 2016 i 112 ym mis Mawrth 2018.

Mae'r prosiect TU bellach wedi'i gau ond bydd y Gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu â'r holl ddefnyddwyr TU cyfredol yn ystod 2018/19 er mwyn canolbwyntio ymdrechion ar wneud gwelliannau pellach lle maen nhw'n credu eu bod yn angenrheidiol.

5.4 Mae'r Rhaglen Trawsnewid yn parhau gyda'r prosiectau canlynol:

5.4.1 Adolygu ac ail-fodelu'r cynlluniau Tai â chefnogaeth mewnol ac allanol gan ddefnyddio'r fethodoleg cyd-gynhyrchu.

5.4.2 Adolygu ac ail-fodelu'r gwasanaethau gofal dydd a chyfleoedd gwaith mewnol a'r rhai a gomisiynir yn allanol.

5.4.3 Sefydlu prosiect Symud Ymlaen newydd yn Llawr y Dref.

5.5 Mae'r cynllun gwaith ar gyfer pob un o'r prosiectau sy'n mynd rhagddynt yn fanwl ac yn gynhwysfawr. Ceir amlinelliad yn **Atodiad 1** o bob prosiect, ynghyd â'r effaith ar rhanddeilwyr, y gweithgaredd allweddol hyd yma a'r camau a gymerir yn y chwarter nesaf:

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| AEaG ar gael i bob prosiect – yn mynd iw diweddaru yn y chwarter nesaf |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Fel y manylir yng nghynllun ariannol y gwasanaeth. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **Atodiad 1**: Crynodeb pellach o bob prosiect |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| 9.1 Papurau'r Bwrdd Trawsnewid Oedolion<br>9.2 PIDS a chynlluniau prosiect manwl i bob prosiect<br>9.3 Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Oedolion 2018/19<br>9.4 Rhestr Risg y Rhaglen<br>9.5 AEaG ar gyfer bob prosiect<br>9.6 Cynllun arbedion y gwasanaeth |

**ATODIAD 1**

**CRYNODEB O BOB PROSIECT:**

## 1. Prosiect: Tai â chefnogaeth mewnol

**Amlinelliad:** Nod y prosiect hwn yw adolygu ac ail-fodelu'r gwasanaethau byw â chymorth mewnol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas, yn sicrhau'r llesiant mwyaf posibl i'r unigolyn ac yn hyrwyddo cyflawniad nodau personol. Byddwn yn sicrhau'r defnydd gorau o dechnoleg teleofal ac yn mabwysiadu agwedd fwy positif tuag at risg - gan gadw pob unigolyn mor annibynnol ag sy'n bosibl a chanolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol.
**Arian:** Bydd arbedion ariannol hefyd yn cael eu hystyried a bydd y gwasanaeth yn fwy effeithlon ac ariannol gynaliadwy yn y tymor hirach. Mae angen gwneud cynnydd ar y gwaith yma gan bod newidiadau yng nghronfa Cefnogi Pobl yn golygu bod angen arbedion ariannol o £287k erbyn Ebrill 2019. Mae'r prosiect yma yn un o'r rhai sydd wedi eu effeithio gan y newidiadau yma.
**Rhanddeiliaid:** 13 o ddefnyddwyr gwasanaeth a thua 50 o staff y Cyngor mewn 3 lleoliad (Star, Llanerchymedd a Llangefni).
**Effaith:** Dim effaith ar drefniadau llety – mae'r ffocws ar y lefel a math o ofal a chefnogaeth bydd yn cael ei ddarparu i unigolion lle maent yn byw ar hyn o bryd.
**Gweithgaredd allweddol hyd yn hyn:**

- Er mwyn hwyluso hyn, mae'r cyngor wedi cytuno i ohirio am y tymor canol, y bwriad i allanoli'r gwasanaeth.
- Mae'r holl becynnau gofal wedi cael eu hailasesu ac mae adolygiad o arferion gwaith a thelerau ac amodau wedi cael ei gynnal gyda'r gwasanaeth Adnoddau Dynol a chyfranogiad yr Undeb.
- Parheir i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, staff a theuluoedd.

**Camau nesaf:**

- Ymgynghori'n ffurfiol â staff ar y telerau a'r amodau a'r arferion gwaith newydd.
- Ymgysylltu'n barhaus â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd i sicrhau dealltwriaeth a chytundeb llawn i'r newidiadau.

**Dyddiad gorffen arfaethedig: 31 Hydref 2018**

---

## 2. Prosiect: Tai â chefnogaeth allanol

**Amlinelliad:** Nod y prosiect hwn yw gweithio gyda'r darparwyr presennol a defnyddwyr y gwasanaeth i gyd-gynllunio a chyd-gynhyrchu model gwasanaeth sy'n cwrdd ag anghenion statudol defnyddwyr y gwasanaeth ac sy'n sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas, yn sicrhau'r llesiant mwyaf posibl i'r unigolyn ac yn hyrwyddo cyflawniad nodau personol.
**Arian:** Yn ogystal â mynd i'r afael â'r diffyg ariannol, byddwn yn gwneud y gwasanaethau'n fwy effeithlon ac ariannol gynaliadwy yn y tymor hirach. Mae angen gwneud cynnydd ar y gwaith yma gan bod newidiadau yng nghronfa Cefnogi Pobl yn golygu bod angen arbedion ariannol o £287k erbyn Ebrill 2019. Mae'r prosiect yma yn un o'r rhai sydd wedi eu effeithio gan y newidiadau yma.
**Rhanddeiliaid:** 45 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gefnogir gan 4 darparwr allanol (gyda tua 150 aelod o staff) mewn tai ar draws yr ynys.
**Effaith:** Dim effaith ar drefniadau llety – mae'r ffocws ar y lefel a math o ofal a chefnogaeth bydd yn cael ei ddarparu i unigolion lle maent yn byw ar hyn o bryd.
**Gweithgaredd allweddol hyd yn hyn:**

- Er mwyn hwyluso hyn, rydym wedi sicrhau cytundeb gan y Cyngor i ohirio ail-dendro'r contractau hyn am gyfnod o hyd at dair blynedd.
- Gyda chymorth hwylusydd allanol, rydym wedi dechrau'r gwaith cyd-gynhyrchu gyda'r darparwyr.
- Grŵp llywio yn awr yn cyfarfod bob mis i fynd â hyn yn ei flaen.

**Gweithgaredd chwarter nesaf:**

- Ail-asesu pob pecyn gofal ac adolygiad o arferion gwaith pob darparwr
- Rhannu arferion da rhwng darparwyr i sicrhau'r manteisio mwyaf o gyd-gynhyrchu
- Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd i sicrhau dealltwriaeth a chytundeb llawn i'r newidiadau.

**Dyddiad gorffen arfaethedig: 31 Rhagfyr 2019**

---

**3. Prosiect: Gwasanaethau dydd mewnol (Cam 1)**

**Amlinelliad o'r prosiect:** Asesu'r posibiliadau ar gyfer dulliau eraill o ddarparu'r gwasanaethau mewnol presennol er mwyn ymateb i ddatblygiadau'r farchnad ac i foderneiddio'r gwasanaeth yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
**Rhanddeiliaid:** Tua 100 o ddefnyddwyr gwasanaeth a thua 40 o staff y Cyngor mewn 4 lleoliad (yng Nghaergybi. Gwalchmai, Llangefni a Llangoed)
**Effaith:** Bydd y gwasanaethau gyda ffocws penodol ar allbynnau i unigolion ac, yn ddibynnol ar ganlyniad yr adolygiad, efallai yn cael eu darparu mewn gwahanol leoliadau.
**Gweithgaredd allweddol hyd yma:**

- Mae'r Prosiect Dilyniant a ariennir gan yr ICF wedi adolygu pob unigolyn i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n briodol ac yn y lleoliad cywir.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r siwrneiau cyfredol neu'r trefniadau "teithio i'r gwaith" ar gyfer holl ddefnyddwyr cyfredol y gwasanaeth ac mae'n cynnwys gwybodaeth am y dulliau cludiant o gartrefi'r defnyddwyr i'r gwasanaethau dydd, y pellter a deithiwyd ac amseroedd cymudo dyddiol.

**Gweithgaredd chwarter nesaf:**

- Gwerthusiad pellach o'r holl wasanaethau dydd gan gynnwys y gweithgareddau a gynigir, cydweithio posibl ar draws gwahanol leoliadau, pwy sy'n mynychu pob gwasanaeth a beth yw dyheadau personol pob unigolyn.
- Ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch gofynion a lleoliadau'r dyfodol ar gyfer y gwasanaethau
- Cynigion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2018 gyda PID
- Gweithredu'r cynigion fydd Cam 2 y prosiect.

**Dyddiad gorffen arfaethedig: 31 Mawrth 2019**

---

**4. Prosiect: Gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith allanol**

**Amlinelliad o'r prosiect:** Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn comisiynu gwasanaethau anffurfiol gan chwe darparwr ar sail ad-hoc. Mae'r prosiect yn golygu symud i fframwaith ffurfiol neu system brynu ddynamig sy'n seiliedig ar fodel 'cymorth gweithredol' ac sy'n canolbwyntio ar ddilyniant a chynyddu dewis a rheolaeth i'r defnyddwyr gwasanaeth.

**Rhanddeiliaid:** Mae tua 100 o ddefnyddwyr gwasanaeth â chwe darparwr cyfredol yn cyflogi tua 40 aelod o staff.
**Effaith:** Bydd y gwasanaethau gyda ffocws penodol ar allbynnau i'r unigolyn ac wedi eu tanategu gyda fframwaith comisiynu mwy cadarn.
**Gweithgaredd allweddol hyd yn hyn:**

- Mae'r fanyleb gwasanaeth newydd wedi'i drafftio a chytunwyd ar fformat y system brynu.

**Gweithgaredd chwarter nesaf:**

- Cwblhau'r dogfennau ar gyfer y system brynu
- Diwygio arferion gwaith i hwyluso gweithrediad y system newydd (atgyfeiriadau, monitro canlyniadau, talu darparwyr ac ati)
- Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd i sicrhau bod y gwasanaeth newydd yn addas i'r pwrpas.

**Dyddiad gorffen arfaethedig: 31 Hydref 2018**

---

**5. Prosiect: Symud Ymlaen Llawr y Dref**

**Amlinelliad o'r prosiect:** Datblygu gwasanaeth o'r newydd yn rhoi cyfle i unigolion gydag anabledd dysgu gael eu asesu i fyw yn annibynnol. Mae'r prosiect yn cynnwys nodi tri unigolyn sydd naill ai mewn llety â chymorth neu sy'n byw gyda rhieni oedrannus ar hyn o bryd i symud i fflatiau un gwely yn Llawr y Dref am gyfnod o 3 i 18 mis. Byddant yn cael eu hasesu, eu cefnogi a'u paratoi ar gyfer symud ymlaen i fyw'n annibynnol mewn llety parhaol. Pan fydd unigolyn yn symyd yn eu blaen bydd cyfle i rhywyn arall gymryd eu lle.
**Rhanddeiliaid:** 3 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gefnogir gan y darparwr gofal cartref mewnol.
**Effaith:** Prosiect newydd yn agor cyfleodd nad oedd ar gael ynghynt i unigolion gael eu asesu a'u cefnogi i fyw yn annibynnol.
**Gweithgaredd allweddol hyd yn hyn:**

- Mae fflatiau Llawr y Dref yn cael eu hadnewyddu gan y Gwasanaeth Tai.
- Mae Gweithwyr Cymdeithasol wrthi'n ceisio nodi defnyddwyr gwasanaeth a allai fod yn barod i symud ymlaen ar ôl cael eu hasesu

**Gweithgaredd chwarter nesaf:**

- Gwasanaeth Tai i gwblhau adnewyddu'r fflatiau a rhyddhau'r tair uned (Mehefin / Gorffennaf 2018)
- Gwasanaethau Cymdeithasol i gwblhau'n derfynol fanylion:
  - y model gwasanaeth cymorth
  - y llwybrau i mewn ac allan o Llawr y Dref (pwy sy'n gymwys ar gyfer yr uned a beth yw'r opsiynau o ran symud ymlaen yn dilyn asesiad)
  - cytuno ar y trefniadau tenantiaeth a budd-dal tai yn y tymor byr

**Dyddiad gorffen arfaethedig: 31 Hydref 2018**

---

Diwedd

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 23 Ebrill 2018 |
| **Pwnc:** | Enwebiad ar gyfer y Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Enwebu un Aelod i'r Pwyllgor hwn |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Aled Morris Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd R Meirion Jones (Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant) |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Arwyn Williams (Pennaeth Dysgu) |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Geraint Roberts (Swyddog Sgriwtini)<br>01248 752039<br>GeraintRoberts@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| 1.1. Gofynnir i'r Pwyllgor enwebu un aelod yn lle'r Cynghorydd Eric Jones ar y Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Amherthnasol |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- tymor hir
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| Amherthnasol |

| **5 – Cefndir / Cyd-destun** |
|---|
| Ar 26 Mehefin a 11 Gorffennaf 2017, derbyniodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adroddiad yn gofyn am enwebiadau gan 4 Aelod o'r Pwyllgor hwn i eistedd ar y Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion . Enwebodd yr Aelodau y Cynghorwyr John Arwel Roberts, Alun Roberts, Richard Griffiths a Shaun Redmond.<br><br>Yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Shaun Redmond o'r Panel Sgriwtini- Adolygu Cynnydd Ysgolion , bydd angen enwebu un Aelod o'r Pwyllgor hwn i eistedd ar y Panel Sgriwtini.<br><br>Mae'r Panel Sgriwtini yn cynnwys cyfanswm o 8 Aelod, gyda'r 4 arall yn cael eu henwebu gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Mae Cylch Gorchwyl y Panel wedi'i atodi fel ATODIAD 1. |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| 1. Cylch Gorchwyl y Panel Sgriwtini: Panel Cynnydd Ysgolion |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| - |

# ATODIAD 1

## CYLCH GORCHWYL Y PANEL SGRIWTINI :ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Pwrpas y ddogfen hon yw dangos y cylch gorchwyl.

**1.0 CEFNDIR**

1.1 Sefydlwyd y Panel ar 21 Tachwedd 2012 gan y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a

Hamdden. ‘Roedd yn codi o argymhellion a wnaed gan Estyn ar ansawdd gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Ynys Môn.

1.2 Mae’r Pennaeth Dysgu a’r Uwch Reolwr Safonau Ysgolion a Chynhwysiad yn rhoi arweiniad i'r Panel am ysgolion y gallai fod yn briodol eu gwahodd i ymddangos ger ei fron. Mae’r maen prawf a ddefnyddir i ddewis ysgolion yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion, perfformiad yr ysgol ac adroddiadau Estyn. Y nod yw cael cymysgedd da o ysgolion bach, canolig, mawr cynradd / uwchradd. Pwysleisir mai mater i’r Panel yn unig fydd dewis pa ysgol a fydd yn ymddangos o’i flaen.

1.3 Gall y Panel wahodd ysgolion i ailymddangos o’i flaen os oes materion y bydd angen eu hailystyried yn ddiweddarach.

**2.0 RÔL Y PANEL**

2.1 Gwella gwella perfformiad yr holl ysgolion ar Ynys Môn drwy herio perfformiad ysgolion unigol yn gadarn.

2.2 Annog rhannu ymarfer da rhwng ysgolion, gan fanteisio ar wersi a ddysgwyd ac o brofiad ysgolion unigol.

2.3 Gwella gwybodaeth yr aelodau lleol am yrwyr perfformiad allweddol a'r heriau sy'n wynebu ysgolion ar Ynys Môn.

2.4 Rhoi hyder i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Sgriwtini, y Pwyllgor Gwaith a'r Rheoleiddwyr bod perfformiad ysgolion yn cael ei fonitro gan yr aelodau.

2.5 Cynorthwyo'r Gwasanaeth Dysgu gyda rhaglenni a phrosiectau addysgol cyffredinol a chynyddu gwybodaeth am drefniadau gweithio ar y cyd rhwng y Cyngor a GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion ar gyfer Gogledd Cymru) er mwyn codi safonau.

**3.0 Y BROSES A’R TREFNIADAU AR GYFER ADRODD**

3.1 Derbyn adroddiadau gan y Pennaeth Dysgu a’r Uwch Reolwr Safonau Ysgolion

ar berfformiad ysgolion unigol.

3.2 Derbyn adroddiadau gan yr Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (GwE) ar berfformiad ysgolion unigol.

3.3 Derbyn adroddiadau gan benaethiaid ar berfformiad ysgol ynghyd â’r gweithdrefnau a fabwysiadwyd sydd wedi arwain at well perfformiad.

3.4 Gwneud argymhellion neu godi unrhyw fater sy'n peri pryder i sylw'r Pennaeth Dysgu a’r Aelod Portffolio perthnasol lle bo angen.

3.5 Uwchgyfeirio materion ar gyfer sgriwtni lle bo angen.

3.6 Cyflwyno adroddiadau ar gynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio pob blwyddyn galendr.

**4.0 AELODAETH**

4.1 Y Panel i gynnwys 8 aelod (y Pwyllgor Sgriwtni Partneriaeth ac Adfywio i enwebu 4 aelod a’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i enwebu 4 aelod).

4.2 Os bydd unrhyw aelod enwebedig yn ymddiswyddo o'r Panel neu ddim yn gallu parhau i fod yn aelod ohono (am ba reswm bynnag), bydd y Rhiant-Bwyllgor Sgriwtini yn enwebu aelod arall yn ei le.

**5.0 AMLDER A GWEINYDDU**

5.1 Bydd y Panel yn ceisio ystyried perfformiad 10 ysgol ym mhob blwyddyn galendr.

5.2 Bydd gan holl gyfarfodydd y Panel raglen ysgrifenedig a rhoddir cyfle i aelodau gynnig eitemau ar gyfer y rhaglen cyn y cyfarfod.

5.3 Cymerir cofnodion yn yr holl gyfarfodydd o’r Panel a fydd yn cynnwys crynodeb o'r pwyntiau trafod allweddol ac unrhyw gamau y cytunwyd i’w cymryd.

5.4 Nid oes raid cael cworwm i’r Panel fedru bwrw ymlaen ond dylid rhoi sylw difrifol i ohirio'r cyfarfod os bydd llai na thri aelod yn bresennol.

**6.0 ADOLYGU’R CYLCH GORCHWYL**

6.1 Adolygir y Cylch Gorchwyl bob blwyddyn gan y Panel. Bydd raid cyflwyno unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i’w cymeradwyo’n ffurfiol.

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL: 2017/2018 → 2018/19

Cadeirydd: Cynghorydd Aled Morris Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Dylan Wyn Rees

Mae’r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o’r Pwyllgor Sgriwtini i’r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752578

E-bost: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| **Mai, 2017** | | |
| **31 Mai 2017**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 3.30yp | Ethol Cadeirydd y Pwyllgor | Trefniadau llywodraethiant effeithiol |
| | Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor | Trefniadau llywodraethiant effeithiol |
| **Mehefin, 2017** | | |
| **26 Mehefin 2017**<br>**[CH4: 2016/17]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2016/17<br>Adroddiad SAC ar salwch fel atodiad | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, 2016/17 | Monitro perfformiad |
| | Strategaeth Tai Gwag 2017/2022 | Datblygu Polisi |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau | Enwebu Aelodau |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Gorffennaf, 2017** | | |
| **11 Gorffennaf 2017**<br>**[Cyfarfod arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghoriad Statudol ardal Llangefni | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Moderneiddio Ysgolion – Rhaglen Amlinellol Strategol – Band B (2019/24) | Trawsnewid |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau – enwebiad i'r Panel Gwella Ysgolion | Enwebu Aelodau |
| **Medi, 2017** | | |
| **4 Medi 2017**<br>**[CH1: 2017/18]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Sgorffwrdd Corfforaethol [CH1 ] 2017/18 | Monitro perfformiad |
| | Cynllun y Cyngor 2017/2022 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | Eitem er Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2016/17) | Er gwybodaeth / monitro perfformiad |
| **Hydref, 2017** | | |
| **2 Hydref 2017** **[Cyfarfod arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17 (AGGCC) | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17 | Monitro perfformiad |
| | Tai Gofal Ychwanegol – Ardal Seiriol | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| **31 Hydref 2017** **[Cyllideb]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Tachwedd, 2017** | | |
| **13 Tachwedd 2017** **[CH2: 2017/18]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2017/18 | Monitro perfformiad |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Trawsnewid |
| | Strategaeth Rheoli Asedau -Tai Cyngor | Datblygu Polisi |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Ionawr, 2018** | | |
| **31 Ionawr, 2018** | Tai Gofal Ychwanegol – ardal Seiriol (crynodeb o adborth yn sgîl y broses ymgysylltu) | Trawsnewid |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| **[Cyfarfod Arbennig]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Cludiant ysgol | Cyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant / Monitro perfformiad |
| | Rhaglen Wella Mân-ddaliadau | Rhybudd o gynnig o'r Cyngor Llawn |
| | Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd (2016/17) | Monitro perfformiad – er gwybodaeth |
| **Chwefror, 2018** | | |
| **5 Chwefror 2018**<br>**[Cyllideb]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Cyllideb Ddrafft 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (Panel Sgriwtini Cyllid) | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| **Mawrth, 2018** | | |
| **12 Mawrth 2018**<br>**[CH3: 2017/18]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2017/18 | Monitro perfformiad |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Seiriol | Trawsnewid |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn) | Trawsnewid |
| | Asesiad Digonolrwydd Chwarae | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Ebrill, 2018** | | |
| **23 Ebrill 2018**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Corn Hir, Bodffordd a Henblas) | Trawsnewid |
| | Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol – cynnydd ar y meysydd blaenoriaeth | Monitro perfformiad<br>[Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 02/10/17] |

Tudalen 80

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | Trawsnewid Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Trawsnewid |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Mehefin, 2018** | |
| **4 Mehefin, 2018**<br>**[CH4: 2017/18]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2017/18 | Monitro perfformiad |
| | Cynlluniau Adfywio Cymunedol – Amwlch a Biwmaris (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad<br>[Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 02/10/17] |
| | Cynllun Gofal Plant [i'w gadarnhau] | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Monitro perfformiad |
| | Trafnidaeth Ysgol – diweddariad ar wireddu'r cynllun gweithredu | Monitro perfformiad<br>[Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 31/01/18] |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Medi, 2018** | |
| **3 Medi, 2018**<br>**[CH1: 2017/18]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH1] 2018/19 | Monitro perfformiad |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Hydref, 2018** | |
| **24 Hydref, 2018**<br>**[Cyllideb]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17 | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Tachwedd, 2018** | |
| **5 Tachwedd, 2018 [Ch2: 2018/19]** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2018/19 | Monitro perfformiad |
| Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Strategaeth Ddigartref | Datblygu Polisi |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Chwefror, 2019** | |
| **4 Chwefror, 2019 [Cyllideb]** | Cyllideb Ddrafft 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Mawrth, 2019** | |
| **11 Mawrth, 2019 [CH3: 2018/19]** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2018/19 | Monitro perfformiad |
| Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | | |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Ebrill, 2019** | |
| **8 Ebrill, 2019** | | |
| Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | | |

Tudalen 82

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **EITEMAU I'W RHAGLENNU** | |
| I'w gadarnhau | Moderneiddio'r Gwasanaeth Hamdden anstatudol (cyfnod 3 blynedd) | Trawsnewid |
| I'w gadarnhau (Mehefin, 2019) | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2018/19 | Monitro perfformiad |
| I'w gadarnhau | Rheoli Ynni | Monitro perfformiad (Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 31/10/17) |
| I'w gadarnhau | Tlodi Tanwydd – cynlluniau i gefnogi cartrefi | Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 13/11/17] |
| I'w gadarnhau | Effeithiau Diwygio Lles | Monitro perfformiad |
| I'w gadarnhau (Medi/Hydref, 2018) | Adolygiad o gynnydd - Cynllun y Cyngor (ar ddiwedd 12 mis) | Monitro perfformiad |
| I'w gadarnhau | Blaen raglen waith: 2018/19 | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |

This page is intentionally left blank